# Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 294/2024
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2024
Yn disodli dogfen ganllawiau rhif: 255/2019

# Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

**Y Gynulleidfa**

Penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, athrawon sy'n gyfrifol am a phwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, undebau athrawon ac eraill, dysgwyr, rhieni/gofalwyr, sefydliadau cefnogi rhieni/gofalwyr, awdurdodau esgobaethol a sefydliadau gwirfoddol.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar waharddiadau a gweithdrefnau apêl ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r canllawiau hyn yn diweddaru Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru rhif: 255/2019.

**Camau i'w cymryd**

Mae angen i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol dalu sylw i'r canllawiau wrth ystyried gwahardd dysgwr ac wrth wahardd dysgwr.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i:
Y Gangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Yr Is-adran Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: CCD.SAS@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/gwahardd-o-ysgolion-ac-unedau-cyfeirio-disgyblion

**Dogfennau cysylltiedig**

Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

Ydych chi'n cael eich gwahardd o'r ysgol?
Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 ISBN digidol 978-1-83577-248-5 WG48761

# Cynnwys


**Crynodeb** **3**

**Cyflwyniad** **4**

Y fframwaith cyfreithiol 4

Diffiniadau 4

Polisïau ymddygiad 5

**1. Defnyddio gwaharddiad** **7**

1.1 Y penderfyniad i wahardd 7

1.2 Gwaharddiadau sy’n gysylltiedig â chyffuriau 7

1.3 Ffactorau i’w hystyried cyn penderfynu gwahardd 8

1.4 Adegau pan na fydd gwahardd yn briodol 8

1.5 Cefnogi plant: dewisiadau eraill yn lle gwahardd 9

1.6 Gwaharddiadau anghyfreithlon 10

1.7 Hyd gwaharddiadau cyfnod penodol 11

1.8 Gosod a marcio gwaith 11

1.9 Gwahardd amser cinio 13

1.10 Tynnu dysgwyr o wersi penodol 13

1.11 Tynnu dysgwyr o’r ysgol o dan amgylchiadau eithriadol 13

1.12 Tynnu dysgwyr o’r ysgol am resymau meddygol 14

1.13 Cydweithrediad y rhieni 14

1.14 Tynnu'n ôl yn 'wirfoddol': awgrymu bod rhieni neu ofalwyr yn tynnu dysgwr oddi ar y gofrestr 14

1.15 Ymddygiad y tu allan i’r ysgol 15

1.16 Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol 16

1.17 Cydraddoldeb 16

1.18 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn 20

1.19 Dysgwyr sydd â gweithiwr cymdeithasol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal 23

1.20 Rôl Llywodraeth Cymru 24

**2. Gweithdrefn ar gyfer gwahardd dysgwr: rôl pennaeth** **25**

2.1 Hysbysu’r ‘person perthnasol’ am y gwaharddiad 25

2.2 Hysbysu’r pwyllgor disgyblu a’r awdurdod lleol 27

**3. Cyfrifoldebau’r pwyllgor disgyblu** **29**

3.1 Y pwyllgor disgyblu 29

3.2 Cyfarfodydd y pwyllgor disgyblu i ystyried gwaharddiadau 30

3.3 Y weithdrefn mewn cyfarfod o’r pwyllgor disgyblu 31

3.4 Ar ôl y cyfarfod 32

3.5 Unedau cyfeirio disgyblion 33

**4. Paneli apêl annibynnol** **34**

4.1 Hysbysu rhieni neu ofalwyr a dysgwyr 34

4.2 Amseriad y gwrandawiad 34

4.3 Apelau cyfun 35
4.4 Cyfansoddiad y paneli apêl annibynnol 35
4.5 Rôl y Clerc 37
4.6 Cyn y gwrandawiad 37
4.7 Cynnal y gwrandawiad apêl 38
4.8 Tystiolaeth a thystion 39
4.9 Dod i benderfyniad 40
4.10 Y penderfyniad 41
4.11 Cofnod o drafodion panel apêl 42
4.12 Ar ôl y gwrandawiad 42
4.13 Dulliau o ddatrys y mater ar ôl y gwrandawiad apêl 43
**5. Tramgwydd troseddol honedig, yr heddlu ac achosion troseddol perthnasol 44**
5.1 Cyflwyniad 44
5.2 Penderfyniad y pennaeth i wahardd ac ystyried yr amgylchiadau yn y pwyllgor disgyblu 44
5.3 Trefniadau ar gyfer gwrandawiadau apêl mewn achosion troseddol 44
**6. Gweithdrefnau ac ailintegreiddio ar ôl gwahardd 46**
6.1 Cyflwyniad 46
6.2 Darpariaeth lawn-amser a phriodol 46
6.3 Cyfarfodydd ailintegreiddio ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol 47
6.4 Y camau cyntaf ar ôl gwahardd yn barhaol 48
6.5 Arian i ddilyn dysgwyr 48
6.6 Asesu a chynllunio 48
6.7 Cynlluniau ailintegreiddio a rhaglenni cymorth bugeiliol 49
6.8 Cynnwys a chefnogi'r rhieni a'r gofalwyr 50
6.9 Dychwelyd i ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig 50
6.10 Cymhellion i ysgolion prif ffrwd i dderbyn dysgwyr sydd wedi eu gwahardd 52
6.11 Llwyddiant addysgol 52
6.12 Darparu addysg y tu allan i'r ysgol ar gyfer dysgwyr a waharddwyd 53
**7. Arian i ddilyn dysgwyr a waharddwyd 57**
7.1 Cyflwyniad 57
7.2 Dyddiad perthnasol 57
7.3 Trosglwyddiadau o fewn yr awdurdod lleol 57
7.4 Trosglwyddo rhwng awdurdodau lleol 59
7.5 Sut i ddatrys anghydfodau 60
7.6 Siart yn darlunio'r broses – trefniadau ar gyfer arian sy'n dilyn dysgwyr a waharddwyd yn barhaol o'r ysgol 61
**Atodiad A: Llythyrau enghreifftiol** (nid yw'r rhain yn y ddogfen)
**Atodiad B: Crynodeb o'r prif brosesau a'r terfynau amser** (nid yw'r rhain yn y ddogfen)

# Crynodeb

Mae’r canllawiau hyn yn cwmpasu gwahardd dysgwyr o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, y gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn gwaharddiad a’r camau i’w cymryd i sicrhau bod dysgwyr a waharddwyd yn parhau i gael eu haddysgu.

**1. Defnyddio gwaharddiad**
Canllawiau cyffredinol ar benderfynu a ddylid gwahardd dysgwr ai peidio ac ar y trefniadau ar gyfer ei addysg yn ystod cyfnod y gwaharddiad ac ar ôl hynny. Mae hyn yn berthnasol i waith penaethiaid, pwyllgorau disgyblu a phaneli apêl annibynnol.

**2. Gweithdrefn ar gyfer gwahardd dysgwr: rôl pennaeth**
Canllawiau ar gyfer penaethiaid ac athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion i’w dilyn pan fyddan nhw’n penderfynu gwahardd dysgwr.

**3. Cyfrifoldebau’r pwyllgor disgyblu**
Canllawiau ar waith pwyllgorau disgyblu cyrff llywodraethu ac unedau cyfeirio disgyblion, y mae rhaid iddyn nhw adolygu pob gwaharddiad parhaol a phob gwaharddiad cyfnod penodol difrifol.

**4. Paneli apêl annibynnol**
Canllawiau ar sefydlu a chynorthwyo paneli apêl annibynnol, sy’n ystyried apelau yn erbyn gwaharddiadau parhaol a gafodd sêl bendith y pwyllgor disgyblu.

**5. Yr heddlu ac achosion troseddol perthnasol**
Canllawiau ar benderfyniadau i wahardd ac apelau mewn achosion lle mae gan yr heddlu ran yn y mater ac achosion troseddol perthnasol a allai fod yn bosibl.

**6. Gweithdrefnau ac ailintegreiddio ar ôl gwahardd**
Canllawiau ar y camau y mae angen eu cymryd ar unwaith ar ôl gwahardd ac i sicrhau bod dysgwyr a waharddwyd am gyfnod hir yn parhau i gael addysg.

**7. Arian i ddilyn dysgwyr a waharddwyd**
Canllawiau ar y ffordd y dylid addasu cyllidebau’r ysgolion a’r awdurdodau lleol pan fydd dysgwr wedi’i wahardd.

Mae'r canllawiau'n diwygio'r hyn sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn nogfen ganllaw rhif 255/2019, ‘Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion’. Mae 7 rhan i'r canllawiau hyn.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn ‘Ydych chi'n cael eich gwahardd o'r ysgol?’

# Cyflwyniad

O dan Adran 52(4) o Ddeddf Addysg 2002, rhaid i benaethiaid, athrawon â gofal unedau cyfeirio disgyblion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a phaneli apêl annibynnol yn ôl y gyfraith dalu sylw i'r canllawiau hyn wrth benderfynu gwahardd a gweinyddu'r gweithdrefnau a'r apelau sy'n ymwneud â gwahardd. Disgwylir y bydd y canllawiau yn cael eu dilyn onid oes rheswm da dros beidio. Nid yw'r canllawiau yn gwbl gynhwysfawr a bydd angen i'r dyfarniadau gymryd amgylchiadau achosion unigol i ystyriaeth.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn gymwys i bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion a phob dysgwr sydd ynddyn nhw, gan gynnwys unrhyw rai sydd islaw neu uwchlaw'r oed ysgol gorfodol. Nid ydyn nhw'n gymwys i ysgolion annibynnol nac i golegau chweched dosbarth, gan eu bod nhw'n pennu eu gweithdrefnau gwahardd eu hunain.

## Y fframwaith cyfreithiol

Mae'r canllawiau yn seiliedig ar y canlynol:

- Deddf Addysg 2002
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010
- Deddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010")
- Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Diffiniadau

Mae'r 'person perthnasol', yn ôl y diffiniad yn Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003, yn golygu:

- y rhiant neu ofalwr os oedd y dysgwr yn 10 oed neu'n iau ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd y dysgwr ei wahardd ynddi
- y rhiant neu ofalwr a'r dysgwr os yw'r dysgwr o oedran ysgol gorfodol ac yn 11 oed neu drosodd ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd y dysgwr ei wahardd ynddi
- y dysgwr os yw dros oed ysgol gorfodol (16 oed fel arfer).

Effaith y diffiniad yw bydd hyn yn rhoi'r hawl i'r holl ddysgwyr a waharddwyd sy'n 11 oed a throsodd gael eu hysbysu'n ffurfiol am eu gwaharddiad a bydd yn eu galluogi i apelio y penderfyniad i wahardd. Yn achos dysgwyr 11 i 16 (sef dysgwyr o oed ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd fel arfer), bydd y rhieni neu'r gofalwyr yn cael eu hysbysu am y gwaharddiad hefyd. Yn achos y dysgwyr hyn, os bydd rhiant neu ofalwr yn hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig nad yw'n bwriadu apelio y penderfyniad i wahardd, caiff yr hysbysiad hwnnw ei drin fel un terfynol p'un a yw'r dysgwr wedi rhoi hysbysiad o'r fath ai

peidio. Yn achos dysgwyr sydd dros yr oed ysgol gorfodol, gyda'r dysgwr yn unig y mae'r gair olaf ynghylch ei hawl i apelio. Trwy gydol y ddogfen hon, defnyddir yr ymadrodd 'rhiant neu ofalwr' a 'dysgwr' i adlewyrchu'r diffiniad o berson perthnasol.

Mae 'rhiant' neu 'gofalwr' yn golygu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant am ddysgwr neu'n gofalu amdano, gan gynnwys gwarcheidwaid a rhieni corfforaethol. Lle mae dysgwr yn destun gorchymyn gofal, yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant am y dysgwr.

Trwy gydol y canllawiau hyn, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriadau at 'ysgol' hefyd yn cyfeirio yn yr un modd at 'uned cyfeirio disgyblion'. Pan ddefnyddir y gair 'pennaeth' mae hyn hefyd yn cyfeirio at yr athro/athrawes sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion. Lle mae'r canllawiau yn wahanol yn achos unedau cyfeirio disgyblion nodir hynny ar wahân. Cafodd yr hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad o uned cyfeirio disgyblion ei gyflwyno yn Neddf Addysg 2002.

Defnyddir y term 'pwyllgor disgyblu' trwy gydol y ddogfen hon i olygu'r pwyllgor disgyblu disgyblion a gwaharddiadau fel y'i diffiniwyd yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae'n ofynnol hefyd i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion sefydlu pwyllgor disgyblu gan fod Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 yn gymwys i unedau cyfeirio disgyblion i'r graddau a chyda'r addasiadau a ragnodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014.

## Polisïau ymddygiad

Rhaid i ysgolion sicrhau bod ganddyn nhw bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n hyrwyddo ymddygiad da ac yn atal ymddygiad gwael. Dylid ystyried polisi ymddygiad a phresenoldeb ysgol yn rhan annatod o'i chwricwlwm, gan fod pob ysgol yn addysgu gwerthoedd yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth.

Dylai'r polisi fod yn ystyriol o drawma, wedi'i ategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a rhaid iddo fod yn seiliedig ar werthoedd clir fel parch, tegwch a chynhwysiant, ac adlewyrchu nodau cyffredinol yr ysgol a'i rhaglenni addysg gymdeithasol, moesol a chrefyddol. Y gwerthoedd hyn ddylai fod y tu ôl i'r egwyddorion sy'n sail i bolisi ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol.

Dylai'r egwyddorion gynnwys hybu hunanddisgyblaeth a pharch at eraill, a phwysigrwydd gwrando ar bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys y dysgwyr. Dylai'r egwyddorion fod yn berthnasol i bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys staff a rhieni a gofalwyr. Mae adran 4 o Cynnwys a chynorthwyo disgyblion yn darparu arweiniad pellach ar bolisïau ymddygiad.

Dylai'r polisi hefyd ymgorffori dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau plant, gan gyd-fynd ag ymagwedd yr ysgol tuag at lesiant emosiynol a meddyliol, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dysgwyr, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac achosion o wahaniaethu.

Wrth ddiwygio eu polisi ymddygiad, dylai ysgolion sicrhau bod cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau a wneir.

Dylai ysgolion godi ymwybyddiaeth o bolisi cwynion yr ysgol wrth ymgynghori â phlant, pobl ifanc a rhieni a gofalwyr am y polisi ymddygiad.

Rhaid i ysgolion asesu effaith eu polisïau, gweithdrefnau ac arferion arfaethedig neu gyfredol yn unol â'u dyletswyddau penodol o dan Ddeddf 2010.

Wrth asesu effaith eu polisi ymddygiad, dylai ysgolion a chyrff llywodraethu fonitro eu data ar waharddiadau i sicrhau nad ydynt yn gwahardd yn anghymesur grwpiau o ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol hefyd yn gymwys i bolisïau'r ysgol. Rhaid i ysgolion sicrhau bod addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i bolisi ymddygiad yr ysgol er mwyn osgoi achosion o wahaniaethu'n anuniongyrchol ar sail anabledd ac o wahaniaethu sy'n deillio o anabledd.

# 1. Defnyddio gwaharddiad

## 1.1 Y penderfyniad i wahardd

1.1.1 Yn yr achosion canlynol yn unig y dylid penderfynu gwahardd dysgwr:

- mewn ymateb i ddigwyddiad sy'n golygu bod polisi ymddygiad yr ysgol wedi'i dorri yn ddifrifol ac
- os byddai caniatáu i'r dysgwr aros yn yr ysgol yn cael effaith andwyol ddifrifol ar addysg neu les y dysgwr hwnnw neu eraill yn yr ysgol

1.1.2 Y pennaeth neu'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion yn unig a all wahardd dysgwr. Os ydynt yn absennol o'r ysgol, yna gall yr athro/athrawes sy'n dirprwyo arfer yr hawl i wahardd, ond dylai wneud yn glir mai gweithredu yn absenoldeb y pennaeth y mae. Ni all y pennaeth neu'r athro/athrawes â gofal, yn nhrefn arferol pethau nac ar sail ad hoc, roi'r hawl i wahardd i athro/athrawes arall.

1.1.3 Mae'r penderfyniad i wahardd dysgwr yn barhaol yn un difrifol. Fel rheol, dyma'r cam olaf mewn proses ar gyfer delio â throseddau disgyblu yn dilyn ystod eang o strategaethau eraill sydd wedi bod yn aflwyddiannus. Mae'n gydnabyddiaeth gan yr ysgol ei bod wedi rhoi cynnig ar bob strategaeth bosibl i ddelio â'r dysgwr, a'r rheini wedi bod yn aflwyddiannus, ac fel rheol dim ond fel cam olaf y dylid ystyried gwaharddiad parhaol.

1.1.4 Serch hynny, fe fydd amgylchiadau eithriadol lle mae'r pennaeth o'r farn ei bod yn briodol i wahardd dysgwr yn barhaol am drosedd gyntaf neu drosedd sy'n sefyll ar ei phen ei hun. Gallai'r rheini gynnwys:

- trais difrifol wedi'i gyflawni neu wedi'i fygwth yn erbyn dysgwr arall neu aelod o'r staff
- camdriniaeth neu ymosodiad rhywiol
- cyflenwi cyffur anghyfreithlon
- defnyddio neu fygwth defnyddio arf peryglus

1.1.5 Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n briodol i ysgolion roi gwybod i'r heddlu os credan nhw fod trosedd o'r fath wedi digwydd. Gall fod achosion lle bydd y dull hwn o weithredu yn briodol yn achos dysgwyr a waharddwyd am gyfnod penodol. Dylai ysgolion ystyried hefyd a ddylen nhw roi gwybod i asiantaethau eraill, er enghraifft y tîm troseddau ieuenctid a gweithwyr cymdeithasol.

1.1.6 Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr ond maen nhw'n dynodi pa mor ddifrifol yw'r troseddau a'r ffaith y gall y cyfryw ymddygiad effeithio ar ddisgyblaeth a lles cymuned yr ysgol.

## 1.2 Gwaharddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau

1.2.1 Wrth wneud penderfyniad i wahardd am drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau, dylai'r pennaeth dalu sylw i'r polisi y mae'r ysgol wedi'i gyhoeddi ar gamddefnyddio cyffuriau a dylai ymgynghori â'r aelodau hynny o staff yr ysgol sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Serch hynny, bydd y penderfyniad hefyd yn dibynnu ar union amgylchiadau'r achos a'r dystiolaeth sydd ar gael. Mewn rhai achosion gall gwahardd am gyfnod penodol fod yn fwy priodol na gwahardd yn barhaol. Mewn achosion mwy difrifol, dylid gwneud asesiad o'r digwyddiad yn erbyn y meini prawf sydd wedi'u pennu ym mholisi'r ysgol. Dylai hyn fod yn ffactor allweddol o ran penderfynu a yw gwahardd yn barhaol yn gam priodol i'w gymryd.

1.2.2 Mae manylion datblygu a gweithredu polisïau camddefnyddio sylweddau wedi'u cynnwys yn Canllawiau ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau.

## 1.3 Ffactorau i'w hystyried cyn penderfynu gwahardd

1.3.1 Ni ddylid gwahardd rhywun yng ngwres y foment, oni bai bod bygythiad ar y funud honno i ddiogelwch eraill yn yr ysgol neu i'r dysgwr dan sylw. Cyn penderfynu gwahardd ai peidio, naill ai'n barhaol neu am gyfnod penodol, dylai'r pennaeth:

- sicrhau bod ymchwiliad priodol wedi'i wneud
- ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r honiadau (po fwyaf difrifol yw'r honiad ac felly'r gosb, po fwyaf argyhoeddiadol y bydd angen i'r dystiolaeth sy'n profi'r honiad fod)
- ystyried polisïau ymddygiad a chyfle cyfartal yr ysgol
- ystyried oedran y dysgwr a, pan fo'n berthnasol, Deddf 2010 (gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw anableddau sydd gan y dysgwr)
- rhoi cyfle i'r dysgwr roi ei ochr nhw o'r stori
- ystyried a allai'r dysgwr fod wedi'i bryfocio i gyflawni'r weithred, er enghraifft trwy gael ei fwlio neu trwy aflonyddu hiliol neu rywiol
- os oes angen, gellir ymgynghori ag eraill, ond ni ellir cysylltu ag unrhyw un a all fod â rhan i'w chwarae yn nes ymlaen o ran adolygu penderfyniad y pennaeth, er enghraifft aelod o'r pwyllgor disgyblu
- cadw cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiad a'r camau a gymerwyd

1.3.2 Y safon 'yn ôl pwysau tebygolrwydd' yw'r safon prawf a ddefnyddir, felly os yw'n fwy tebygol na pheidio bod y dysgwr wedi gwneud yr hyn yr honnir ei fod wedi'i wneud, gall y pennaeth neu'r athro/athrawes â gofal wahardd y dysgwr. Fodd bynnag, po fwyaf difrifol yw'r honiad ac felly'r gosb bosibl, po fwyaf argyhoeddiadol y bydd angen i'r dystiolaeth sy'n profi'r honiad fod. Nid yw hyn yr un fath â defnyddio'r safon droseddol 'y tu hwnt i bob amheuaeth resymol'.

1.3.3 Pan fydd yr heddlu wedi dechrau ymchwiliad a allai arwain at achos troseddol, mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth sydd ar gael i'r pennaeth yn brin iawn. Fodd bynnag, dylai fod yn bosibl i'r pennaeth benderfynu a ddylid gwahardd y dysgwr ai peidio. Gweler adran 5 o'r canllawiau hyn, sy'n ymdrin â'r amgylchiadau hynny yn fanylach.

## 1.4 Adegau pan na fydd gwahardd yn briodol

1.4.1 Ni ddylid gwahardd rhywun am:

- mân ddigwyddiadau, fel methu â gwneud gwaith cartref
- perfformiad academaidd gwael
- bod yn hwyr neu chwarae triwant
- beichiogrwydd
- afiechyd
- torri rheolau gwisg ysgol neu reolau ar ymddangosiad, gan gynnwys gemwaith a steil gwallt (gweler, er enghraifft, ganllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Atal gwahaniaethu ar wallt mewn ysgolion)

- cosbi dysgwyr am ymddygiad eu rhieni neu ofalwyr, er enghraifft pan fo rhieni neu ofalwyr yn gwrthod neu'n methu â dod i gyfarfod
- diogelu dioddefwyr bwlio trwy eu hanfon adref

1.4.2 Hefyd, mae angen i ysgolion ystyried a yw'n briodol gwahardd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu ddysgwyr anabl, ac a fyddai'r gwaharddiad yn cael ei ystyried yn achos o wahaniaethu.

## 1.5 Cefnogi plant: dewisiadau eraill yn lle gwahardd

1.5.1 Ni ddylid gwahardd rhywun os oes atebion eraill ar gael. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol.

- Gall rhaglenni cymorth bugeiliol fod yn briodol pan fo dysgwyr nad ydyn nhw'n ymateb i'r camau cyffredinol a gymerir gan yr ysgolion i fynd i'r afael ag ymddieithriad a dadrithiad lle mae angen ymyrraeth dros gyfnod hwy. Cynlluniau yw'r rhaglenni cymorth bugeiliol sy'n helpu ysgolion i ddeall pam mae dysgwyr yn ymddwyn mewn ffyrdd penodol ac yn cefnogi dysgwyr i reoli eu hymddygiad yn well. Dylid paratoi rhaglenni cymorth bugeiliol drwy waith aml-asiantaeth (gan gynnwys y dysgwr a'i rieni neu ofalwyr) a'u hadolygu yn rheolaidd.
- Mae cyfiawnder adferol yn rhoi cyfle i ddysgwyr wneud iawn am y niwed a wnaed i ddioddefwr ac sy'n galluogi pob un sydd â rhan yn y canlyniad i chwarae rhan lawn yn y broses. Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol fod yn rhan o'r broses a rhaid i bob parti gytuno i gymryd rhan.
- Gellir defnyddio gwaharddiad mewnol i dawelu sefyllfaoedd sy'n golygu bod angen symud dysgwr o'r dosbarth, pan na fo angen ei wahardd o'r ysgol. Gallai'r dysgwr gael ei wahardd i fan penodol yn yr ysgol, gyda chymorth priodol, neu i ddosbarth arall dros dro

1.5.2 Weithiau mae arferion sy'n cael eu disgrifio fel amser ymdawelu, amser ymlacio neu ynysu, yn cynnwys y defnydd o bebyll synhwyraidd, yn bodloni'r diffiniad o arwahaniad os yw'r plentyn neu'r oedolyn yn cael ei roi mewn ystafell ac yn methu gadael heb ganiatâd. Ni argymhellir y dylid arwahanu plant mewn unrhyw leoliad (gweler Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol).

1.5.3 Gall gwaharddiadau mewnol barhau yn ystod cyfnodau gwyliau. Fodd bynnag, dylai ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i ymlacio a chymryd rhan mewn chwarae (mae erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan bob plentyn yr hawl i gael gorffwys a hamddena, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gael y rhyddid i gyfrannu'n rhydd i'r byd diwylliannol a'r celfyddydau).

- Gellir defnyddio symudiad wedi'i reoli os bydd ysgol yn teimlo na all reoli ymddygiad dysgwr penodol mwyach, a bod hynny er lles pennaf y plentyn. Caiff yr ysgol drefnu, drwy'r awdurdod lleol fel rheol, bod ysgol arall yn cymryd cyfrifoldeb am addysg y dysgwr. Ni ddylid gwneud hyn oni bai bod pob parti cysylltiedig, gan gynnwys y rhieni neu ofalwyr a'r awdurdod lleol, yn llwyr ymwybodol o'r sefyllfa ac yn cydweithredu. Os nad yw'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yn teimlo bod y symudiad wedi'i reoli yn opsiwn y maen nhw am ei archwilio, yna mae angen i'r pennaeth, y rhiant neu ofalwr a'r dysgwr gyda'i gilydd chwilio am atebion posibl eraill sy'n diwallu anghenion y dysgwr (mae rhagor o wybodaeth am symudiadau wedi'u rheoli ar gael yn Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol).

Ni ddylid fyth roi pwysau ar rieni neu ofalwyr i symud eu plentyn o'r ysgol trwy eu bygwth â gwaharddiad parhaol ac ni ddylai dysgwyr gael eu dileu o'r gofrestr i'w hannog i ddod o hyd i le mewn ysgol arall. Mae gwybodaeth am yr unig resymau cyfreithiol dros ddileu enw dysgwr o gofrestr yr ysgol yn Rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.

Dylai ysgolion roi gwybodaeth hygyrch i blant, eu rhieni neu ofalwyr a phobl ifanc am symudiadau wedi'u rheoli, er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a ydynt yn ystyried y byddai symudiad wedi'i reoli er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc.

## 1.6 Gwaharddiadau anghyfreithlon

1.6.1 Os bydd pennaeth yn fodlon, yn ôl pwysau tebygolrwydd, bod dysgwr wedi cyflawni trosedd ddisgyblu a bod angen ei dynnu oddi ar safle'r ysgol, gwaharddiad ffurfiol yw'r unig ddull tynnu cyfreithlon.

1.6.2 Mae gwaharddiadau anghyfreithlon, y cyfeirir atyn nhw gan amlaf fel gwaharddiadau anffurfiol neu answyddogol, yn anghyfreithlon waeth a ydyn nhw'n cael eu gwneud gyda chytundeb rhieni neu ofalwyr ai peidio. Mae gwaharddiad anghyfreithlon, answyddogol neu anffurfiol yn cyfeirio at:

- anfon dysgwyr adref am resymau disgyblu, ond heb ddilyn y gweithdrefnau sy'n ofynnol ar gyfer gwaharddiad ffurfiol
- anfon dysgwyr adref, naill ai am gyfnodau byr neu gyfnodau hirach, penagored a all arwain weithiau at y dysgwr yn peidio â dychwelyd i'r ysgol o gwbl

Er enghraifft, os anfonir dysgwr adref am resymau disgyblu am ran o ddiwrnod ysgol, gall yr ysgol ystyried y cyfnod hwn fel cyfnod 'tawelu' a pheidio â chymryd camau i wahardd y dysgwr yn ffurfiol. Nid oes unrhyw sail gyfreithiol i'r cam hwn ac nid yw'r rheoliadau perthnasol yn nodi isafswm ar gyfer hyd y gwaharddiad, felly os caiff dysgwr ei anfon adref, hyd yn oed am gyfnod byr, rhaid i hyn gael ei gofnodi'n ffurfiol fel gwaharddiad.

1.6.3 Ym mhob achos lle caiff dysgwr ei anfon adref am resymau disgyblu, rhaid i benaethiaid gofnodi'r gwaharddiad yn ffurfiol a nodi am ba hyd y gwaherddir y dysgwr (at ddibenion adrodd, dylid nodi naill ai hanner diwrnod, diwrnod llawn neu amser cinio (cyfwerth â chwarter diwrnod)). Dylen nhw sicrhau:

- eu bod yn cyflawni eu dyletswydd gofal yn ôl y gyfraith tuag at ddysgwyr a bod rhieni a gofalwyr yn derbyn hysbysiad ffurfiol o'r gwaharddiad
- eu bod yn ystyried materion amddiffyn plant, er enghraifft ystyried oedran y dysgwr a pha mor agored i niwed ydyw, bod rhiant neu ofalwr gartref ac nad yw'r plentyn yn cael ei roi mewn perygl, er enghraifft, trwy ei adael i grwydro'r strydoedd
- bod gwaith yn cael ei anfon adref neu bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud

1.6.4 Mae'r ffaith nad yw gwaharddiadau anghyfreithlon yn cael eu cofnodi'n golygu ei bod hi'n anodd iawn canfod achosion o'r arfer hwn. Os caiff dysgwr ei wahardd yn anghyfreithlon, mae'n annhebygol y gwneir darpariaeth addysgol ar ei gyfer.

## 1.7 Hyd gwaharddiadau cyfnod penodol

1.7.1 Mae’r rheoliadau yn caniatáu i benaethiaid wahardd dysgwr am un cyfnod penodol neu ragor, sydd heb fod yn fwy na 45 diwrnod ysgol mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Serch hynny, dylai gwaharddiadau unigol fod am y cyfnod byrraf posibl, gan gadw mewn cof bod gwaharddiadau am fwy na 2 ddiwrnod yn ei gwneud yn fwy anodd i’r dysgwr ailintegreiddio i’r ysgol. Mae’r dystiolaeth a gafwyd yn sgil arolygiadau yn awgrymu bod rhwng 1 a 3 diwrnod yn ddigon hir fel rheol i weld manteision gwahardd heb effaith niweidiol ar addysg. Ni ellir gwahardd am gyfnod na chafodd ei bennu, er enghraifft hyd nes y caiff cyfarfod ei drefnu. Byddai gwneud hynny yn waharddiad anghyfreithlon, ac nid oes trefniadau cyfreithiol ar gyfer sefyllfa felly.

1.7.2 Mae’r cyfyngiad o 45 diwrnod yn berthnasol i’r dysgwr, yn hytrach na’r sefydliad. Bydd unrhyw ddiwrnodau o waharddiad cyfnod penodol a roddir i’r dysgwr mewn unrhyw ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn yr un flwyddyn ysgol yn cyfrif tuag at y cyfanswm. Felly, pan fydd dysgwr yn symud i ysgol newydd yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae’n bwysig bod cofnodion unrhyw waharddiadau cyfnod penodol mae dysgwr wedi’u cael yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol yn cael eu trosglwyddo i’r ysgol newydd yn brydlon.

1.7.3 Nid oes rhaid i waharddiad cyfnod penodol fod am gyfnod parhaus. Er enghraifft, efallai bod dysgwr yn mynd i’r ysgol am 3 diwrnod yr wythnos fel arfer ac yn mynd i uned cyfeirio disgyblion am y 2 ddiwrnod arall; felly gallai gwaharddiad 5 niwrnod o’r ysgol olygu 3 diwrnod yn ystod 1 wythnos a 2 ddiwrnod yr wythnos ganlynol.

1.7.4 Ni fydd dysgwr sy’n cael mwy na 45 diwrnod o waharddiadau cyfnod penodol yn ystod blwyddyn ysgol yn cael ei wahardd yn barhaol yn awtomatig. Mae’r ‘cyfyngiad’ o 45 diwrnod wedi’i gynnwys mewn Rheoliadau i osgoi defnydd aneffeithiol o waharddiad cyfnod penodol.

1.7.5 Rhaid i bwyllgorau disgyblu gwrdd os bydd dysgwr wedi cael mwy na 15 diwrnod o waharddiadau cyfnod penodol mewn tymor. Os bydd dysgwr wedi cael mwy na 15 diwrnod o waharddiadau cyfnod penodol mewn tymor, byddai unrhyw waharddiad cyfnod penodol neu waharddiadau cyfnod penodol dilynol yn yr un tymor yn sbarduno dyletswydd ar y pwyllgor disgyblu unwaith eto i ystyried amgylchiadau’r gwaharddiad.

1.7.6 Gan na ddylid penderfynu gwahardd dysgwr ar chwarae bach, gall y corff llywodraethu benderfynu cwrdd i ystyried y sefyllfa os bydd dysgwr wedi cael 25 i 30 diwrnod o waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn ysgol, waeth a gafodd y gwaharddiadau mewn gwahanol dymhorau ai peidio. Os bydd ysgolion yn dewis mabwysiadu’r dull hwn pan fydd dysgwr yn cyrraedd 25 i 30 diwrnod, gallai ddarparu amddiffyniad ychwanegol rhag i’r dysgwr gronni 45 diwrnod a chyfle arall i ysgolion ac awdurdodau lleol ailasesu unrhyw gynlluniau cymorth sydd ar waith.

## 1.8 Gosod a marcio gwaith

1.8.1 Mae’r rheidrwydd ar yr ysgol i ddarparu addysg yn parhau tra mae’r dysgwr ar gofrestr yr ysgol. Dylai enw'r dysgwr a waharddwyd yn barhaol barhau ar gofrestr yr ysgol nes y bydd y weithdrefn apelio wedi'i chwblhau neu nes y bydd y cyfnod ar gyfer apelio wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno. Gellir ei dynnu'n gynharach os bydd y rhieni, gofalwyr neu'r dysgwr yn rhoi hysbysiad yn ysgrifenedig nad ydynt yn bwriadu apelio.

1.8.2 Bob tro y bydd dysgwr yn cael ei wahardd am fwy na diwrnod, dylai gwaith gael ei osod a'i farcio. Rhaid i benaethiaid drefnu bod gwaith yn cael ei ddarparu cyn gynted ag y bydd dysgwr yn cael ei wahardd am gyfnod penodol. Dylai'r rhieni neu ofalwyr drefnu bod y gwaith yn cael ei gasglu a'i ddychwelyd. Rhaid i'r ysgol ofalu bod y gwaith yn cael ei farcio a bod rhagor o waith yn cael ei osod hyd nes y bydd y dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol. Yn y llythyrau a anfonir at y rhieni, gofalwyr neu'r dysgwyr yn rhoi gwybod iddyn nhw am y gwaharddiad, dylid rhoi manylion y trefniadau ar gyfer gosod a marcio gwaith.

1.8.3 Pan fo ysgol yn darparu dysgu ar-lein i ddysgwyr sydd wedi'u gwahardd, rhaid iddi sicrhau bod gan y dysgwr fynediad at y dechnoleg ddigidol ofynnol. Pan na fo gan y dysgwr fynediad at dechnoleg o'r fath, rhaid i ysgolion ddarparu gwaith nad oes angen mynediad at dechnoleg ddigidol i'w wneud.

1.8.4 Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Dylai fod gan benaethiaid bolisi ysgrifenedig ynglŷn â threfniadau i dderbyn dysgwyr yn ôl i'r ysgol ar ôl gwaharddiad cyfnod penodol. Dylai'r polisi gynnwys y gofyniad a nodir yn Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010, sy'n gosod dyletswydd ar bennaeth i ofyn am gyfweliad ailintegreiddio gyda rhiant neu ofalwr dysgwr o oedran ysgol gorfodol sydd wedi'i wahardd:

- o ysgol gynradd am unrhyw gyfnod penodol
- o ysgol uwchradd am gyfnod penodol o 6 diwrnod ysgol neu ragor

1.8.5 Dylai derbyn gwaith a wnaed yn ystod y gwaharddiad fod yn rhan o'r polisi. Serch hynny, nid yw methu â chwblhau gwaith yn rheswm dros wrthod gadael i'r dysgwr ddychwelyd i'r ysgol.

1.8.6 Dylai cytundebau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a phob un o'r ysgolion y maen nhw'n eu cynnal gosod allan cyfrifoldeb yr ysgol am osod a marcio gwaith ar gyfer dysgwyr a waharddwyd.

1.8.7 Pan fo pennaeth yn ystyried gwahardd dysgwr am fwy na 15 diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor, boed hynny'n barhaol neu am gyfnod penodol, dylai roi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r anawsterau y mae'r dysgwr yn eu profi a gofalu bod ei addysg yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ac ysgolion weithio tuag at sicrhau bod pob dysgwr a waharddwyd am fwy na 3 wythnos yn cael addysg lawn-amser a phriodol. Mewn achosion eithriadol, lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd amgylchiadau dysgwr unigol, dylai fod cynlluniau yn eu lle ar gyfer gwneud darpariaeth lawn-amser a phriodol a dylai'r cynnydd gael ei adolygu'n rheolaidd.

1.8.8 Felly, mae rhaid i'r ysgol gysylltu â'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol cyn i'r dysgwr gael ei wahardd, i drafod sut i ddarparu pecyn priodol o addysg lawn-amser ar gyfer y dysgwr a fydd yn ei helpu i ailintegreiddio i'r ysgol ar ddiwedd y gwaharddiad. Mae angen i'r ysgol sicrhau bod asiantaethau perthnasol eraill, megis gwaith cymdeithasol addysg a gwasanaethau seicoleg addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau meddygol yn rhan o'r broses hon. Mae angen i'r ysgol a'r awdurdod lleol drafod sut y telir y gost o ddarparu addysg i'r dysgwr. Fel rheol, byddai disgwyl i'r ysgol dalu rhywfaint o'r costau.

## 1.9 Gwahardd amser cinio

1.9.1 Gall ymddygiad rhai dysgwyr fod yn arbennig o anodd amser cinio. Os felly, gallai fod modd trefnu i'r dysgwr fynd adref am ginio, trwy drafod gyda'r rhieni neu'r gofalwyr a chael eu cytundeb. Os na ellir gwneud hynny, mae darpariaeth ar gael i wahardd y dysgwr dros amser cinio, gan roi'r cyfrifoldeb cyfreithiol am y dysgwr yn ôl i'r rhiant neu'r gofalwr.

1.9.2 Os gwaherddir dysgwr amser cinio, am gyfnod byr yn unig y dylid gwneud hynny a dylid adolygu'n rheolaidd a yw'n parhau i fod yn briodol. Rhaid trin gwaharddiad dros amser cinio fel gwaharddiad sy'n cyfateb i chwarter diwrnod ysgol. Os bydd y chwarter diwrnodau hyn, gyda'i gilydd, yn fwy na phum niwrnod ysgol mewn tymor, gan gynnwys unrhyw waharddiadau cyfnod penodol eraill, bydd hawl gan y person perthnasol wneud sylwadau i'r corff llywodraethu.

1.9.3 Pan fo dysgwr yn cael ei gadw yn yr ysgol amser cinio, ond i ffwrdd o'r dysgwyr eraill, ni fydd hyn yn cael ei ystyried yn waharddiad ffurfiol ond yn hytrach yn waharddiad mewnol. Rhaid gwneud trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Gallai hynny olygu darparu cinio pecyn. Pan ddefnyddir gwaharddiad mewnol, dylai ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i orffwys a chymryd rhan mewn chwarae (mae erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan bob plentyn yr hawl i gael gorffwys a hamddena, i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau hamdden sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gael y rhyddid i gyfrannu'n rhydd i'r byd diwylliannol a'r celfyddydau).

## 1.10 Tynnu dysgwyr o wersi penodol

1.10.1 Gall dysgwyr gael eu tynnu o ddosbarth, fel mesur sy'n sefyll ar ei ben ei hun, fel rhan o ystod yr ysgol o sancsiynau yn erbyn ymddygiad aflonyddgar. Serch hynny, ni ddylid tynnu dysgwyr yn rheolaidd o wersi penodol fel ffordd o ddelio ag ymddygiad aflonyddgar oni bai fod trefniadau addas eraill wedi'u gwneud ar gyfer addysgu'r dysgwr. Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r sefyllfa gael ei thrafod gyda'r rhiant neu ofalwr a'r dysgwr a dylai'r ysgol adolygu'r trefniadau yn rheolaidd gyda'r nod o gael y dysgwr yn ôl i'r gwersi. Nid yw tynnu dysgwyr o wersi penodol yn cael ei gyfrif yn waharddiad.

## 1.11 Tynnu dysgwyr o'r ysgol o dan amgylchiadau eithriadol

1.11.1 O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i benaethiaid dynnu dysgwyr oddi ar safle'r ysgol pan na fyddai gwaharddiad yn briodol. Er enghraifft, os bydd dysgwr yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd ddifrifol y tu allan i awdurdodaeth y pennaeth neu os na fydd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwaharddiad.

1.11.2 Gall pennaeth awdurdodi absenoldeb am gyfnod penodol, gyda chydsyniad y rhieni neu'r gofalwyr. Neu, gan ddefnyddio pwerau a ddirprwyir gan y corff llywodraethu (neu'r pwyllgor rheoli yn achos unedau cyfeirio disgyblion) o dan adran 29(3) o Ddeddf Addysg 2002, sy'n rhoi pŵer i'r corff llywodraethu gyfarwyddo dysgwr i fynychu darpariaeth addysgol mewn man arall (heb gymeradwyaeth y rhieni neu'r gofalwyr, er y dylid eu hysbysu o'r trefniant).

1.11.3 Fodd bynnag, rhaid i ddarpariaeth addysgol o'r fath mewn man arall gael ei threfnu at ddibenion derbyn unrhyw gyfarwyddyd neu hyfforddiant sydd wedi'i gynnwys mewn cwricwlwm i'r dysgwyr hynny yn rhinwedd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 neu Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, ac ni ddylid parhau â'r ddarpariaeth hon

am gyfnod hirach nag sy'n wirioneddol angen. Os bydd y dysgwr wedi cael caniatâd i fod yn absennol neu os bydd yn cael ei addysgu mewn man arall, rhaid i'r ysgol sicrhau bod addysg lawn amser y dysgwr yn parhau yn ystod ei amser oddi ar y safle. Nid yw unrhyw drefniadau o'r fath yn golygu bod dysgwr wedi'i wahardd o'r ysgol am resymau disgyblu a dylid cynnal adolygiadau cyfnodol a chynnwys y rhieni neu'r gofalwyr ynddyn nhw. Os bydd yna ddigon o dystiolaeth i alluogi pennaeth i ystyried defnyddio'r pŵer i wahardd, byddai Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r pennaeth ystyried defnyddio'r pŵer hwnnw, yn hytrach na'r pŵer yn adran 29(3) o Ddeddf Addysg 2002, neu awdurdodi caniatâd i fod yn absennol. O dan yr amgylchiadau eithriadol lle defnyddir pŵer adran 29(3) neu'r pŵer i awdurdodi caniatâd i fod yn absennol, mae'n bwysig bod camau'r pennaeth yn cael eu cofnodi er mwyn dileu unrhyw bosibilrwydd i hyn gael ei ddehongli fel gwaharddiad anghyfreithlon.

1.11.4 Os bydd gwaharddiad yn dal i fod yn bosibilrwydd rywbryd yn ddiweddarach, dylai'r pennaeth roi gwybod i'r rhieni neu ofalwyr am hyn o'r cychwyn. Po fwyaf o amser sy'n mynd heibio, po fwyaf tebygol yr ystyrir bod y gwaharddiad yn ddefnydd amhriodol o'r pŵer hwnnw. Ni ddylid defnyddio pŵer adran 29(3) i gyfarwyddo dysgwyr i adael y safle i dderbyn hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgol i wella eu hymddygiad.

## 1.12 Tynnu dysgwyr o'r ysgol am resymau meddygol

1.12.1 Gall penaethiaid anfon dysgwr adref, ar ôl ymgynghori â rhieni neu ofalwyr y dysgwr a gweithiwr iechyd proffesiynol (fel nyrs ysgol) fel y bo'n briodol, os bydd salwch fel clefyd hysbysadwy yn golygu bod y dysgwr yn peryglu iechyd a diogelwch staff a dysgwyr eraill. Absenoldeb awdurdodedig yw hwn, yn hytrach na gwaharddiad, a dylid sicrhau y nodir hynny'n glir yn y gofrestr presenoldeb. Dylai hyn fod am y cyfnod byrraf posibl. Os bydd anawsterau'n parhau, dylai'r pennaeth gael cyngor meddygol.

1.12.2 Gall ystyriaethau iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiad risg, gyfrannu at achos ysgol dros waharddiad, ond ni ellir gwahardd dysgwr ar sail yr ystyriaethau hyn yn unig. Dim ond am resymau disgyblu y gellir gwneud hynny yn ôl y gyfraith. Hefyd, ni ellir anfon dysgwyr adref am resymau iechyd a diogelwch er eu diogelwch eu hunain os ydyn nhw'n cael eu bwlio.

## 1.13 Cydweithrediad y rhieni

1.13.1 Os bydd rhiant neu ofalwr yn gwrthod cydweithredu â gwaharddiad swyddogol trwy anfon y dysgwr a waharddwyd i'r ysgol, neu'n gwrthod ei gasglu neu drefnu iddo gael ei gasglu amser cinio, rhaid i'r ysgol dalu sylw i ddiogelwch y dysgwr wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd. Ni ddylid gorfodi gwaharddiad os bydd hynny'n golygu bod diogelwch y dysgwr yn y fantol. Os bydd pob ymdrech i ddatrys y mater gyda'r rhieni neu ofalwyr yn methu, dylai'r ysgol ystyried cysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg a gofyn am gyngor yr awdurdod lleol ynghylch pa bosibiliadau cyfreithiol sydd ar gael.

## 1.14 Tynnu'n ôl yn 'wirfoddol': awgrymu bod rhieni neu ofalwyr yn tynnu dysgwr oddi ar y gofrestr

1.14.1 Nid yw dylanwadu ar rieni neu ofalwyr neu eu hannog i dynnu eu plentyn o'r ysgol yn 'wirfoddol' fel ffordd o ddelio ag ymddygiad anodd neu heriol yn ymateb priodol. Mae rhoi pwysau trwm ar rieni neu ofalwyr i dynnu eu plentyn o'r ysgol, yn enwedig ei dynnu oddi yno'n barhaol, yn golygu bod plentyn yn cael ei amddifadu o'i hawl i addysg (gweler adran 1.18, paragraff 1.18.1 mewn perthynas ag erthyglau 28 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd

Unedig ar Hawliau'r Plentyn), gan ei bod yn annhebygol y gellir trefnu lle mewn ysgol arall ar fyr rybudd. Yn achos dysgwyr sy'n cael eu hannog i adael yr ysgol tua diwedd Blwyddyn 11, gall olygu eu bod yn 'colli'r' amgylchedd gwaith a dysgu ac mae mwy o risg y byddan nhw'n cael eu heithrio'n gymdeithasol.

1.14.2 Mae tynnu dysgwr o'r ysgol yn 'wirfoddol' yn amddifadu'r dysgwr a'r rhieni neu ofalwyr o'r hawl i fanteisio ar y trefniadau gwahardd ac apelio a'r diogelwch sydd ynghlwm wrth y rheini. Dylai pennaeth sy'n ystyried bod ymddygiad dysgwr mor anodd fel bod angen ei wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol, ddefnyddio'r gweithdrefnau yn y canllawiau hyn. Fel arall, gallen nhw drafod y posibilrwydd o symud y dysgwr i ysgol arall gyda'r rhieni neu ofalwyr a'r awdurdod lleol.

1.14.3 Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried pa gamau sy'n briodol os gwelir bod ysgol yn tynnu dysgwyr o'r ysgol yn 'wirfoddol'.

## 1.15 Ymddygiad y tu allan i'r ysgol

1.15.1 Dylai ymddygiad dysgwyr y tu allan i'r ysgol ar fusnes ysgol, er enghraifft ar deithiau ysgol, cystadlaethau chwaraeon neu brofiad gwaith gydymffurfio â pholisi ymddygiad yr ysgol. Felly, dylid delio ag unrhyw achos sy'n codi yn yr amgylchiadau hynny yn union fel petai wedi digwydd yn yr ysgol. Yn achos ymddygiad y tu allan i'r ysgol, pan nad oedd dysgwr ar fusnes yr ysgol, gall pennaeth wahardd dysgwr os oes cyswllt clir rhwng yr ymddygiad hwnnw a chynnal ymddygiad da a disgyblaeth ymhlith y dysgwyr oll. Mater i'r pennaeth farnu yn ei gylch fydd hyn. Er enghraifft, gall ymddygiad dysgwyr yng nghyffiniau'r ysgol neu ar y siwrnai i'r ysgol neu adref, fod yn rhesymau dros wahardd.

1.15.2 Rhaid i ysgolion weithredu'n rhesymol mewn perthynas â disgwyliadau o ran ymddygiad dysgwyr ac mewn perthynas ag unrhyw fesurau a gaiff eu cyflwyno i reoli ymddygiad dysgwyr pan fyddan nhw oddi ar safle'r ysgol ond heb fod o dan reolaeth neu ofal cyfreithlon aelod o staff yr ysgol. Mae angen i ysgolion benderfynu beth y dylid ei ystyried wrth benderfynu a yw cosb yn rhesymol mewn achos penodol.

1.15.3 Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ysgolion gysylltu pa ffactorau bynnag y byddan nhw'n penderfynu eu defnyddio â chyfres o amcanion cyffredinol a fydd yn ei gwneud yn glir pam y defnyddir polisi i reoli ymddygiad oddi ar safle'r ysgol.

Gallai amcanion o'r fath gynnwys:

- cadw trefn ar gludiant, ymweliadau addysgiadol neu leoliadau eraill megis profiad gwaith neu gyrsiau coleg
- sicrhau bod dysgwyr yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n fygythiad i iechyd na diogelwch y dysgwyr, y staff nac aelodau o'r cyhoedd
- rhoi sicrwydd i ddysgwyr a allai deimlo eu bod yn cael eu bygwth neu eu dychryn gan ymddygiad lleiafrif bychan o'u cyfoedion
- rhoi sicrwydd i aelodau o'r cyhoedd ynghylch y gofal a'r rheolaeth dros y dysgwyr yn yr ysgol gan felly ddiogelu enw da'r ysgol
- diogelu aelodau unigol o'r staff rhag ymddygiad niweidiol gan ddysgwyr o'r ysgol pan na fyddan nhw ar safle'r ysgol

1.15.4 Dylai staff yr ysgol sy'n ymyrryd i reoli ymddygiad dysgwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus neu mewn mannau cyhoeddus gofio nad oes ganddyn nhw bŵer i ddefnyddio unrhyw ddulliau heblaw eu pwerau fel dinasyddion o dan gyfraith gwlad.

1.15.5 Mae adran 4 Cynnwys a chynorthwyo disgyblion yn darparu canllawiau pellach ar ymddygiad y tu allan i'r ysgol.

## 1.16 Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

1.16.1 Mae dyfarniad haen uchaf a wnaed yn 2018 yn golygu ei bod yn ofynnol i ysgolion ddangos bod y penderfyniad i wahardd dysgwr â chyflwr cydnabyddedig sy'n fwy tebygol o arwain at duedd at gam-drin corfforol yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys a'u bod wedi gwneud yr addasiadau rhesymol priodol mewn perthynas â rheoli ymddygiad y dysgwr.

1.16.2 Darperir canllawiau statudol ar nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rhai ag anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol, yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru. Rhaid i ysgolion dalu sylw i’r canllawiau hyn. Pan gaiff ei ddwyn i sylw ysgol a gynhelir neu pan fo’n ymddangos fel arall i ysgol a gynhelir (gan gynnwys uned cyfeirio disgyblion), y gallai plentyn yn yr ysgol fod ag ADY, rhaid i’r ysgol (yn amodol ar rai eithriadau) benderfynu a oes gan y plentyn ADY a, pan fo angen, rhaid iddi baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer y plentyn.

1.16.3 Ac eithrio dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol dylai ysgolion osgoi gwahardd yn barhaol ddysgwyr â CDU. Dylen nhw hefyd wneud pob ymdrech i osgoi gwahardd dysgwyr sy'n ymwneud â phroses o dan y system ADY, megis pan fo penderfyniad yn cael ei wneud neu os oes CDU yn cael ei baratoi.

1.16.4 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr athro/athrawes yn gwybod bod yr ysgol yn cael anhawster i reoli ymddygiad dysgwr ymhell cyn i’r sefyllfa waethygu. Dylai ysgolion wneud popeth sy’n bosibl i gadw’r dysgwr yn yr ysgol, gan gynnwys gofyn am gyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol ac eraill a chymorth drwy CDU, neu, pan fo hynny’n briodol, gofyn i’r awdurdod lleol baratoi neu gynnal CDU. Yn achos dysgwr â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol, os bu pob dull arall yn aflwyddiannus, dylai’r ysgol gysylltu â’r awdurdod lleol ynghylch dechrau adolygiad ffurfiol o CDU y dysgwr.

1.16.5 Pan fo dysgwr yn cael ei wahardd yn barhaol, dylai’r pennaeth ddefnyddio’r amser rhwng ei benderfyniad cyntaf a dyddiad cyfarfod y pwyllgor disgyblu i weithio gyda’r awdurdod lleol i weld a ellir cynnig mwy o gefnogaeth neu a ellir newid y CDU i enwi ysgol newydd. Os yw’r naill ddewis neu’r llall yn bosibl, dylai’r pennaeth, fel rheol, dynnu’r gwaharddiad yn ôl.

1.16.6 Mae’n bwysig dros ben bod rhieni neu ofalwyr dysgwyr ag ADY sydd wedi’u gwahardd o’r ysgol yn cael cyngor am y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer addysg eu plant yn y dyfodol. Dylai ysgolion hysbysu’r rhieni neu ofalwyr bod cyngor a gwybodaeth am ADY ar gael drwy'r awdurdod lleol.

## 1.17 Cydraddoldeb

1.17.1 Dylai ysgolion weithredu yn unol â'r egwyddor cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu fel y nodir yn erthygl 2 o Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

1.17.2 Mae Deddf 2010 yn cydgrynhoi ac yn disodli’r ddeddfwriaeth flaenorol ar wahaniaethu ar gyfer Cymru, Lloegr a’r Alban. Mae hefyd yn cryfhau’r gyfraith i gefnogi

cynnydd ar gydraddoldeb. Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi datblygu Codau Ymarfer manwl.

**Y nodweddion gwarchodedig**
1.17.3 Mae Deddf 2010 yn diogelu dysgwyr rhag gwahaniaethu sy’n seiliedig ar nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

1.17.4 Mae anabledd yn cynnwys anabledd sy'n gysylltiedig ag amhariadau meddyliol ac amhariadau corfforol. O dan Ddeddf 2010, mae person anabl yn rhywun sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol bob dydd.

1.17.5 Gellir ystyried bod gan ddysgwyr ag ADY anabledd o dan Ddeddf 2010. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol fel awtistiaeth. Nid yw'n angenrheidiol cael diagnosis er mwyn i unigolyn gael ei ystyried yn unigolyn anabl.

**Diffiniadau o wahaniaethu**
1.17.6 O dan y gyfraith, mae yna wahanol gategorïau o wahaniaethu, gyda gwahaniaethau yn y fframwaith cyfreithiol sy’n eu hamgylchynu.

Mae ‘gwahaniaethu uniongyrchol’ yn digwydd pan fo dysgwr yn cael ei drin yn llai ffafriol nag eraill o dan amgylchiadau cyffelyb oherwydd nodwedd warchodedig. Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn anghyfreithlon fel arfer.

Mae ‘gwahaniaethu trwy gysylltiad’ yn fath o wahaniaethu uniongyrchol sy’n digwydd, er enghraifft, os bydd ysgol yn trin dysgwr yn llai ffafriol oherwydd cysylltiad y dysgwr hwnnw ag unigolyn arall sydd â nodwedd warchodedig.

Mae ‘gwahaniaethu trwy ganfyddiad’ yn fath arall o wahaniaethu uniongyrchol pan fo dysgwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd y credir yn anghywir bod ganddo ryw nodwedd berthnasol, neu ei fod yn cael ei drin fel pe bai ganddo’r nodwedd honno.

Mae ‘gwahaniaethu anuniongyrchol’ yn digwydd pan fo darpariaeth, maen prawf neu arfer yn cael ei roi ar waith yn yr un modd i bawb, ond bod hynny yn rhoi, neu yn gallu rhoi, dysgwyr sy’n perthyn i un neu fwy o’r grwpiau gwarchodedig, er enghraifft dysgwyr anabl, dan anfantais sylweddol. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn anghyfreithlon oni bai y gellir dangos ei fod yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys.

Mae 'gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd' yn digwydd pan fydd dysgwr anabl yn cael ei drin yn anffafriol, nid oherwydd ei fod yn anabl, ond oherwydd rhywbeth sy'n deillio o hynny, neu o ganlyniad i hynny. Er enghraifft, gallai hyn fod pan fo dysgwr angen cymryd cyfnod o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag anabledd, ac na ellir cyfiawnhau'r driniaeth drwy ddangos ei bod yn 'ffordd gymesur o gyflawni nod dilys'.

Mae ‘erledigaeth’ yn digwydd pan fo dysgwr yn cael ei drin yn anffafriol gan ei fod wedi cymryd camau mewn perthynas â gwahaniaethu, er enghraifft trwy gyflwyno cwyn o wahaniaethu o dan Ddeddf 2010 neu drwy roi tystiolaeth ar ran un o’i gyfoedion. Mae erledigaeth yn anghyfreithlon.

Ystyr ‘aflonyddu’ yw unrhyw ymddygiad digroeso sy’n gysylltiedig â nodwedd warchodedig berthnasol neu ymddygiad digroeso o natur rywiol, sy’n ceisio neu yn tanseilio urddas unigolyn, neu'n creu amgylchedd bygythiol, anghyfeillgar, diraddiol neu fychanol iddo. Mae’r nodweddion gwarchodedig perthnasol yn cynnwys anabledd, hil a rhyw. Mae aflonyddu hefyd yn anghyfreithlon.

1.17.7 Er mwyn penderfynu a yw ysgol wedi trin dysgwr â nodwedd warchodedig yn llai ffafriol, rhaid cymharu’r driniaeth hon â’r ffordd mae’r ysgol wedi trin dysgwyr nad oes ganddyn nhw y nodwedd warchodedig, neu y byddai wedi eu trin o dan amgylchiadau tebyg. Er enghraifft, os bydd ysgol yn trin dysgwr anabl mewn ffordd a fyddai’n rhoi’r dysgwr dan anfantais o gymharu â dysgwyr nad ydyn nhw’n anabl, mae’n debygol y bydd y driniaeth yn llai ffafriol.

**Gwaharddiadau**

1.17.8 Er nad yw Deddf 2010 yn atal ysgolion rhag gwahardd dysgwyr â nodwedd warchodedig, mae’n atal ysgolion rhag gwahardd dysgwyr oherwydd eu nodwedd warchodedig (er enghraifft gwahardd dysgwr anabl oherwydd ei anabledd neu ei grŵp hiliol) neu wahaniaethu’n anghyfreithlon yn eu herbyn yn ystod y broses wahardd. Mae hyn yn berthnasol i waharddiadau parhaol a thymor penodol.

1.17.9 Mae gwahardd dysgwr y tybir bod ganddo nodwedd warchodedig neu oherwydd cysylltiad y dysgwr hwnnw â rhywun â nodwedd warchodedig yn wahaniaethu uniongyrchol.

1.17.10 Mae hi hefyd yn anghyfreithlon gwahardd dysgwr â nodwedd warchodedig am ymddwyn mewn ffordd na fyddai dysgwr heb nodwedd warchodedig yn cael ei wahardd am ymddwyn yn y fath fodd. Er enghraifft, os bydd dysgwr anabl yn cael ei wahardd am ymddygiad sy’n gysylltiedig â’i anabledd, gallai hyn fod yn wahaniaethu anghyfreithlon sy’n deillio o’i anabledd oni bai y gall yr ysgol gyfiawnhau bod y gwaharddiad yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. Waeth a yw’r ysgol wedi cydymffurfio â’i dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer y dysgwr ai peidio, bydd hyn yn cael effaith ar pa un a ellir cyfiawnhau’r gwaharddiad ai peidio. Mae Deddf 2010 yn ei gwneud hi’n ofynnol i ysgolion wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr anabl, mewn perthynas â’r broses wahardd a’r cosbau disgyblu.

1.17.11 Mae rheoliad 4(1)(c) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Anabledd) 2010 yn darparu na ddylid trin tueddiad i gam-drin pobl eraill yn gorfforol neu'n rhywiol yn gyfystyr ag amhariad o dan y diffiniad o anabledd o dan Ddeddf 2010.

1.17.12 Bwriad y ddarpariaeth yw osgoi darparu amddiffyniad i bobl lle gallai effaith eu cyflwr gynnwys gweithgarwch gwrthgymdeithasol neu droseddol sy'n effeithio ar eraill. Fodd bynnag, mae effaith y ddarpariaeth yn golygu nad yw plant sydd â chyflyrau penodol sy'n arwain at duedd i gam-drin eraill yn gorfforol ac sydd, er enghraifft, wedi'u gwahardd o'r ysgol oherwydd ymddygiad ymosodol, yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail anabledd sy'n gysylltiedig â'r tueddiad ymosodol hwnnw.

1.17.13 Yn 2018, dyfarnodd yr Uwch Dribiwnlys (y Siambr Apelau Gweinyddol) (C & C v. Governing Body of a School and others [2018] UKUT 269 AAC) y dylid darllen rheoliad 4(1)(c) fel pe na bai'n berthnasol i blant mewn addysg sydd â chyflwr cydnabyddedig sy'n fwy tebygol o arwain at duedd at gam-drin corfforol neu y dylid ei ddatgymhwyso mewn achosion o'r fath. Mae cyflyrau cydnabyddedig yn cynnwys awtistiaeth.

1.17.14 Mae'r dyfarniad yn golygu ei bod yn ofynnol i ysgolion ddangos bod y penderfyniad i wahardd dysgwr sydd â chyflwr cydnabyddedig sy'n fwy tebygol o arwain at duedd at gam-drin corfforol yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. Rhaid i ysgolion hefyd ddangos eu bod wedi gwneud unrhyw addasiadau rhesymol priodol mewn perthynas â rheoli ymddygiad y dysgwr, hyd yn oed os oedd ei ymddygiad o ganlyniad i'w gyflwr.

1.17.15 Mae Deddf 2010 yn berthnasol i'r holl weithgareddau sy'n cwmpasu bywyd ysgol, ac mae'n golygu bod rhaid i bopeth mae ysgol yn ei wneud fod yn anwahaniaethol. Mae'n ofynnol i ysgolion adolygu a diwygio ei pholisïau, ei harferion a'i gweithdrefnau i sicrhau nad ydyn nhw'n gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr anabl. Er enghraifft, bydd polisïau sy'n arwain at gyfran uwch o ddysgwyr o rai grwpiau hiliol yn cael eu gwahardd yn wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon oni bai y gellir cyfiawnhau'r defnydd o'r polisi.

**Y ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus**

1.17.16 Mae adran 149 o Ddeddf 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gorff llywodraethu ysgol wrth gyflawni ei swyddogaethau i roi sylw priodol i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf 2010
- datblygu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydyn nhw'n rhannu'r nodwedd honno
- meithrin perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydyn nhw'n rhannu'r nodwedd honno

1.17.17 Mae rhoi sylw priodol yn golygu ystyried 3 amcan y ddyletswydd gyffredinol fel rhan o'r broses benderfynu. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ystyriaeth o faterion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan ysgolion. Mae rhoi sylw priodol i'r angen i ddatblygu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydyn nhw'n rhannu'r nodwedd honno yn golygu rhoi sylw priodol i'r angen i:

- ddileu neu leihau anfanteision i unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
- cymryd camau i ddiwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion unigolion nad ydyn nhw'n rhannu'r nodwedd honno
- annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gyfrannu at fywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgareddau eraill lle mae nifer yr unigolion o'r fath sy'n cyfrannu atyn nhw'n anghymesur o isel

1.17.18 Mae rhoi sylw priodol i'r angen i feithrin perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydyn nhw'n rhannu'r nodwedd honno yn golygu rhoi sylw priodol i'r angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

1.17.19 Gallai pob elfen o'r ddyletswydd gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig, felly dylai ysgolion adolygu eu polisïau ymddygiad a chydraddoldeb i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r materion y dylen nhw fynd i'r afael â nhw.

1.17.20 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gosod dyletswyddau penodol ar gyrff llywodraethu ysgolion i geisio sicrhau bod y ddyletswydd gyffredinol yn cael ei chyflawni'n well o dan adran 149, gan gynnwys:

- casglu, asesu a chyhoeddi gwybodaeth am eu cydymffurfedd (neu fel arall) â'r ddyletswydd gyffredinol (rheoliad 7)
- penderfynu ar rai amcanion penodol (y cyfeirir atynt fel "amcanion cydraddoldeb") sydd wedi'u cynllunio i'w galluogi nhw i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well a chyhoeddi'r amcanion hyn (rheoliad 3)
- adolygu eu hamcanion cydraddoldeb o leiaf unwaith bob pedair blynedd (rheoliad 4)

1.17.21 Hefyd, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion wneud cynllun cydraddoldeb strategol. Bwriedir i'r cynllun cydraddoldeb strategol fod yn ffordd o gynnwys y gwahanol bethau y mae'r rheoliadau'n eu gwneud yn ofynnol, fel y gall fod un pwynt mynediad i'r cyhoedd. Rhaid i'r cynllun cydraddoldeb strategol gynnwys datganiad sy'n nodi disgrifiad o'r ysgol, amcanion cydraddoldeb yr ysgol, manylion y camau y mae'r ysgol wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni ei hamcanion, pa mor hir y bydd yn ei gymryd er mwyn cyflawni ei hamcanion, a manylion y trefniadau y mae wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud i gydymffurfio â'r rheoliadau. Gellir diwygio neu ail-wneud y cynllun cydraddoldeb strategol unrhyw adeg (rheoliad 14).

1.17.22 Dylai cyrff llywodraethu ystyried a ddylid cynnwys amcan sy'n gysylltiedig â lleihau gwaharddiadau.

**Apelau lle honnir bod gwahaniaethu wedi digwydd**
1.17.23 Bydd apelau yn erbyn gwahardd yn barhaol, lle’r honnir bod gwahaniaethu ar sail anabledd wedi digwydd yn cael eu gwrando gan banel apêl annibynnol. Tribiwnlys Addysg Cymru fydd yn gwrando achosion lle’r honnir bod gwahaniaethu ar sail anabledd wedi digwydd yn achos gwaharddiadau cyfnod penodol. Mewn achosion lle’r honnwyd y cafwyd gwahaniaethu ar sail anabledd, bydd yn ofynnol i ysgolion ddangos bod sail dros yr hyn a wnaed ganddyn nhw ac nad oes unrhyw newidiadau rhesymol y gallen nhw eu gwneud i’w polisïau a’u harferion fyddai wedi rhwystro’r digwyddiad a arweiniodd at y gwaharddiad. Gan fod ADY gan lawer o ddysgwyr anabl, efallai yr hoffai ysgolion ystyried y camau y maen nhw wedi’u cymryd i fynd i’r afael â’r anghenion hynny yn y cyd-destun hwn. Caiff honiadau sy’n honni bod gwahaniaethu ac eithrio gwahaniaethu ar sail anabledd wedi digwydd eu clywed gan lys sirol.

**Canllawiau**
1.17.24 Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol nifer o ddogfennau canllaw i helpu ysgolion i ddeall a chydymffurfio â’u dyletswyddau o dan Ddeddf 2010, gan gynnwys mewn perthynas â gwaharddiadau. Mae Llywodraeth Cymru’n argymell yn gryf y dylai ysgolion a’r rhai sy’n rhan o benderfyniadau ac apelau mewn perthynas â gwaharddiadau darllen y canllawiau a’r cod ymarfer, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## 1.18 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn

1.18.1 Rhaid sicrhau bod budd pennaf y plentyn, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, wrth wraidd unrhyw benderfyniad i wahardd ac unrhyw weithdrefnau gwahardd dilynol.

Mae’r erthyglau canlynol yn arbennig o berthnasol:

- Erthygl 2: Peidio â gwahaniaethu
- Erthygl 3: Budd pennaf y plentyn
- Erthygl 12: Cymryd rhan a pharchu barn plant a phobl ifanc
- Erthygl 23: Hawliau plant anabl

- Erthygl 28: Hawl i Addysg
- Erthygl 29: Nodau Addysg
- Erthygl 31: Chwarae hamdden a diwylliant
- Erthygl 37: Triniaeth annynol a chadw'n gaeth

**Erthygl 2**
1. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon barchu a sicrhau’r hawliau a nodir yn y Confensiwn mewn perthynas â phob plentyn o dan eu hawdurdodaeth, heb wahaniaethu mewn unrhyw ffordd, beth bynnag fo hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, cefndir cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, statws geni neu statws arall y plentyn neu ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol.
2. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon gymryd pob cam priodol i sicrhau bod y plentyn yn cael ei amddiffyn rhag pob math o wahaniaethu neu gosb ar sail statws, gweithgareddau, safbwyntiau neu gredoau rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, neu aelodau o deulu’r unigolyn.

**Erthygl 3**
1. Ym mhob gweithred sy’n ymwneud â phlant, waeth a yw’n cael ei chynnal gan sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, llysoedd barn, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol, budd pennaf y plentyn fydd y brif ystyriaeth.
2. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon sicrhau bod y plentyn yn cael y diogelwch a’r gofal sy’n angenrheidiol er mwyn diogelu ei les, gan ystyried hawliau a dyletswyddau ei rieni, ei warcheidwaid cyfreithiol neu unigolion eraill sy’n gyfrifol am ei ofal ac, i’r diben hwn, eu bod yn cymryd pob cam deddfwriaethol a gweinyddol priodol.
3. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon sicrhau bod y sefydliadau, y gwasanaethau a’r cyfleusterau sy’n gyfrifol am ddiogelwch a gofal plant gydymffurfio â’r safonau a sefydlir gan awdurdodau cymwys, yn enwedig ym maes diogelwch, iechyd, niferoedd ac addasrwydd staff a goruchwyliaeth gymwys.

**Erthygl 12**
1. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon sicrhau bod plentyn sy’n gallu mynegi ei farn ei hun yn cael yr hawl i fynegi’r safbwyntiau hynny’n rhydd ar bob mater sy’n effeithio ar y plentyn, a bod barn y plentyn yn cael ystyriaeth briodol yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.
2. I’r diben hwn, rhoddir cyfle yn benodol i’r plentyn gael ei glywed mewn unrhyw achos barnwrol a gweinyddol sy’n effeithio ar y plentyn, naill ai’n uniongyrchol neu drwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy’n cyd-fynd â rheolau gweithdrefnol y gyfraith genedlaethol.

**Erthygl 23**
1. Mae Gwladwriaethau sy’n Bartïon yn cydnabod y dylai plentyn ag anabledd meddyliol neu gorfforol fwynhau bywyd llawn a gweddus, mewn amodau sy'n sicrhau urddas, yn hybu hunanddibyniaeth ac yn helpu'r plentyn i fod yn rhan weithredol o'r gymuned.
2. Mae Gwladwriaethau sy’n Bartïon yn cydnabod hawl y plentyn anabl i ofal arbennig a rhaid iddyn nhw annog a sicrhau estyniad, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael, i'r plentyn cymwys a'r rhai sy'n gyfrifol am ei ofal, ar gyfer cymorth y gwneir cais ar ei gyfer ac sy'n briodol i gyflwr y plentyn ac i amgylchiadau'r rhieni neu eraill sy'n gofalu am y plentyn.
3. Gan gydnabod anghenion arbennig plentyn anabl, darperir cymorth a ymestynnir yn unol â pharagraff 2 o'r erthygl bresennol yn rhad ac am ddim, pan fo modd, gan ystyried adnoddau ariannol y rhieni neu eraill sy'n gofalu am y plentyn, a bydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod gan y plentyn anabl fynediad effeithiol at addysg, hyfforddiant, gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau adsefydlu, cyfleoedd paratoi ar gyfer cyflogaeth a chyfleoedd hamdden mewn modd sy'n helpu'r plentyn i gyflawni'r integreiddiad cymdeithasol a'r

datblygiad unigol llawnaf posibl, gan gynnwys datblygiad diwylliannol ac ysbrydol y plentyn, a'i fod yn derbyn y rhain i gyd.
4. Rhaid i Wladwriaethau sy’n Bartïon hyrwyddo, o ran cydweithredu rhyngwladol, gyfnewid gwybodaeth briodol ym maes gofal iechyd ataliol a thriniaeth feddygol, seicolegol a swyddogaethol plant anabl, gan gynnwys lledaenu a mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â dulliau adsefydlu, addysg a gwasanaethau galwedigaethol, gyda'r nod o alluogi Gwladwriaethau sy’n Bartïon i wella eu galluoedd a'u sgiliau ac ehangu eu profiad yn y meysydd hyn. Yn hyn o beth, dylid rhoi sylw arbennig i anghenion gwledydd sy’n datblygu.

**Erthygl 28**
1. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon gydnabod hawl y plentyn i gael addysg ac, er mwyn sicrhau’r hawl hon yn gynyddol ac yn seiliedig ar gyfle cyfartal, dylen nhw’n benodol:

a) sicrhau bod addysg gynradd yn orfodol ac ar gael am ddim i bawb
b) annog datblygiad gwahanol fathau o addysg uwchradd, gan gynnwys addysg gyffredinol a galwedigaethol, sicrhau ei bod ar gael ac yn hygyrch i bob plentyn a chymryd camau priodol megis cyflwyno addysg am ddim a chynnig cymorth ariannol yn ôl yr angen
c) sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb, ar sail capasiti, trwy bob ffordd briodol
d) sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau addysgol a galwedigaethol ar gael ac yn hygyrch i bob plentyn
e) cymryd camau i annog presenoldeb rheolaidd mewn ysgolion a lleihau cyfraddau gadael.

2. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon gymryd camau priodol i sicrhau bod disgyblaeth ysgol yn cael ei gweinyddu mewn ffordd sy’n gyson ag urddas dynol y plentyn ac yn cydymffurfio â’r Confensiwn presennol.
3. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon hyrwyddo ac annog cydweithrediad rhyngwladol mewn perthynas â materion sy’n ymwneud ag addysg, yn enwedig gyda’r nod o gyfrannu at ddileu anwybodaeth ac anllythrennedd ledled y byd a hwyluso mynediad i wybodaeth wyddonol a thechnegol a dulliau addysgu modern.
Yn hyn o beth, dylid rhoi sylw arbennig i anghenion gwledydd sy’n datblygu.

**Erthygl 29**
1. Dylai Gwladwriaethau sy’n Bartïon gytuno y dylai addysg y plentyn geisio cyflawni’r canlynol:
a) datblygu personoliaeth, doniau a galluoedd meddyliol a chorfforol y plentyn i’w potensial llawn
b) datblygu parch tuag at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol a’r egwyddorion sy’n ganolog i Siarter y Cenhedloedd Unedig
c) datblygu parch tuag at rieni’r plentyn, ei hunaniaeth ddiwylliannol ei hun, ei iaith a’i werthoedd a gwerthoedd cenedlaethol y wlad y mae’r plentyn yn byw ynddi, ei wlad enedigol a gwareiddiadau sy’n wahanol i’r gwareiddiad y mae’n perthyn iddo
d) paratoi’r plentyn ar gyfer bywyd cyfrifol mewn cymdeithas rydd, yn ysbryd dealltwriaeth, heddwch, goddefgarwch, cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chyfeillgarwch rhwng pobl o wahanol grwpiau ethnig, cenedlaethol a chrefyddol a phobl o darddiad brodorol
e) datblygu parch tuag at yr amgylchedd naturiol.
2. Ni ddylid dehongli unrhyw ran o’r erthygl hon nac erthygl 28 fel eu bod yn ymyrryd â rhyddid unigolion a chyrff i sefydlu a chyfarwyddo sefydliadau addysgol, yn amodol ar gadw at yr egwyddor a amlinellir ym mharagraff 1 o’r erthygl hon a’r gofynion sy’n nodi y dylai’r addysg a roddir mewn sefydliadau o’r fath gydymffurfio ag unrhyw safonau gofynnol o eiddo’r Wladwriaeth.

**Erthygl 31**
1. Mae Gwladwriaethau sy’n Bartïon yn cydnabod hawl y plentyn i gael gorffwys a hamddena, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i oed y plentyn a chael y rhyddid i gyfrannu'n rhydd i'r byd diwylliannol a'r celfyddydau.
2. Rhaid i Wladwriaethau sy’n Bartïon barchu a hyrwyddo hawl y plentyn i gymryd rhan lawn yn y byd diwylliannol ac artistig a byddan nhw’n annog darparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, artistig a hamdden.

**Erthygl 37**
Rhaid i Wladwriaethau sy’n Bartïon sicrhau'r canlynol:
a) Ni chaniateir arteithio na chosbi neu drin yn greulon, yn annynol neu'n israddol unrhyw blentyn. Ni chaiff cosb gyfalaf na charchar oes heb bosibilrwydd o ryddhad eu gorfodi am droseddau a gyflawnwyd gan bersonau o dan ddeunaw oed
b) Ni chaiff unrhyw blentyn ei amddifadu yn anghyfreithlon neu'n fympwyol o'i ryddid. Rhaid i'r broses o arestio, cadw neu garcharu plentyn gydymffurfio â'r gyfraith a rhaid peidio â'i defnyddio ond pan fetho popeth arall a rhaid ei defnyddio am y cyfnod priodol byrraf
c) Caiff pob plentyn a amddifadir o'i ryddid ei drin â dyngarwch a pharch at urddas gynhenid y person dynol, ac mewn modd sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion personau o'i oedran. Yn benodol, rhaid i bob plentyn a amddifadir o'i ryddid gael ei wahanu oddi wrth oedolion oni fernir y byddai er lles pennaf y plentyn i beidio â gwneud hynny a chael hawl i gadw cysylltiad â'i deulu drwy ohebiaeth ac ymweliadau, oddigerth mewn amgylchiadau eithriadol
d) Bydd gan bob plentyn a amddifadir o'i ryddid yr hawl i gael mynediad prydlon at gymorth cyfreithiol a chymorth priodol arall, yn ogystal â'r hawl i herio cyfreithlondeb yr achos o amddifadu ei ryddid gerbron llys neu awdurdod cymwys, annibynnol a diduedd arall, ac i benderfyniad prydlon ar unrhyw gamau o'r fath.

## 1.19 Dysgwyr sydd â gweithiwr cymdeithasol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal

1.19.1 Mae plant a chanddynt weithiwr cymdeithasol mewn cryn berygl o fod â chyrhaeddiad isel yn yr ysgol. Dylai ysgolion fod yn arbennig o sensitif i faterion sy'n ymwneud â gwaharddiadau pan fo gan blant weithiwr cymdeithasol. Dylai ysgolion wneud popeth ymarferol i gadw’r plentyn yn yr ysgol a dylen nhw ofyn am gyngor yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill fel y bo’n briodol. Ym mhob achos, dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol weithio gyda’r ysgol o’r dechrau’n deg i osgoi’r angen am wahardd y dysgwr.

1.19.2 Mewn achosion lle bydd plentyn sy’n derbyn gofal yn cael ei wahardd, bydd gan y sawl a ystyrir yn rhiant neu ofalwr hawl i wneud sylwadau ac i apelio. Mae’r diffiniad o riant at ddiben adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 yn eang ac mae’n cynnwys rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant neu gofal dros plentyn. Bydd hyn yn cynnwys yr awdurdod lleol lle mae ganddyn nhw orchymyn gofal yn achos y plentyn ac unrhyw un (er enghraifft rhiant maeth) y mae’r plentyn yn byw gydag ef/hi. Mae’r rhain yn ychwanegol at rieni biolegol y plentyn. Golyga hyn y gallai fod angen i’r ysgol hysbysu mwy na 2 riant neu ofalwr am waharddiadau ac y gallai fod mwy na 2 riant neu ofalwr â hawl i wneud sylwadau ac i apelio.

1.19.3 Hyd yn oed os nad oes gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant, dylai roi gwybodaeth i weithiwr cymdeithasol y plentyn am unrhyw waharddiad. Bydd yr athro/athrawes a enwebwyd ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn gallu rhoi cyngor am statws cyfreithiol dysgwyr yn yr ysgol sy’n derbyn gofal gan gorff cyhoeddus. I gael rhagor o arweiniad gweler Gwneud gwahaniaeth: canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion.

1.19.4 Pan fo plant a oedd yn arfer derbyn gofal yn wynebu'r risg o gael eu gwahardd, dylai'r ysgol ymgysylltu â rhieni neu ofalwyr y plentyn a chael cyngor gan weithwyr proffesiynol perthnasol i ddatblygu strategaethau i gefnogi'r dysgwr.

## 1.20 Rôl Llywodraeth Cymru

1.20.1 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau ar wahardd ac mae'n rhaid i benaethiaid, athrawon â gofal unedau cyfeirio disgyblion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a phaneli apêl annibynnol dalu sylw iddyn nhw.

1.20.2 Er y dylai pob un o'r uchod ystyried y canllawiau hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai pob parti fabwysiadu agwedd ragweithiol at waharddiadau yn eu hardal a chydweithio'n agosach er mwyn pennu system syml a hygyrch i leihau'r baich ar wasanaethau, ysgolion a theuluoedd.

1.20.3 Gall Llywodraeth Cymru ystyried cwynion am y ffordd mae pwyllgor disgyblu wedi gweithredu'r weithdrefn wahardd ond nid oes ganddyn nhw bŵer i wrthdroi'r gwaharddiad nac i ystyried cwynion am benderfyniad panel apêl annibynnol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth mewn dulliau o ddatrys y mater ar ôl y gwrandawiad apêl.

# 2. Gweithdrefn ar gyfer gwahardd dysgwr: rôl pennaeth

## 2.1 Hysbysu'r 'person perthnasol' am y gwaharddiad

2.1.1 Dylai penaethiaid ddilyn yn ofalus y gweithdrefnau a bennwyd yn y gyfraith ac mewn canllawiau statudol. Lluniwyd y rhain i sicrhau bod gwaharddiadau yn cael eu trin yn deg ac yn agored.

2.1.2 Pa bryd bynnag y bydd pennaeth neu athro/athrawes sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion yn gwahardd dysgwr, rhaid hysbysu'r 'person perthnasol' yn ddi-oed, a hynny'n ddelfrydol dros y ffôn neu ddull priodol arall, gyda llythyr yn dilyn cyn pen un diwrnod ysgol.

2.1.3 Diffinnir y 'person perthnasol' gan reoliadau a chyfeirir at y diffiniad yn y cyflwyniad i'r ddogfen hon. O dan y rheoliadau rhaid anfon hysbysiad am waharddiad at rieni neu ofalwyr dysgwr sy'n iau nag 11 oed (yn yr ysgol gynradd fel rheol), at y rhieni neu'r gofalwyr a'r dysgwr os yw'r dysgwr o oed ysgol gorfodol ond yn 11 neu hŷn, ac at y dysgwr yn unig os yw dros yr oedran ysgol gorfodol.

2.1.4 Mewn amgylchiadau eithriadol, os bydd y pennaeth o'r farn ei bod yn hanfodol bod y dysgwr yn gadael yr ysgol yn ddiymdroi, dylid cadarnhau gyda'r rhiant neu ofalwr nad yw'r dysgwr yn cael ei adael heb oruchwyliaeth.

2.1.5 Pan fydd dysgwr yn cael ei wahardd o'r ysgol yn ddiymdroi yn ystod sesiwn y bore, mae hyn yn cyfrif fel gwaharddiad o hanner diwrnod ysgol at ddibenion penderfynu hyd y gwaharddiad. Pan fydd dysgwr yn cael ei wahardd yn ystod sesiwn y prynhawn dylid anwybyddu diwrnod y gwaharddiad at ddibenion cyfrif hyd y gwaharddiad.

2.1.6 Mae pryd y dylai'r rhiant neu ofalwr neu ddysgwr dderbyn hysbysiad ysgrifenedig yn dibynnu ar pryd y caiff y dysgwr ei wahardd, fel a ganlyn:

- os caiff y dysgwr ei wahardd yn ystod sesiwn y bore, rhaid cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig cyn dechrau sesiwn y prynhawn
- os caiff y dysgwr ei wahardd yn ystod sesiwn y prynhawn, dylid cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig erbyn diwedd y sesiwn honno

2.1.7 Mewn llythyrau sy'n hysbysu am waharddiad dylid nodi:

- yn achos gwaharddiad cyfnod penodol, union gyfnod y gwaharddiad
- yn achos gwaharddiad parhaol, y ffaith ei fod yn waharddiad parhaol
- y rheswm neu resymau am y gwaharddiad cyfnod penodol neu barhaol
- hawl y rhiant neu ofalwr a'r dysgwr i wneud sylwadau am y gwaharddiad i'r pwyllgor disgyblu
- y person y dylai'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr gysylltu ag ef os yw'n dymuno gwneud sylwadau o'r fath (fel arfer Clerc y pwyllgor disgyblu)

2.1.8 Hefyd, dylai'r llythyrau gadarnhau:

- y dyddiad olaf y gall y pwyllgor disgyblu gwrdd i ystyried yr amgylchiadau a arweiniodd at wahardd y dysgwr (ac eithrio pan fo dysgwr wedi'i wahardd am lai na 6 diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor yn achos ysgol a gynhelir neu lai nag 16 o ddiwrnodau ysgol mewn unrhyw dymor yn achos uned cyfeirio disgyblion, ac na fyddai'n golygu bod y dysgwr yn colli arholiad cyhoeddus)

- hawl y rhiant neu ofalwr i weld a chael copi o gofnod addysg y dysgwr ar ôl anfon cais ysgrifenedig i'r ysgol, fel yr amlinellir yn rheoliad 5 o Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011
- yn achos gwaharddiad am gyfnod penodol, y dyddiad a'r amser pryd y dylai'r dysgwr ddychwelyd i'r ysgol (yn achos gwaharddiad amser cinio, am ba sawl amser cinio y mae'r dysgwr yn cael ei wahardd ac, os yw hynny'n berthnasol, y trefniadau i'r plentyn gael cinio ysgol am ddim)
- os yw'r gwaharddiad yn barhaol, ar ba ddyddiad y daw i rym ac unrhyw hanes blaenorol perthnasol
- y trefniadau a wnaed i alluogi'r dysgwr i barhau â'i addysg, gan gynnwys gosod a marcio gwaith (cyfrifoldeb y rhiant neu ofalwr yw gofalu bod gwaith a anfonwyd i'w wneud gartref yn cael ei orffen a'i ddychwelyd i'r ysgol)
- enw a rhif ffôn swyddog yn yr awdurdod lleol a all gynnig cyngor
- os yn briodol, y gwahoddir y rhiant neu ofalwr i gyfweliad ailintegreiddio ac y bydd methu â mynd i gyfweliad ailintegreiddio yn ffactor a ystyrir gan lys wrth benderfynu, mewn perthynas ag unrhyw gais yn y dyfodol, a ddylid gosod gorchymyn rhianta ar y rhiant neu ofalwr

2.1.9 Yn Atodiad A o'r canllawiau hyn ceir 4 llythyr enghreifftiol ar gyfer rhoi gwybod i rieni/gofalwyr a dysgwyr am waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

- Llythyr enghreifftiol 1: ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol o lai na 6 diwrnod a lle na fydd arholiad cyhoeddus yn cael ei golli.
- Llythyr enghreifftiol 2: ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol o rhwng 6 ac 15 diwrnod (un gwaharddiad neu sawl un gyda'i gilydd) neu pan fydd arholiad cyhoeddus yn cael ei golli.
- Llythyr enghreifftiol 3: ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol (un neu sawl un gyda'i gilydd) o 16 diwrnod neu ragor.
- Llythyr enghreifftiol 4: ar gyfer gwaharddiadau parhaol.

2.1.10 Efallai bydd rhaid cyfieithu llythyrau i ieithoedd eraill pan nad Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf y rhieni neu'r gofalwyr. Yn gyntaf, dylid sefydlu os gall unrhyw un yn y teulu, neu gynrychiolydd, ddarparu cyfieithiad neu esboniad i'r teulu.

2.1.11 Dylai pawb sy'n rhan o'r broses drin manylion pob achos o wahardd yn gwbl gyfrinachol.

2.1.12 Mewn achosion eithriadol, fel arfer pan fydd mwy o dystiolaeth wedi dod i law, gellir ymestyn gwaharddiad cyfnod penodol neu ei newid yn waharddiad parhaol. Mewn achosion felly, rhaid i'r pennaeth ysgrifennu at y rhieni, gofalwyr neu'r dysgwr unwaith eto yn egluro'r rhesymau am y newid. Gall y pennaeth ddewis tynnu'n ôl waharddiad sydd heb ei adolygu gan y pwyllgor disgyblu. Bydd y terfynau amser statudol ar gyfer cynnal gwrandawiad y pwyllgor disgyblu yn dechrau ar y dyddiad y caiff wybod bod y gwaharddiad wedi newid o waharddiad cyfnod penodol i un parhaol, oni bai bod y naill ochr a'r llall yn cytuno i gadw at y dyddiad y cytunwyd arno eisoes ar gyfer y gwrandawiad ynghylch y gwaharddiad cyfnod penodol.

2.1.13 Os bydd dysgwyr yn cael eu gwahardd am gyfnod penodol ac na wneir unrhyw ddarpariaeth amgen cyn unfed ddiwrnod ar bymtheg y gwaharddiad, dylid nodi'r gwaharddiad hwn fel absenoldeb awdurdodedig yn y gofrestr presenoldeb trwy ddefnyddio Cod E. Os gwneir darpariaeth amgen a'i bod yn bodloni gofynion y rheoliadau cofrestru

dysgwyr a bod dysgwyr yn ei mynychu, dylid nodi hyn trwy ddefnyddio’r cod priodol, megis Cod B (derbyn addysg oddi ar y safle) neu God D (cofrestriad deuol).

## 2.2 Hysbysu’r pwyllgor disgyblu a’r awdurdod lleol

2.2.1 Rhaid i'r pennaeth yn ddi-oed (ac o fewn un diwrnod ysgol) hysbysu'r pwyllgor disgyblu a'r awdurdod lleol o'r canlynol:

- gwaharddiadau parhaol
- gwaharddiadau a fydd yn golygu bod y dysgwr yn cael ei wahardd am fwy na 5 niwrnod ysgol neu 20 amser cinio mewn unrhyw dymor
- gwaharddiadau a fydd yn golygu bod y dysgwr yn colli arholiad cyhoeddus

2.2.2 Rhaid hysbysu’r pwyllgor disgyblu a’r awdurdod lleol unwaith y tymor am waharddiadau cyfnod penodol sy’n gyfanswm o 5 diwrnod ysgol neu lai, neu 20 neu lai o amserau cinio (chwarter diwrnodau), mewn unrhyw dymor, lle nad yw’r dysgwr yn colli arholiad cyhoeddus.

2.2.3 Mewn perthynas â gwaharddiad parhaol, os bydd y dysgwr yn byw y tu allan i’r awdurdod lleol lle lleolir yr ysgol, rhaid i’r pennaeth roi gwybod i’r awdurdod lleol cartref am y gwaharddiad hefyd fel y gall wneud trefniadau ar gyfer addysg lawn amser y dysgwr o unfed diwrnod ysgol ar bymtheg y gwaharddiad ymlaen. Mae'n hanfodol bod yr awdurdod lleol cartref yn cael gwybod yn gyflym ac yn llawn am fanylion y gwaharddiad fel ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith o fewn y terfynau amser statudol.

2.2.4 Rhaid i’r adroddiadau ar wahardd gynnwys:

- enw, oedran, dyddiad geni, rhyw ac ethnigrwydd y dysgwr
- p'un a oes gan y dysgwr CDU a gynhelir gan yr ysgol, CDU a gynhelir gan awdurdod lleol neu ei fod yn ymwneud â phroses CDU, fel bod penderfyniad yn cael ei wneud neu CDU yn cael ei baratoi
- a yw’r dysgwr yng ngofal yr awdurdod lleol
- hyd y gwaharddiad
- y rheswm am y gwaharddiad

2.2.5 Rhaid i athro/athrawes sy’n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion roi gwybodaeth debyg i’r awdurdod lleol.

2.2.6 Yn achos plentyn sy’n derbyn gofal o ardal awdurdod lleol arall, dylid rhoi gwybod i awdurdod lleol y ‘cartref’.

2.2.7 Dylid defnyddio un (neu fwy nag un ar gyfer nifer o achosion o dor-rheolau) o’r codau neu derminoleg gwahardd canlynol wrth roi gwybod i’r awdurdod lleol am waharddiad:

- Ymosodiad corfforol yn erbyn disgybl
- Ymosodiad corfforol yn erbyn oedolyn
- Ymddygiad aflonyddgar parhaus
- Bwlio
- Cam-drin hiliol
- Camymddwyn rhywiol

- Cam-drin geiriol neu ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl
- Cam-drin geiriol neu ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn
- Lladrata
- Difrod
- Cysylltiedig â chyffuriau ac alcohol
- Arall

# 3. Cyfrifoldebau’r pwyllgor disgyblu

## 3.1 Y pwyllgor disgyblu

3.1.1 Rhaid i’r corff llywodraethu sefydlu pwyllgor disgyblu, yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae rôl y pwyllgor yn cynnwys adolygu’r modd y defnyddir gwaharddiadau yn yr ysgol. Rhaid i’r pwyllgor gynnwys 3 neu 5 llywodraethwr, o blith aelodau’r corff llywodraethu heb gynnwys y pennaeth nac unrhyw ddisgybl-lywodraethwr cyswllt. Dylai’r corff llywodraethu anelu at gynnwys ystod o wahanol fathau o lywodraethwyr. Dylen nhw hefyd dalu sylw i’r angen am i aelodau’r pwyllgor disgyblu gwrdd ar frys pan fydd dysgwr wedi’i wahardd.

3.1.2 Mae’n bwysig bod aelodau pwyllgorau disgyblu y mae gofyn iddyn nhw adolygu gwaharddiadau yn derbyn hyfforddiant fel y gallan nhw gyflawni eu dyletswyddau yn briodol ac yn unol â'r dyletswyddau cydraddoldeb. Byddai Llywodraeth Cymru’n disgwyl i’r awdurdod lleol drefnu sesiwn hyfforddi i aelodau ar faterion gwahardd, ac i aelodau wneud pob ymdrech i fynychu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion sy'n cynnwys canllawiau ynghylch presenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau.

3.1.3 Rhaid i'r corff llywodraethu (neu'r pwyllgor disgyblu os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu felly) benodi Cadeirydd i'r pwyllgor disgyblu. Ni all y Cadeirydd fod yn berson sy'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol. Rhaid i'r corff llywodraethu hefyd benodi Clerc i'r pwyllgor disgyblu. Dylai'r Clerc roi cyngor ar y broses wahardd a thrin y broses weinyddol. Bydd angen tri aelod i gael cworwm o’r pwyllgor disgyblu. Os oes gan lywodraethwr gysylltiad â’r dysgwr neu â’r digwyddiad a allai godi amheuon am ei allu i weithredu’n amhleidiol ni ddylai wasanaethu yn y gwrandawiad hwnnw. Er mwyn osgoi gorfod galw cyfarfodydd llawn y corff llywodraethu ar fyr rybudd, byddai¹n ymarferol pe byddai¹r corff llywodraethu yn pennu aelodau’r pwyllgor disgyblu, ac yn cytuno hefyd ar restr o lywodraethwyr â blaenoriaeth fel dirprwyon. Yna, mewn argyfwng, bydd rhaid i’r corff llywodraethu ddirprwyo cyfrifoldeb i’r cadeirydd (neu¹r is-gadeirydd) gysylltu â¹r llywodraethwyr hynny â blaenoriaeth yn y drefn flaenoriaeth y cytunwyd arni. Rhaid i hyn gael ei gofnodi’n ofalus. Mae’r opsiwn hwn yn bodloni’r gofyniad yn y rheoliadau gan y bydd y corff llywodraethu llawn wedi penderfynu ar aelodaeth y pwyllgor ac ar y drefn flaenoriaeth ar gyfer unrhyw aelodau wrth gefn.

3.1.4 Mewn un cyfarfod, gall y pwyllgor disgyblu ystyried mwy nag un gwaharddiad cyhyd ag y bydd yn cydymffurfio â’r terfynau amser statudol yn y rheoliadau sy’n berthnasol i bob un.

3.1.5 Pe byddai gwaharddiad yn golygu bod dysgwr yn colli arholiad cyhoeddus, rhaid i'r pwyllgor disgyblu (os yw'n ymarferol iddo wneud hynny) geisio cwrdd cyn dyddiad yr arholiad. Yn achos gwaharddiad cyfnod penodol, os nad yw Cadeirydd y pwyllgor o’r farn ei bod yn ymarferol i’r pwyllgor gwrdd cyn dyddiad yr arholiad cyhoeddus, gall ef neu hi ystyried y gwaharddiad ar ei ben ei hun a phenderfynu a ddylid derbyn y dysgwr yn ôl ai peidio (dyma’r unig dro y gall Cadeirydd adolygu gwaharddiad ar ei ben ei hun). Mewn achosion o’r fath mae gan y rhiant/gofalwr a/neu’r dysgwr hawl i wneud sylwadau ysgrifenedig a llafar i’r pwyllgor neu, fel y bo pethau, i’r Cadeirydd. Os oes modd, dylai’r Cadeirydd gael manylion gan swyddog o’r awdurdod lleol am sut y deliwyd ag achosion tebyg eraill yn yr awdurdod lleol.

3.1.6 Mewn rhai achosion, yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y gwaharddiad, gall y pwyllgor disgyblu ddefnyddio ei ddisgresiwn i ganiatáu i ddysgwr wedi'i wahardd ddychwelyd i'r eiddo i sefyll arholiad cyhoeddus. Nid oes gan ddysgwr wedi'i wahardd hawl awtomatig i sefyll arholiad cyhoeddus ar eiddo'r ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion; dim ond y pwyllgor disgyblu fydd â'r hawl i benderfynu a fydd y dysgwr yn cael dychwelyd i'r perwyl hwn.

## 3.2 Cyfarfodydd y pwyllgor disgyblu i ystyried gwaharddiadau

3.2.1 Pan dderbynnir hysbysiad gan y pennaeth ynghylch gwaharddiad:

y pwyllgor disgyblu:

a) rhaid iddyn nhw, yn achos un neu ragor o waharddiadau cyfnod penodol sy'n gyfanswm o 5 niwrnod ysgol neu lai mewn unrhyw dymor, ystyried sylwadau gan y rhiant neu ofalwr a'r dysgwr ond nid ydyn nhw'n gallu cyfarwyddo ei fod yn cael ei dderbyn yn ôl (gweler Llythyr enghreifftiol 1 yn Atodiad A) ond gall roi cofnod o'i sylwadau ar gofnod addysg y dysgwr.

Gall Cadeirydd y pwyllgor disgyblu gytuno i alw cyfarfod os bydd y rhiant neu ofalwr yn gofyn am gyfarfod i drafod y gwaharddiad. Er nad oes unrhyw derfynau amser statudol yn berthnasol i ystyried gwaharddiadau o'r fath, dylai'r Cadeirydd ystyried ymateb yn brydlon i unrhyw gais gan y rhiant neu ofalwr.

y Clerc neu, pan na fo clerc wedi'i benodi, y Cadeirydd:

b) rhaid iddyn nhw, yn achos un neu ragor o waharddiadau cyfnod penodol, sy'n gyfanswm o fwy na 5 ond dim mwy nag 15 diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor, gynnull cyfarfod rhwng y chweched a'r hanner canfed diwrnod ysgol ar ôl cael hysbysiad am y gwaharddiad, i ystyried y gwaharddiad, os yw'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yn gofyn am wneud sylwadau i'r pwyllgor disgyblu.

Gall y cyfarfod ganiatáu i ddisgybl ddychwelyd i'r ysgol (gweler Llythyr enghreifftiol 2 yn Atodiad A)

c) rhaid iddyn nhw, yn achos gwaharddiad parhaol, neu un neu ragor o waharddiadau cyfnod penodol (gan gynnwys amser cinio) sy'n fwy na 15 diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor, gynnull cyfarfod rhwng y chweched a'r pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl y dyddiad derbyn i ystyried y gwaharddiad (gweler Llythyr enghreifftiol 3 a Llythyr enghreifftiol 4 yn Atodiad A)
d) rhaid iddyn nhw, mewn achos lle bydd dysgwr yn colli arholiad cyhoeddus, gynnull cyfarfod (cyhyd ag y bo'n ymarferol iddyn nhw wneud hynny) cyn y dyddiad yr oedd y dysgwr i sefyll yr arholiad ac mewn unrhyw achos yn ddim hwyrach na'r hyn a ddisgrifir ym mharagraffau b ac c uchod (gweler Llythyr enghreifftiol 2 yn Atodiad A)
e) rhaid iddyn nhw wahodd y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr, y pennaeth a swyddog o'r awdurdod lleol i'r cyfarfod ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus i bob ochr (cyn pen y terfyn amser statudol)
f) dylen nhw ofyn am unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig (gan gynnwys datganiadau tystion) cyn y cyfarfod
g) dylen nhw ddosbarthu i'r holl bartïon ymlaen llaw, gan gynnwys y dysgwr os ydyn nhw'n mynychu'r cyfarfod, o fewn 5 niwrnod ysgol o'r cyfarfod, unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig (gan gynnwys datganiadau tystion) a rhestr o'r rhai a fydd yn bresennol yn y cyfarfod
h) rhaid iddyn nhw roi cyfle i safbwyntiau'r dysgwr a waharddwyd gael eu hystyried yn y cyfarfod, ni waeth beth yw ei oed.

3.2.2 Os bydd y pwyllgor disgyblu wedi cwrdd yn flaenorol ac os bydd gwaharddiadau pellach yn digwydd yn yr un tymor, mae'n ofynnol i'r pwyllgor disgyblu gwrdd mewn perthynas â phob gwaharddiad i asesu effeithiolrwydd y cynlluniau cymorth a roddwyd ar waith ar gyfer y dysgwr hwnnw.

3.2.3 Dylai'r pwyllgor disgyblu gynnal y cyfarfod yn unol â'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodir yn yr adran ar gynnal y gwrandawiad apêl. O dan y rheoliadau a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2004, mae gan ddysgwyr o bob oed hawl i roi eu safbwynt gerbron cyfarfod y pwyllgor disgyblu ac yng ngwrandawiad y panel apêl annibynnol. Gall hyn fod yn bersonol, yn ysgrifenedig neu drwy unrhyw gyfrwng ymarferol arall.

3.2.4 Dylai'r pwyllgor disgyblu ganiatáu i'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr ddod â ffrind neu gynrychiolydd cyfreithiol gyda nhw os gofynnir am hynny.

3.2.5 Os na fydd dysgwyr o oed ysgol yn dod â'u rhieni neu ofalwyr gyda nhw dylai'r awdurdod lleol ymdrechu i gael gwasanaethau eiriolydd i siarad ar ran y dysgwr. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle bernir nad yw'r dysgwyr yn ddigon aeddfed neu'n ddigon abl i gynrychioli eu hunain yn effeithiol.

3.2.6 Rhaid i'r pwyllgor gydymffurfio â'r terfynau amser statudol ond mae cyfrifoldeb cyfreithiol arno i gyflawni'r ddyletswydd berthnasol hyd yn oed os nad yw'n cydymffurfio â'r terfynau amser. Felly, ni fydd ei benderfyniad yn annilys yn unig am iddo gael ei wneud y tu allan i'r terfynau amser.

3.2.7 Rôl y pwyllgor disgyblu yw adolygu gwaharddiadau. Dim ond y pennaeth sydd â'r pŵer i wahardd. Ni all y pwyllgor disgyblu gynyddu difrifoldeb gwaharddiad, er enghraifft, trwy ymestyn cyfnod gwaharddiad cyfnod penodol neu osod gwaharddiad parhaol yn lle gwaharddiad cyfnod penodol.

3.2.8 Gall y pwyllgor disgyblu gadarnhau gwaharddiad neu ganiatáu i'r dysgwr ddychwelyd i'r ysgol, naill ai'n syth neu erbyn dyddiad penodol. Os na all y pwyllgor disgyblu ganiatáu i'r dysgwr ddychwelyd i'r ysgol gan fod cyfnod y gwaharddiad wedi darfod a bod y dysgwr eisoes wedi dychwelyd i'r ysgol, gall roi copi o'i ganfyddiadau ar gofnod ysgol y dysgwr. Yn achos gwaharddiad parhaol, os bydd apêl yn cael ei chyflwyno yn erbyn penderfyniad y pwyllgor, dylai'r pwyllgor disgyblu gofio y bydd y panel apelau annibynnol nid yn unig yn adolygu penderfyniad y pwyllgor, ond yn clywed holl ffeithiau'r achos, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth newydd.

## 3.3 Y weithdrefn mewn cyfarfod o'r pwyllgor disgyblu

3.3.1 Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol anfon cynrychiolydd i bob cyfarfod o'r pwyllgor disgyblu yn ei ardal (fe allai hynny fod yn anymarferol). Fodd bynnag, dylai'r awdurdod lleol anfon cynrychiolydd i bob cyfarfod sy'n trafod gwaharddiad parhaol ac, os oes modd, i gyfarfodydd sy'n trafod y gwaharddiadau cyfnod penodol hiraf. Gall yr awdurdod lleol wneud datganiad i'r pwyllgor disgyblu, er enghraifft am sut mae ysgolion eraill yn yr ardal wedi delio â digwyddiadau tebyg a rhoi cyngor am y trefniadau amgenach i'r dysgwyr barhau i gael addysg os yw'r gwaharddiad yn cael ei gadarnhau.

3.3.2 Gall y pwyllgor disgyblu ofyn i'r swyddog awdurdod lleol am gyngor technegol neu weithdrefnol penodol. Serch hynny, dylai'r pwyllgor disgyblu wneud y penderfyniad yn breifat, gan ofyn i'r partïon eraill ymneilltuo. Gall y Clerc aros gyda'r pwyllgor i'w helpu trwy

gyfeirio at ei nodiadau tystiolaeth a'i helpu i eirio ei benderfyniad. Dylai'r Cadeirydd egluro swyddogaeth gyfyngedig y Clerc ar ddechrau'r cyfarfod.

3.3.3 Dylai'r pwyllgor disgyblu benderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd i dderbyn y dysgwr yn ôl. Wrth wneud ei benderfyniad, dylai'r pwyllgor ystyried:

- unrhyw sylwadau a wnaed gan y rhiant neu ofalwr, y dysgwr, y pennaeth a'r swyddog awdurdod lleol
- materion lle mae yna ddiffyg eglurder, lle mae angen rhagor o wybodaeth neu os yw'n ymddangos bod canllawiau wedi'u hanwybyddu
- a yw'r pennaeth wedi cydymffurfio â'r weithdrefn wahardd ac a yw wedi talu sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru cyn penderfynu gwahardd y dysgwr
- polisïau priodol yr ysgol, gan gynnwys y polisïau ymddygiad, cyfleoedd cyfartal, atal bwlio a chydraddoldeb hil a gyhoeddwyd gan yr ysgol

3.3.4 Yn achos gwaharddiad parhaol, fel rheol dylai'r pwyllgor disgyblu fodloni ei hun bod yr holl strategaethau eraill i wella ymddygiad dysgwr wedi'u rhoi ar waith ac wedi bod yn aflwyddiannus. Dylid rhoi sylw arbennig i ddefnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol.

3.3.5 Os yw'r pwyllgor disgyblu yn penderfynu derbyn y dysgwr yn ôl, dylai'r pwyllgor disgyblu benderfynu wedi hynny a yw'n ymarferol ei dderbyn yn ôl. Mae ymarferol yn cyfeirio, yn y cyd-destun hwn, at amgylchiadau ac anghenion unigol y dysgwr, yn hytrach na materion megis ariannu'r gefnogaeth ar gyfer y dysgwr o fewn yr ysgol. Os yw'n ymarferol derbyn y dysgwr yn ôl yna dylai'r pwyllgor disgyblu benderfynu a ddylid derbyn y dysgwr yn ôl ar unwaith neu erbyn dyddiad penodol. Fel arfer, byddai dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl ar unwaith neu o fewn dim mwy na 5 niwrnod i ddyddiad y penderfyniad. Os yw'r pwyllgor disgyblu yn penderfynu rhoi cyfarwyddyd bod yr ysgol yn derbyn y dysgwr yn ôl, dylai drafod gyda'r awdurdod lleol a fydd cymorth ychwanegol am gyfnod byr yn helpu i sicrhau ei fod yn ailintegreiddio'n llwyddiannus.

3.3.6 Os yw'r pwyllgor disgyblu yn penderfynu cadarnhau penderfyniad pennaeth i wahardd am fwy na 15 diwrnod ysgol, dylai fod yn fodlon bod trefniadau priodol i'r dysgwr barhau â'i addysg tra mae i ffwrdd o'r ysgol. Ni fydd yn ddigon i'r dysgwr barhau i weithio gartref heb oruchwyliaeth, a dylai'r pwyllgor disgyblu sicrhau bod cymorth ychwanegol (er enghraifft gwersi yn y cartref) neu, os yw hynny'n briodol, gwasanaethau arbenigol (er enghraifft cynghori) yn cael eu trefnu.

3.3.7 Os nad yw'n ymarferol i dderbyn dysgwr yn ôl, er enghraifft oherwydd ei fod wedi dychwelyd i'r ysgol am fod gwaharddiad cyfnod penodol wedi dod i ben, neu am fod y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yn ei gwneud yn glir nad yw'n awyddus i'r ysgol ei dderbyn yn ôl, rhaid i'r pwyllgor disgyblu ystyried a oedd penderfyniad y pennaeth i wahardd y dysgwr yn gyfiawn ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Dylai canlyniad yr adolygiad gael ei roi ar gofnod addysg y dysgwr fel y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol.

## 3.4 Ar ôl y cyfarfod

3.4.1 Rhaid i'r pwyllgor disgyblu yn ddi-oed ddweud wrth y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr, y pennaeth a'r awdurdod lleol am ei benderfyniad. Dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig cyn pen un diwrnod ysgol o'r gwrandawiad, gan nodi rhesymau'r pwyllgor disgyblu. Ni all y pwyllgor roi amodau ar unrhyw gyfarwyddyd a wneir ganddo i'r pennaeth i dderbyn y dysgwr yn ôl. Serch hynny, nid yw hyn yn rhwystro ysgol rhag dilyn arfer da wrth ailintegreiddio'r dysgwr.

3.4.2 Pan fydd y pwyllgor disgyblu yn penderfynu peidio â chyfarwyddo'r pennaeth i dderbyn dysgwr a waharddwyd yn barhaol yn ôl, rhaid i'w lythyr at y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr gynnwys:

- y rheswm am y penderfyniad
- eu hawl i apelio i banel apêl annibynnol, ynghyd ag enw a chyfeiriad y person y dylid anfon hysbysiad o'r apêl ato (Clerc y panel apêl annibynnol fel rheol)
- y dyddiad olaf ar gyfer cofnodi hysbysiad o apêl (15 diwrnod ysgol ar ôl dyddiad yr hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y pwyllgor disgyblu; os bydd yr hysbysiad yn cael ei anfon gyda'r post dosbarth cyntaf ystyrir ei fod wedi cael ei roi ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei bostio)
- bod yn rhaid i unrhyw hysbysiad o apêl nodi ar ba sail y gwneir yr apêl
- y dylai unrhyw honiad o wahaniaethu gael ei amlinellu yn yr hysbysiad apelio

3.4.3 Gellir defnyddio Llythyr enghreifftiol 5 (yn Atodiad A) i hysbysu rhieni/gofalwyr a/neu ddysgwyr am benderfyniad i gynnal gwaharddiad parhaol.

3.4.4 Dylid rhoi nodyn o sylwadau'r pwyllgor disgyblu ar y gwaharddiad ar gofnod ysgol y dysgwr, ynghyd â chopi o lythyr y pennaeth ynghylch y gwaharddiad a phapurau perthnasol eraill. Serch hynny, os bydd y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl, nid oes rheidrwydd ar yr ysgol i gydymffurfio ag unrhyw gais gan y rhieni neu'r gofalwyr i ddileu'r manylion am y gwaharddiad o gofnod y dysgwr. Mewn gwirionedd, os yw'r gwaharddiad yn fater o ffaith, hynny yw os yw wedi'i gyflawni neu wedi'i gyflawni'n rhannol, ni fyddai'n gyfreithlon i ddileu'r manylion o gofnod addysg y dysgwr.

## 3.5 Unedau cyfeirio disgyblion

3.5.1 Rhaid i bwyllgor rheoli'r uned cyfeirio disgyblion sefydlu pwyllgor disgyblu disgyblion er mwyn adolygu gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol o unedau cyfeirio disgyblion ac ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan rieni/gofalwyr a/neu ddysgwyr. Yn achos:

- un neu ragor o waharddiadau tymor penodol (gan gynnwys rhai amser cinio) sy'n dod i gyfanswm o fwy na 15 diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor, neu
- pan fo dysgwr yn mynd i fethu arholiad cyhoeddus, neu
- gwaharddiadau parhaol

Mae gan bwyllgor disgyblu uned cyfeirio disgyblion yr un dyletswyddau a phwerau ag sydd gan bwyllgor disgyblu corff llywodraethu (fel y manylir yn yr adran ar bwyllgorau disgyblu) a rhaid iddo hefyd gydymffurfio â'r un amserlenni. Mae llythyr enghreifftiol yn Atodiad A (Llythyr enghreifftiol 3).

Yn achos un neu ragor o waharddiadau cyfnod penodol sy'n gyfanswm o 15 diwrnod ysgol neu lai mewn unrhyw dymor, rhaid i'r pwyllgor disgyblu ystyried sylwadau gan y rhiant neu ofalwr a'r dysgwr ond nid ydyn nhw'n gallu cyfarwyddo ei fod yn cael ei dderbyn yn ôl (gweler Llythyr enghreifftiol 1 yn Atodiad A) ond gall roi cofnod o'i sylwadau ar gofnod addysg y dysgwr.

Gall Cadeirydd y pwyllgor disgyblu gytuno i alw cyfarfod os bydd y rhiant neu ofalwr yn gofyn am gyfarfod i drafod y gwaharddiad. Er nad oes unrhyw derfynau amser statudol yn berthnasol i ystyried gwaharddiadau o'r fath, dylai'r Cadeirydd ystyried ymateb yn brydlon i unrhyw gais gan y rhiant neu ofalwr.

# 4. Paneli apêl annibynnol

## 4.1 Hysbysu rhieni neu ofalwyr a dysgwyr

4.1.1 Pan fydd gwaharddiad parhaol yn cael ei gymeradwyo gan y pwyllgor disgyblu, mae'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn llythyr penderfyniad y pwyllgor (gweler Llythyr enghreifftiol 5 yn Atodiad A) at y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr wedi'i nodi uchod yn yr adran ar y mesurau ar ôl y cyfarfod.

4.1.2 Hefyd, dylai'r awdurdod lleol ysgrifennu at y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr cyn gynted â phosibl ar ôl gwrandawiad y pwyllgor disgyblu, ond cyn pen 3 diwrnod gwaith fan hwyraf, yn pennu'r dyddiad olaf ar gyfer nodi'r bwriad i apelio. Bydd hyn 15 diwrnod ysgol o'r diwrnod y rhoddir hysbysiad yn ysgrifenedig i'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr o benderfyniad y pwyllgor disgyblu. Hefyd, rhaid i'r llythyr gynnwys enw a manylion cyswllt y person y dylid anfon unrhyw hysbysiad apêl ato (Clerc y panel apêl fel arfer) ac egluro bod yn rhaid i'r hysbysiad o'r apêl fod yn ysgrifenedig ac yn nodi ar ba sail y caiff yr apêl ei wneud.

4.1.3 Cymerir mai'r dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yw'r ail ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad postio llythyr penderfyniad y pwyllgor disgyblu gyda'r post dosbarth cyntaf, neu, os yw'r hysbysiad wedi'i ddosbarthu â llaw, y dyddiad dosbarthu (oni bai y gellir dangos dyddiad derbyn gwahanol).

4.1.4 Bydd unrhyw apêl a wneir ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer hysbysu o'r bwriad i apelio yn rhy hwyr a dylai'r awdurdod lleol ei wrthod.

4.1.5 Bydd hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan rieni neu ofalwyr dysgwyr dan 11 oed neu gan ddysgwyr dros yr oedran ysgol gorfodol i'r awdurdod lleol sy'n datgan nad yw'r plentyn yn bwriadu apelio yn cael ei ystyried yn derfynol. Ar gyfer dysgwyr o oed ysgol gorfodol sy'n 11 oed a throsodd, bydd hysbysiad o'r fath gan y rhieni neu'r gofalwyr yn cael ei ystyried yn derfynol, p'un a yw'r dysgwr wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r fath ai peidio. Bydd hysbysiad a dderbyniwyd yn unig gan ddysgwyr oed 11 a throsodd, ond o oed ysgol gorfodol, hefyd yn cael ei ystyried yn derfynol.

4.1.6 Mae gan rieni, gofalwyr neu'r dysgwr hawl i gael gwrandawiad panel apêl annibynnol, hyd yn oed os nad aethon nhw i gyfarfod y pwyllgor disgyblu na chyflwyno achos i'r pwyllgor hwnnw.

## 4.2 Amseriad y gwrandawiad

4.2.1 Rhaid i banel apêl gwrdd i drafod apêl erbyn y bymthegfed diwrnod ysgol ar ôl y dyddiad y derbyniwyd hysbysiad o'r bwriad i apelio. Serch hynny, os oes angen, gall y panel benderfynu gohirio'r gwrandawiad os yw o'r farn, ar ôl ystyried amgylchiadau'r achos, na fyddai'n briodol iddo fynd rhagddi i benderfynu ar yr apêl. Gall hyn gynnwys amgylchiadau lle y disgwylir rhagor o wybodaeth. Gall y panel ohirio ar fwy nag un achlysur os oes angen.

4.2.2 Mewn amgylchiadau eithriadol, mae gan yr awdurdod lleol hawl i estyn dyddiad y gwrandawiad apêl i ddyddiad yn ddiweddarach na'r unfed diwrnod ysgol ar bymtheg, er enghraifft pan fydd rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr angen mwy o amser i baratoi ar gyfer yr apêl. Serch hynny, penderfyniad yr awdurdod lleol, fel y gwêl yn dda, yw cytuno i estyniad, a dylid ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau. Os trefnir gwrandawiad diweddarach, ystyrir bod y panel wedi gohirio'r gwrandawiad.

## 4.3 Apelau cyfun

4.3.1 Os bydd y materion a godwyd gan 2 neu fwy o apelau yr un peth neu'n gysylltiedig, gall y panel benderfynu cyfuno'r gwrandawiadau os yw o'r farn y byddai hynny'n hwylus. Mewn achosion o'r fath, dylai'r panel gadarnhau nad oes unrhyw un yn gwrthwynebu'r dull hwn o weithredu. Rhaid i'r panel fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl rhwng y partïon dan sylw.

4.3.2 Mae gan y panel ddisgresiwn i gyfuno'r apelau neu wrthod unrhyw gais i gyfuno, ond rhaid iddo bwyso a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y partïon. Yn arbennig, os bydd dysgwyr wedi'u gwahardd yn barhaol o ganlyniad i'w rhan yn yr un digwyddiad, ac nad yw eu cyfraniad a'u lliniariad yn sylweddol wahanol, gall y panel benderfynu y byddai'n briodol cyfuno'r holl apelau sy'n codi o'r digwyddiad. Dylai'r panel ymgynghori â'r partïon (gan gynnwys y pwyllgor disgyblu a'r rhieni, gofalwyr neu'r dysgwr) cyn penderfynu cyfuno apelau. Os bydd y panel yn penderfynu peidio â chyfuno apelau, neu os yw'n anymarferol gwneud hynny, er mwyn osgoi annhegwch ac anghysondeb, argymhellir y dylai'r un aelodau glywed yr apelau. Rhaid i banel sydd wedi penderfynu cyfuno neu beidio â chyfuno apelau sy'n deillio o'r un digwyddiad fod yn barod i gyfiawnhau'r ffordd y daeth i'r penderfyniad hwnnw, a dylai gofnodi ei resymau am wneud hynny. Mae penderfyniad o'r fath yn amodol ar adolygiad barnwrol.

4.3.3 Os penderfynir clywed apelau ar wahân ac nad yw'r un aelodau o'r panel ar gael, dylai'r panel gymryd camau ymarferol i sicrhau y gall gwahanol baneli sy'n ystyried yr achosion sy'n deillio o'r digwyddiad ystyried unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau yn yr achosion. Dylai penderfyniadau ynglŷn â chyfuno apelau gael eu gwneud gan y panel, yn hytrach na Chlerc y panel neu'r awdurdod lleol a sefydlodd y panel. Nid yw'n ofynnol i banel ddweud wrth bartïon sydd â chynrychiolaeth gyfreithiol, nad ydyn nhw'n gofyn am gael cyfuno apelau, y gall apelau gael eu cyfuno.

## 4.4 Cyfansoddiad y paneli apêl annibynnol

4.4.1 Yr awdurdod lleol sydd i sefydlu'r panel apêl annibynnol a dylai benodi Clerc. Bydd pob panel yn cynnwys 3 neu 5 aelod fel a ganlyn:

- person lleyg (y cadeirydd)
- ymarferwyr addysg (un ar gyfer paneli 3 aelod, dau ar gyfer paneli 5 aelod), a
- llywodraethwyr ysgol (un ar gyfer panel 3 aelod, dau ar gyfer paneli 5 aelod)

Y person lleyg fydd y Cadeirydd. 'Person lleyg' yw rhywun heb brofiad personol o reoli ysgol na darparu addysg, ac eithrio'n wirfoddol neu fel llywodraethwr ysgol.

Pennaeth neu berson arall sy'n rheolwr ar hyn o bryd ym maes addysg neu reoli addysg fydd yr ymarferydd addysg.

Y llywodraethwr ysgol fydd llywodraethwr sydd wedi gwasanaethu am 12 mis yn olynol o fewn y 6 blynedd diwethaf ac ni fydd wedi bod yn bennaeth nac yn athro/athrawes yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

4.4.2 Lle bynnag y bo modd, dylai aelodau'r panel sy'n ystyried:

- gwaharddiad o ysgol gynradd fod â phrofiad o'r cyfnod hwnnw o addysg

- gwaharddiad o ysgol uwchradd fod â phrofiad o addysg uwchradd, a
- gwaharddiad o ysgol arbennig fod â phrofiad o'r maes hwnnw o addysg

Dylai'r aelod lleyg fod â'r sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol i gadeirio'r panel yn effeithiol.

4.4.3 Lle bynnag y bo modd, er mwyn cael safbwynt ehangach, dylai o leiaf un o aelodau'r panel fod yn gweithio y tu allan i'r ardal a gwmpesir gan yr awdurdod lleol sy'n rheoli'r ysgol lle cafodd y dysgwr ei wahardd.

4.4.4 Ni all y bobl ganlynol wasanaethu ar banel apêl:

- unrhyw aelod o'r awdurdod lleol neu o gorff llywodraethu yr ysgol dan sylw neu bwyllgor rheoli yr uned cyfeirio disgyblion dan sylw
- y pennaeth neu unrhyw athro/athrawes yn yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion dan sylw neu unrhyw berson sydd wedi bod yn y swydd honno o fewn y 5 mlynedd diwethaf
- unrhyw berson a gyflogir gan yr awdurdod lleol, ac eithrio fel pennaeth neu athro/athrawes
- unrhyw berson sydd â chysylltiad neu sydd wedi cael cysylltiad ar unrhyw bryd â'r awdurdod lleol neu'r ysgol neu uned cyfeirio disgyblion, neu gydag unrhyw berson sy'n dod o dan y 2 bwynt bwled blaenorol y gallai pryderon gael eu codi ynghylch ei allu i weithredu'n ddiduedd
- unrhyw berson sydd â chysylltiad neu sydd wedi cael cysylltiad, unrhyw bryd, â'r dysgwr dan sylw neu'r achos sy'n arwain at wahardd y dysgwr y gallai pryderon gael eu codi ynghylch ei allu i weithredu'n ddiduedd

4.4.5 Dylai unrhyw ddarpar aelodau o'r panel ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath cyn gynted â phosibl.

4.4.6 Gall amheuon am fethu â gweithredu'n ddiduedd godi trwy fod aelod o'r panel wedi gweithio'n agos gyda phennaeth neu gorff llywodraethu yr ysgol sy'n gwahardd, neu trwy ei fod yn athro/athrawes neu'n llywodraethwr ar ysgol (neu uned cyfeirio disgyblion) y gallai'r dysgwr gael ei derbyn iddi os caiff y gwaharddiad ei gadarnhau. Os bydd awdurdodau lleol yn cael anhawster dod o hyd i ymarferwyr addysg a llywodraethwyr yn eu hardal awdurdod eu hunain sy'n teimlo y gallan nhw weithredu'n ddiduedd, efallai y bydd angen iddyn nhw recriwtio mwy nag un aelod o'r panel o awdurdodau lleol cyfagos.

4.4.7 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl aelodau a'r Clercod yn cael hyfforddiant priodol a bod y Cadeirydd wedi'i hyfforddi yn y sgiliau cadeirio penodol sydd eu hangen ar y panel. Bydd yr awdurdodau lleol yn awyddus i ganfod a hyfforddi digon o gadeiryddion, aelodau a Chlercod i sicrhau y gallan nhw drefnu gwrandawiadau o fewn y cyfnod penodol o amser a dylen nhw bennu gweithdrefnau clir ar gyfer dewis aelodau posibl o'r paneli. Wrth benodi Cadeirydd, dylai awdurdodau lleol chwilio am unigolion sydd wedi cael profiad blaenorol o weithio ar baneli apêl ac sydd, os oes modd, â chefndir yn y gyfraith.

4.4.8 Rhaid i'r awdurdodau lleol indemnio aelodau'r panel apêl rhag unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hysbysebu am aelodau lleyg i wasanaethu ar baneli apêl. Bydd costau sy'n cael eu gwario yn rhesymol ac yn briodol gan aelodau o banel apêl wrth fynychu cyfarfod yn cael eu talu yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972. Yr awdurdod lleol fydd yn pennu cyfradd y taliadau.

## 4.5 Rôl y Clerc

4.5.1 Mae'r Clerc yn ffynhonnell annibynnol o gyngor ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer pob carfan. Ni ddylai'r Clerc fod wedi gwasanaethu fel Clerc yng ngwrandawiad y pwyllgor disgyblu.

4.5.2 Ar ôl cael hyfforddiant, dylai clercod gael cyfle i feithrin profiad mewn cynnal apelau. Os nad yw'r Clerc wedi cael hyfforddiant yn y gyfraith ac os nad oes yr un aelod o'r panel â chymwysterau yn y gyfraith, dylai'r awdurdod lleol ystyried a allai fod o fudd i'r panel gael ffynhonnell annibynnol o gyngor cyfreithiol i'w helpu, yn enwedig os oes gan yr apelydd neu'r ysgol gynrychiolaeth gyfreithiol.

## 4.6 Cyn y gwrandawiad

4.6.1 Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ganfod pryd fydd y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr ac eraill sydd â hawl i fynychu'r cyfarfod yn rhydd er mwyn sicrhau bod pob carfan yn gallu bod yn bresennol. Hefyd, rhaid iddyn nhw drefnu canolfan addas ar gyfer cynnal yr apêl, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth niwtraliaeth, a fynedfeydd addas a darparu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer unrhyw rai sydd ag anableddau. Rhaid gwrando ar apelau yn breifat. Ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, gynnal gwrandawiadau apêl yn yr ysgol sy'n gwahardd.

4.6.2 Mae gan y canlynol hawl i fynychu gwrandawiad a chyflwyno'u hachos, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig, a chael cynrychiolaeth:

- y rhiant neu'r gofalwr (os nad yw'r dysgwr yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) a'r dysgwr
- y pennaeth (os bydd y pennaeth a wnaeth y gwaharddiad wedi gadael yr ysgol, gall y panel apêl ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a ddylid ei wahodd i wneud sylwadau)
- llywodraethwr a enwebwyd
- swyddog a enwebwyd o'r awdurdod lleol

Gall yr holl garfanau uchod, yn ogystal â'r corff llywodraethu, gael eu cynrychioli gan gynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd arall. Gall y rhiant neu'r gofalwr a'r dysgwr hefyd fod yng nghwmni ffrind.

4.6.3 Mae gan ddysgwr a waharddwyd o unrhyw oed hawl i roi ei safbwynt ger bron panel apêl annibynnol, a gall wneud hynny'n bersonol, yn ysgrifenedig neu trwy gyfrwng priodol arall.

4.6.4 Dylai awdurdodau lleol roi gwybodaeth hygyrch i blant, eu rhieni neu eu gofalwyr a phobl ifanc am eu hawl i apelio i'r panel apêl annibynnol ynghyd â gwybodaeth am y broses apelio a lle gall plant, eu rhieni a phobl ifanc gael mynediad at gymorth pan fyddan nhw'n apelio gwaharddiad.

4.6.5 Ni all y panel orfodi tystion i fynychu'r gwrandawiad.

4.6.6 Os na fydd dysgwyr o oed ysgol yn dod â'u rhieni neu eu gofalwyr gyda nhw dylai'r awdurdod lleol ymdrechu i gael gwasanaethau eiriolydd i siarad ar ran y dysgwr. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle bernir nad yw'r dysgwr yn ddigon aeddfed neu'n ddigon abl i gynrychioli eu hunain yn effeithiol.

4.6.7 Dylai'r Clerc atgoffa'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr am eu hawl i ddod â ffrind gyda nhw neu i gael eu cynrychioli gan gynrychiolydd cyfreithiol neu eiriolydd. Os yw'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yn awyddus i ddod â mwy nag un ffrind neu gynrychiolydd, dylai'r Clerc ofyn am gytundeb y panel ymlaen llaw, gan ystyried cyfyngu, o fewn rheswm, ar y nifer sy'n mynychu'r gwrandawiad.

4.6.8 Hefyd, dylai'r Clerc gadarnhau a yw dioddefwr honedig (er enghraifft, yn achos gwaharddiad am fwlio) yn awyddus i gael llais yn y gwrandawiad naill ai yn bersonol, trwy gynrychiolydd neu trwy gyflwyno datganiad ysgrifenedig. Rôl tyst fyddai hynny ac ni fyddai'n gallu cwestiynu unrhyw un o'r partïon.

4.6.9 Rhaid i'r Clerc roi i bob un fanylion y sawl sy'n mynychu'r cyfarfod a'u swyddogaeth, a'u hysbysu am drefn y gwrandawiad. Dylai pob carfan sicrhau bod y lleill yn cael gwybodaeth, trwy Glerc y panel, am y rhai fydd yn bresennol a pha dystion (os bydd rhai) gaiff eu galw.

4.6.10 Dylai'r Clerc ddosbarthu'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i bob carfan pum niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Rhaid i hyn gynnwys y datganiad am benderfyniad y pwyllgor disgyblu a'r hysbysiad o apêl gan y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr sy'n nodi'r rhesymau am yr apêl ac unrhyw honiad o wahaniaethu. Gall y pennaeth, y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol wneud sylwadau ysgrifenedig hefyd. Os bydd unrhyw rai o'r partïon yn bwriadu codi materion neu ddangos dogfennau yn y gwrandawiad nad ydynt wedi'u cwmpasu yn y datganiad o benderfyniad neu'r hysbysiad o apêl, dylid gofyn iddyn nhw gyflwyno'r rhain i'r Clerc mewn da bryd cyn y gwrandawiad.

## 4.7 Cynnal y gwrandawiad apêl

4.7.1 Y panel apêl sydd i benderfynu sut i gynnal y trafodaethau, ond dylen nhw geisio fod yn ddigon anffurfiol er mwyn i bob parti allu cyflwyno'u hachos yn effeithiol. Dylid osgoi recordio'r gwrandawiad ar dâp oni bai fod rheswm da dros wneud hynny a bod y partïon yn cytuno â hynny.

4.7.2 Wrth agor y gwrandawiad apêl mae'n ddefnyddiol bod y Cadeirydd yn amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn ac yn esbonio wrth bob parti fod y panel yn gwbl annibynnol ar yr ysgol a'r awdurdod lleol. Wrth gynnal y gwrandawiad a dod i benderfyniad rhaid i'r panel dalu sylw i ddeddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

4.7.3 Ar ôl y cyflwyniadau, dylai'r Clerc esbonio y drefn y caiff achosion y partïon eu clywed (fel y'u hysbyswyd yn gynharach) a bod cyfle i'r partïon eraill holi cwestiynau ar ôl pob cyflwyniad. Dylai'r Cadeirydd arwain y panel i geisio canfod y ffeithiau perthnasol. Efallai y bydd aelodau'r panel yn dymuno holi cwestiynau er mwyn gwneud mater yn fwy eglur neu i ddod o hyd i fwy o wybodaeth. Fel arfer dylid cael cwestiynau oddi wrth y panel ar ddiwedd datganiad pob parti ac yn dilyn cwestiynau oddi wrth y partïon eraill. Efallai y bydd yn rhaid gofyn i'r Clerc gynnig cyngor cyfreithiol neu weithdrefnol i'r panel apêl yn ystod y gwrandawiad wrth iddo fynd ati i ystyried ei benderfyniad.

4.7.4 Rhaid caniatáu digon o amser i bob parti gyflwyno'u hachos. Rhaid i'r panel sicrhau bod y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yn cael cyfle i gynnig sylwadau ar yr wybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw un o'r partïon sy'n mynychu'r gwrandawiad yn dod ger bron y panel apêl pan nad oes un o'r partïon eraill yn bresennol.

4.7.5 Pe bai’n ymddangos bod rhieni/gofalwyr a/neu dysgwyr yn cael trafferth i gyflwyno’u hachos, yna dylai’r Cadeirydd ymyrryd a chynnig cymorth er mwyn sicrhau bod eu hachos yn cael ei sefydlu a bod y materion ffeithiol nad ydyn nhw’n rhan o’r ddadl yn ddigon clir. Dylai’r Cadeirydd helpu rhieni, gofalwyr neu ddysgwyr os nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu sydd â phroblemau llythrennedd ac o ganlyniad heb ddeall yr holl waith papur.

4.7.6 Os bydd angen, dylai’r ysgol a/neu’r awdurdod lleol drefnu gwasanaethau cyfieithydd os na fydd rhieni neu ofalwyr dysgwr wedi’i wahardd yn siarad nac yn deall Cymraeg neu Saesneg yn dda. Dylai gohebiaeth a dogfennaeth sy'n ymwneud â'r gwaharddiad, pan fo'n bosibl, gael eu cyfieithu i'w hiaith gyntaf. Mewn achosion o’r fath, dylai’r ysgol neu’r awdurdod lleol drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd gyda’r rhieni neu’r gofalwyr ynglŷn â’r gwaharddiad.

4.7.7 Ni all apêl barhau os bydd nifer o aelodau’r panel yn disgyn o dan 3 ar unrhyw adeg. Os felly, efallai y bydd angen i’r panel ohirio hyd nes y bydd ganddo gworwm unwaith eto. Unwaith y bydd apêl wedi cychwyn nid oes hawl disodli unrhyw un o aelodau’r panel gan aelod newydd am unrhyw reswm. O ganlyniad, os na fydd aelod yn gallu cario ymlaen â’r apêl o ganlyniad i salwch, marwolaeth neu reswm arall na ellir ei osgoi, fel arfer bydd yn rhaid sefydlu panel newydd. Serch hynny, yn achos panel 5 aelod, gall y panel barhau hyd yn oed os bydd un (neu ddau) o’i aelodau yn sâl neu wedi marw, ar yr amod bod y tri chategori o aelodau yn dal i gael eu cynrychioli. Os bydd y panel yn cael ei gwtogi i 4 aelod ar y panel a’u bod yn methu dod i benderfyniad, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

## 4.8 Tystiolaeth a thystion

4.8.1 Pan fydd achos yr ysgol yn dibynnu’n llwyr neu’n helaeth ar dystiolaeth ffisegol a phan fo’r ffeithiau yn destun dadl, dylid cadw’r dystiolaeth ffisegol a sicrhau ei bod ar gael i’r panel, os yw hynny’n ymarferol. Os yw cadw tystiolaeth ffisegol yn anodd, yna bydd lluniau neu ddatganiadau wedi’u llofnodi gan dystion yn dderbyniol.

4.8.2 Gall pob parti gyflwyno tystiolaeth newydd berthnasol ynghylch y digwyddiad a arweiniodd at y gwaharddiad, gan gynnwys tystiolaeth na chyflwynwyd i’r pennaeth neu’r pwyllgor disgyblu. Dylai pob parti gael cyfle i ymateb i unrhyw dystiolaeth newydd o’r fath a gyflwynir. Fodd bynnag, ni all yr ysgol gyflwyno rhesymau newydd dros wahardd y dysgwr.

4.8.3 Er mwyn dod i benderfyniad, bydd yn rhaid i’r panel glywed oddi wrth y rhai sydd â chysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol. Efallai y bydd y corff llywodraethu yn dymuno galw tystion a welodd y digwyddiad a arweiniodd at y gwaharddiad. Gallan nhw gynnwys unrhyw ddioddefwyr honedig neu unrhyw athro/athrawes, ar wahân i’r pennaeth, a fu’n ymchwilio i’r digwyddiad ac yn cyfweld y dysgwyr.

4.8.4 Mae angen i’r panel ystyried safbwynt y dysgwr a waharddwyd, a gall gyflwyno’r safbwynt hwnnw yn bersonol, yn ysgrifenedig neu trwy gyfrwng ymarferol arall.

4.8.5 Pan fydd oedolion sy’n dystion yn anfodlon neu’n methu â bod yn bresennol bydd yn rhaid i’r panel ddibynnu ar eu datganiadau ysgrifenedig. Bydd y Clerc wedi dosbarthu copïau ohonyn nhw i bob parti cyn y gwrandawiad. Os bydd unrhyw dystion yn bresennol, mae’n rhaid i bob parti dderbyn manylion cyn diwrnod y gwrandawiad.

4.8.6 Fel arfer, yn achos tystion sy'n ddysgwyr yn yr ysgol, bydd yn fwy priodol i'r panel ddibynnu ar ddatganiadau ysgrifenedig. Gall dysgwyr fod yn bresennol fel tystion os byddan nhw'n gwneud hynny'n wirfoddol a gyda chaniatâd eu rhieni neu eu gofalwyr. Rhaid i baneli fod yn sensitif i anghenion dysgwyr sy'n dystion er mwyn sicrhau bod safbwynt y dysgwr yn cael ei gyfleu yn gywir.

4.8.7 Rhaid sicrhau bod pob datganiad ysgrifenedig gan y tystion wedi eu priodoli a'u llofnodi, oni bai fod gan yr ysgol reswm digonol dros beidio â datgelu enw'r tyst; os felly, dylai'r datganiadau gael eu dyddio o leiaf. Mae'r egwyddor gyffredinol yn sefyll sef bod hawl gan y person a gyhuddir i wybod beth yw cynnwys a ffynhonnell y cyhuddiad. Rhaid i'r panel ystyried faint o bwys i'w roi ar y datganiadau ysgrifenedig, p'un a ydyn nhw'n ddatganiadau gan oedolion neu ddysgwyr, yn erbyn tystiolaeth lafar. Dylen nhw gofio hefyd efallai na fydd y datganiad ysgrifenedig yn cwmpasu'r holl wybodaeth berthnasol ac nad oes modd holi'r awdur.

4.8.8 Y panel, yn ôl ei ddisgresiwn, sydd i alw unigolion i dystio i gymeriad y dysgwr. Dylid caniatáu'r cyfryw dystion oni bai fod resymau digonol dros eu gwrthod. Y panel fydd yn penderfynu a ddylai unrhyw dystion, ar ôl iddyn nhw gyflwyno'u tystiolaeth, aros i glywed gweddill yr achos yn cael ei gyflwyno. Mewn rhai achosion fe allai hyn helpu i sicrhau fod y gwrandawiad yn anffurfiol ond fe ellir cael gwrthwynebiadau, a bydd yn rhaid i'r panel eu hystyried. Mewn unrhyw achos, dylid ei gwneud yn glir na fydd ganddyn nhw hawl i roi rhagor o dystiolaeth ar ôl iddyn nhw roi tystiolaeth.

## 4.9 Dod i benderfyniad

4.9.1 Wrth ystyried apêl, dylai'r panel benderfynu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, a wnaeth y dysgwr yr hyn a honnwyd. Mewn geiriau eraill, mae'n fwy tebygol na pheidio bod y dysgwr wedi gwneud yr hyn a honnwyd iddo/iddi ei wneud. Po fwyaf difrifol yw'r honiad ac felly'r gosb bosibl, po fwyaf argyhoeddiadol y bydd angen i'r dystiolaeth sy'n profi'r honiad fod. Nid yw hyn yr un fath â'i gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio'r safon droseddol 'y tu hwnt i amheuaeth resymol', ond mae'n golygu y dylai penaethiaid, wrth ymchwilio i honiadau mwy difrifol, gasglu ac ystyried ystod ehangach o dystiolaeth (yn ymestyn mewn rhai achosion i dystiolaeth o ymddygiad y dysgwyr yn y gorffennol os yw'n berthnasol i'r honiad) i bennu a oedd hi'n fwy tebygol na pheidio bod y dysgwr wedi cyflawni'r drosedd. Os honnir bod y dysgwr wedi camymddwyn ar fwy nag un achlysur, yna dylai'r panel benderfynu arnyn nhw fesul un.

4.9.2 Dylai'r panel ystyried y sail i benderfyniad y pennaeth a'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan roi ystyriaeth i:

- a wnaeth y pennaeth a'r pwyllgor disgyblu gydymffurfio â'r gyfraith a rhoi ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd wrth benderfynu, yn eu tro, i wahardd y dysgwr a pheidio â rhoi cyfarwyddyd bod rhaid iddo ddychwelyd i'r ysgol (er bod y gyfraith yn nodi na ddylai'r panel benderfynu bod dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol yn unig ar sail diffygion technegol yn y weithdrefn cyn yr apêl, byddai materion gweithdrefnol yn berthnasol pe bai yna dystiolaeth yn dangos bod cymaint o ddiffygion yn y broses fel nad oedd ffactorau pwysig wedi cael eu hystyried). Rhai meysydd pwysig sydd i'w hystyried yw a gafwyd rhaglen cymorth bugeiliol addas neu a ddarparwyd yr addysg a bennwyd mewn CDU
- polisïau ymddygiad, cyfleoedd cyfartal, atal bwlio, cydraddoldeb hil, neu unrhyw bolisi perthnasol arall a gyhoeddwyd gan yr ysgol

- tegwch y gwaharddiad hwn o'i gymharu â'r driniaeth a roddwyd i unrhyw ddysgwyr eraill a fu'n gysylltiedig â'r un digwyddiad

4.9.3 Ar ôl eu bodloni eu hunain ynglŷn â'r materion hyn, dylai'r panel ystyried gwrthdroi'r gwaharddiad. Os ydyn nhw'n gwneud hynny dylen nhw yna fynd ati i benderfynu a yw'r achos yn un eithriadol lle nad yw derbyn y dysgwr yn ôl i'r ysgol yn ymarferol.

4.9.4 Wrth benderfynu a ddylai gymeradwyo'r penderfyniad i wahardd neu beidio, ac a ddylai roi cyfarwyddyd i dderbyn y dysgwr yn ôl i'r ysgol, rhaid i'r panel bwyso a mesur buddiannau'r dysgwr a waharddwyd yn erbyn buddiannau holl aelodau eraill y gymuned ysgol.

4.9.5 Pan fydd rhiant neu ofalwr yn apelio yn erbyn gwaharddiad parhaol ac yn honni gwahaniaethu ar sail hil, rhaid i'r panel apêl ystyried a fu gwahaniaethu mewn perthynas â Deddf 2010.

4.9.6 Pan fydd rhiant neu ofalwr yn apelio yn erbyn gwaharddiad parhaol ac yn honni gwahaniaethu ar sail anabledd, rhaid i'r panel apêl ystyried a yw'r dysgwr yn anabl ac a fu gwahaniaethu yn unol â'r Deddf 2010. Yr awdurdod lleol neu'r ysgol, yn hytrach na'r rhieni neu'r gofalwyr, ddylai dalu am unrhyw gostau ychwanegol a dynnwyd wrth brofi anabledd. Argymhellir yn gryf y dylai paneli apelau ystyried y cyngor a'r canllawiau a ddarperir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar rwymedigaethau'r ysgol tuag at ddysgwyr o dan Ddeddf 2010, gan gynnwys mewn perthynas â gwaharddiadau. Argymhellir yn gryf y dylai ysgolion a'r rhai sy'n rhan o benderfyniadau gwahardd neu apelau ddarllen y cod ymarfer, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## 4.10 Y penderfyniad

4.10.1 Dylai'r panel apêl seilio ei benderfyniad ar gytundeb y mwyafrif gyda'r Cadeirydd yn meddu ar ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Gall panel apêl:

- gymeradwyo'r penderfyniad i wahardd
- gwrthdroi penderfyniad i wahardd a chyfarwyddo bod y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl
- penderfynu oherwydd amgylchiadau eithriadol neu resymau eraill, nad yw'n ymarferol i gyfarwyddo bod y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol, ond y byddai fel arall wedi bod yn briodol i roi cyfarwyddyd o'r fath

4.10.2 Os yw'r panel yn cyfarwyddo y dylai'r dysgwr gael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol, rhaid i'r dyddiad penodedig fod o fewn rheswm o dan yr amgylchiadau. Dylai'r dysgwr gael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol cyn pen 5 niwrnod o ddyddiad y penderfyniad, oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Ni all y panel osod unrhyw amodau ynghlwm wrth y broses o dderbyn y dysgwr yn ôl i'r ysgol.

4.10.3 Mewn rhai amgylchiadau ni fydd yn ymarferol i'r panel gyfarwyddo bod y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl oherwydd bod rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr wedi ei gwneud yn gwbl glir nad yw ef neu hi yn dymuno hynny, neu oherwydd bod y dysgwr yn rhy hen i ddychwelyd i'r ysgol.

4.10.4 Yn ogystal gall fod achosion eithriadol lle bydd y panel o'r farn na ddylai'r dysgwr fod wedi cael ei wahardd yn barhaol, ond na fyddai derbyn y dysgwr yn ôl i'r ysgol yn ymarferol er lles pawb sydd ynghlwm wrth yr achos. Gall hyn gynnwys sefyllfaoedd lle mae'r berthynas wedi methu'n llwyr rhwng y dysgwr a'r athrawon; rhwng y rhieni neu'r gofalwyr a'r

ysgol, neu rhwng y dysgwr ac unrhyw ddysgwyr eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaharddiad neu'r broses apelio.

4.10.5 Mewn sefyllfaoedd o'r fath a chyn penderfynu bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli, dylai'r panel geisio sefydlu pa ymdrechion sydd wedi'u gwneud i fynd i'r afael â methiant y berthynas. Mewn achosion o'r fath mae'n bosibl y gall cydbwyso buddiannau'r dysgwr a'r ysgol awgrymu nad derbyn y dysgwr yn ôl i'r ysgol fyddai'r canlyniad mwyaf call. Wrth ystyried a oes amgylchiadau eithriadol dylai'r panel ystyried sylwadau'r llywodraethwyr, y pennaeth, y rhieni neu'r gofalwyr a'r dysgwr.

4.10.6 Mewn unrhyw achos, pan fydd y panel yn penderfynu bod cyfiawnhad dros dderbyn y dysgwr yn ôl i'r ysgol, ond nad yw hynny'n ymarferol, dylen nhw nodi hynny yn eu llythyr penderfyniad a rhoi manylion am yr amgylchiadau y tu ôl i'w penderfyniad i beidio â chyfarwyddo bod y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol. Dylai llythyr o'r fath gael ei gadw ar gofnod ysgol y dysgwr ar gyfer y dyfodol.

## 4.11 Cofnod o drafodion panel apêl

4.11.1 Dylai Clerc y panel apêl gadw cofnod o'r trafodion, presenoldeb, y pleidleisio a'r penderfyniad ar ffurf a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol. Dylai'r Clerc anelu at gwblhau'r cofnodion o fewn 5 diwrnod gwaith yn dilyn y cyfarfod a'u bod yn cael eu cymeradwyo gan gymaint o aelodau'r pwyllgor â phosibl. Nid dogfennau cyhoeddus mo'r cofnodion hyn ond dylai'r awdurdod lleol eu cadw am o leiaf 5 mlynedd gan y gallai fod angen iddynt gael eu hystyried gan lys neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 4.12 Ar ôl y gwrandawiad

4.12.1 Mae'r panel yn annibynnol. Mae'r penderfyniad yn rhwymo'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr, y corff llywodraethu, y pennaeth a'r awdurdod lleol i gadw ato. Unwaith y bydd panel wedi dod i benderfyniad ni ellir ei ailystyried.

4.12.2 Rhaid i'r panel ddweud wrth bob parti beth yw ei benderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw cyn pen diwedd yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl i'r gwrandawiad ddod i ben. Gellir defnyddio Llythyr enghreifftiol 6 yn Atodiad A, i hysbysu'r rhiant neu'r gofalwr o benderfyniad y panel. Dylai'r llythyr penderfyniad nodi'n fanwl resymau'r panel dros y penderfyniad er mwyn i bob parti ddeall pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw.

4.12.3 Os yw'r panel yn cymeradwyo'r gwaharddiad parhaol, dylai'r Clerc ddweud yn syth wrth yr awdurdod lleol. Os yw'r dysgwr o oed ysgol gorfodol yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae cartref y dysgwr wneud trefniadau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn parhau i gael addysg lawn-amser addas. Os yw'r dysgwr yn byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol sy'n trefnu'r apêl, dylai'r Clerc sicrhau bod yr awdurdod lleol lle mae cartref y dysgwr yn cael gwybod yn syth am y sefyllfa. Dylai'r awdurdod lleol cartref eisoes fod yn ymwybodol o'r gwaharddiad gan fod rhaid i'r pennaeth roi gwybod i'r awdurdod lleol cartref am y gwaharddiad o fewn un diwrnod ysgol i'r gwaharddiad (gweler yr adran ar hysbysu'r pwyllgor disgyblu a'r awdurdod lleol).

4.12.4 Pan gaiff y penderfyniad i wahardd y dysgwr ei gymeradwyo, dylai'r Clerc gynghori'r rhiant neu'r gofalwr i gysylltu â'r person yn yr awdurdod lleol yn ardal cartref y dysgwr ynghylch y trefniadau i barhau i addysgu eu plentyn. Dylai'r pennaeth dynnu enw'r dysgwr oddi ar gofrestr yr ysgol y diwrnod ar ôl i'r apêl ddod i ben.

4.12.5 Pan fydd y panel yn cyfarwyddo bod y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol dylid dweud wrth y pennaeth yn syth a phennu dyddiad i dderbyn y dysgwr yn ôl i'r ysgol.

4.12.6 Nid oes hawl gyfreithiol gan unrhyw un i ddileu manylion gwaharddiad oddi ar gofnod addysgol y dysgwr hyd yn oed os bydd y dysgwr o dan sylw yn cael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol. Serch hynny, rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio ag unrhyw gais gan y rhiant neu'r gofalwr i ychwanegu'r datganiad apêl at gofnod y dysgwr. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu fydd penderfynu pa fanylion am waharddiad yr awdurdod lleol fydd yn cael eu cynnwys yng nghofnod ysgol y dysgwr. Efallai y bydd copïau o'r brif ohebiaeth yn cael eu cynnwys ac o bosibl cofnodion y pwyllgor disgyblu a gwrandawiadau y panel apêl, os bydd y pwyllgor disgyblu a'r panel apêl yn cytuno.

4.12.7 Pan fydd panel apêl yn cyfarwyddo yn rheolaidd bod dysgwyr a waharddwyd yn barhaol yn cael eu derbyn yn ôl i'r ysgol, dylai'r panel dynnu sylw'r awdurdod lleol at y ffaith honno. Dylai'r awdurdod lleol drafod y materion sylfaenol gyda'r pennaeth ynghylch y ffordd y defnyddir gwaharddiadau yn yr ysgol.

## 4.13 Dulliau o ddatrys y mater ar ôl y gwrandawiad apêl

**Cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
4.13.1 Gall rhiant/gofalwr a/neu ddysgwr gwyno i'r Ombwdsmon. Sail y cwyn fyddai camweinyddiaeth gan y panel apêl. Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i wneud argymhellion. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bwerau i gyfarwyddo bod y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol nac ychwaith i orchymyn apêl newydd, er y gellir argymell bod gwrandawiad apêl newydd yn cael ei gynnal. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu a ydyw am dderbyn argymhelliad yr Ombwdsmon er, fel arfer, disgwylir i'r awdurdod lleol gydymffurfio.

**Cwynion i Gweinidogion Cymru**
4.13.2 Gall Gweinidogion Cymru ystyried cwynion am y ffordd mae pwyllgor disgyblu wedi gweithredu'r weithdrefn wahardd ond nid oes ganddyn nhw bŵer i wrthdroi'r gwaharddiad nac i ystyried cwynion am benderfyniad panel apêl annibynnol.

**Adolygiad barnwrol**
4.13.3 Os yw'r rhiant, y gofalwr, y dysgwr, y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol yn credu bod penderfyniad y panel yn wrthnysig, gallan nhw wneud cais i'r Uchel Llys am adolygiad barnwrol. Rhaid gwneud hyn yn syth ac fel rheol cyn pen 3 mis o ddyddiad y penderfyniad. Os cytunir y dylid cynnal adolygiad barnwrol, byddai'r llys yn ystyried pa mor gyfreithlon oedd penderfyniad y panel. Pe bai'n canfod bod penderfyniad y panel yn anghyfreithlon neu'n afresymol (yn yr ystyr cyfreithiol cul o 'afresymol', hynny yw direswm neu wrthnysig) fe allai ddiddymu'r penderfyniad a chyfarwyddo'r awdurdod lleol i gynnal gwrandawiad apêl newydd gerbron panel newydd.

# 5. Tramgwydd troseddol honedig, yr heddlu ac achosion troseddol perthnasol

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Gall digwyddiad sy'n ymwneud â'r ysgol hefyd fod yn destun ymchwiliad gan yr heddlu, a allai arwain at achos cyfreithiol. Gall hyn olygu bod y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer penaethiaid, athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, y pwyllgorau disgyblu a'r paneli apêl annibynnol fod yn gyfyngedig iawn. Er enghraifft, efallai na fyddan nhw'n gallu clywed tystiolaeth gan dystion perthnasol neu yn gallu ystyried deunydd perthnasol. Hefyd, efallai na wyddys a fydd achos yn cael ei ddwyn ai peidio, ac os bydd cyhuddiad yn cael ei ddwyn gall canlyniad unrhyw achos llys fod yn ansicr.

5.1.2 Er bod yr heddlu a'r llysoedd yn defnyddio'r safon droseddol o brawf ('y tu hwnt i amheuaeth resymol') wrth benderfynu a ddylid gwahardd neu gynnal gwaharddiad, mae'n bwysig cofio bod rhaid i'r pennaeth, y pwyllgor disgyblu a'r panel apêl annibynnol ddefnyddio'r safon sifil o brawf ('yn ôl pwysau tebygolrwydd').

## 5.2 Penderfyniad y pennaeth i wahardd ac ystyried yr amgylchiadau yn y pwyllgor disgyblu

5.2.1 Ni ddylai pennaeth oedi cyn gwneud penderfyniad i wahardd dysgwr oherwydd y posibilrwydd y gellir dwyn achos cyfreithiol mewn perthynas â'r un digwyddiad. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid barnu ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r pethau perthnasol i'w hystyried yn cynnwys y ffaith:

- bod cyhuddiad difrifol wedi ei wneud yn erbyn y dysgwr gan ddysgwr arall neu aelod o staff yr ysgol sy'n destun ymchwiliad gan yr heddlu a allai olygu achos cyfreithiol yn y pen draw
- ar ôl i unrhyw achos cyfreithiol o'r fath ddod i ben, gall presenoldeb y dysgwr yn yr ysgol gael effaith andwyol ar yr achwynydd ynghyd ag unrhyw dystion posibl eraill, ac effeithio ar y broses o gadw trefn a disgyblaeth yn yr ysgol yn gyffredinol

5.2.2 Pan fydd y pennaeth yn gwahardd dysgwr o dan yr amgylchiadau a nodwyd yn y paragraff blaenorol, nid oes gan bwyllgor disgyblu'r ysgol unrhyw bŵer i ohirio'u cyfarfod i drafod gwaharddiad y dysgwr. Felly, wrth benderfynu a ddylen nhw gyfarwyddo'r pennaeth i dderbyn dysgwr yn ôl, gallan nhw hefyd wynebu yr un cyfyngiadau o ran y tystion a'r wybodaeth berthnasol sydd ar gael, a bydd yn rhaid iddyn nhw ystyried yr achos ar yr un sail.

## 5.3 Trefniadau ar gyfer gwrandawiadau apêl mewn achosion troseddol

5.3.1 Pan fydd pwyllgor disgyblu yn penderfynu peidio â chyfarwyddo pennaeth i dderbyn dysgwr a waharddwyd yn barhaol yn ôl i'r ysgol o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn y paragraff blaenorol, rhaid dweud wrth y rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yn syth am y penderfyniad ac am eu hawl i apelio yn unol ag adran 3 o'r canllawiau hyn. Rhaid i unrhyw apêl gael ei gwneud cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl y dyddiad y rhoddwyd hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y pwyllgor disgyblu i'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr (gweler yr adran ar hysbysu rhieni neu ofalwyr a dysgwyr) a rhaid i'r panel apêl gyfarfod i ystyried yr apêl cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod y gwnaed yr apêl.

5.3.2 Wrth gwrdd am y tro cyntaf, rhaid i'r panel apêl ystyried, ar ôl rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaethpwyd gan y partïon ac ar gyngor y Clerc, a allan nhw barhau i benderfynu ar yr apêl neu a ddylen nhw ohirio'r gwrandawiad tra maen nhw'n aros am ganlyniad unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu a/neu unrhyw achos troseddol y gellir ei ddwyn. Ni fydd y ffaith fod achosion troseddol perthnasol yn mynd rhagddyn nhw'n rheswm, ynddo'i hun, dros benderfynu a ddylid gohirio gwrandawiad. Mae rhai o'r ffactorau perthnasol y bydd yn rhaid i'r panel eu hystyried yn cynnwys:

- a fyddai'n ddefnyddiol gwybod pa gyhuddiad, os oes yna un o gwbl, sydd i'w ddwyn yn erbyn y dysgwr (gan gofio, os nad oes cyhuddiad, y gallai helpu achos y dysgwr neu, os oes cyhuddiad y gallai lesteirio'r dysgwr rhag cyflwyno ei achos)
- a oes tystion neu ddogfennau perthnasol ar gael
- y posibilrwydd o oedi pe bai'r gwrandawiad yn cael ei ohirio a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar yr achwynydd, y dysgwr a waharddwyd neu'r ysgol
- a fyddai gohirio, neu beidio â gohirio yn golygu anghyfiawnder

5.3.3 Pe bai'r panel yn penderfynu gohirio, dylai'r awdurdod lleol gymryd camau i sicrhau bod y dysgwr yn parhau i gael ei addysgu hyd nes y cynhelir y gwrandawiad. Y Clerc fydd yn gyfrifol am fonitro hynt unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu ac unrhyw achos troseddol ac am ail alw'r panel ar y cyfle cyntaf er mwyn i'r gwrandawiad allu mynd rhagddo i wneud penderfyniad terfynol.

5.3.4 Os oes angen, gall y panel ohirio fwy nag unwaith. Dylai'r un aelodau o'r panel ailymgynnull ar bob achlysur (yn amodol ar yr ystyriaethau y cyfeirir atyn nhw yn yr adran uchod ar gynnal y gwrandawiad apêl). Unwaith y bydd y panel yn ailymgynnull ar ôl unrhyw achos troseddol dylai roi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth am yr achos troseddol sy'n berthnasol i'r materion y mae'n rhaid iddyn nhw eu hystyried. Wrth wneud hyn dylai gofio hyd yn oed os yw'r dysgwr wedi ei gael yn ddieuog o unrhyw gyhuddiad sy'n berthnasol i'r digwyddiad a arweiniodd at y gwaharddiad ei bod yn bosibl mai'r rheswm dros ddyfarniad o'r fath oedd rhyw fanion cyfreithiol, er enghraifft, ac nid yw hyn yn golygu o angenrheidrwydd y dylid gwrthdroi'r eithriad yn awtomatig.

# 6. Gweithdrefnau ac ailintegreiddio ar ôl gwahardd

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae gan awdurdodau lleol rôl arweiniol bwysig wrth sefydlu strategaethau hyblyg a chreadigol sy'n bodloni anghenion unigol y dysgwyr sy'n cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol. Dylid ystyried ac annog ailintegreiddio'r dysgwr i'r brif ffrwd lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Yr unig adeg y dylid addysgu dysgwyr sydd wedi eu gwahardd y tu allan i ysgolion prif ffrwd yw pan fydd ganddyn nhw broblemau sylweddol y byddai'n well mynd i'r afael â nhw mewn amgylchedd gwahanol.

6.1.2 Dylai awdurdodau lleol ystyried enwebu staff arbenigol i helpu gyda'r gwaith o ailintegreiddio dysgwyr sydd wedi'u gwahardd a chynnig cymorth iddyn nhw. Gallai hyn gynnwys pennu swyddog yr awdurdod lleol i gadw golwg ar becynnau unigol neu ddefnyddio mentoriaid a staff cymorth dysgu arbenigol.

6.1.3 Dylai'r awdurdodau lleol ystyried a yw eu cynlluniau cymorth ymddygiad yn bodloni anghenion y dysgwyr sydd wedi eu gwahardd. Mae angen i nifer o'r awdurdodau lleol ehangu'u darpariaeth er mwyn sicrhau bod amserlen lawn ar gael ar gyfer y mwyafrif o'r dysgwyr sydd â hawl i'r ddarpariaeth honno. Dylen nhw hefyd edrych yn fanwl ar yr opsiynau, gan gynnwys rhoi'r ddarpariaeth allan ar gontract i'r sector gwirfoddol neu golegau addysg bellach lle mae bod yn effeithiol o ran cost, ansawdd a'r ddarpariaeth yn addas at anghenion y dysgwyr.

6.1.4 Dylai'r ysgolion a'r awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio'r rhaglenni cymorth bugeiliol fel y prif ddull o gynllunio ac adolygu'r broses o addysgu dysgwyr a allai wynebu gwaharddiad o'r ysgol neu sydd eisoes wedi cael eu gwahardd o'r ysgol.

## 6.2 Darpariaeth lawn-amser a phriodol

6.2.1 Yn aml mae darpariaeth ran-amser yn anaddas ar gyfer bodloni anghenion addysgol dysgwyr a waharddwyd ac o ran sicrhau bod yr addysg yn parhau. Y mae hefyd yn gadael rhai o'r dysgwyr heb unrhyw oruchwyliaeth am gyfnodau sylweddol o'r diwrnod ysgol arferol. O ganlyniad mae dysgwyr o'r fath yn aml yn cael eu denu at droseddu. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg lawn-amser 15 diwrnod ar ôl cael ei wahardd, naill ai mewn ysgol arall, neu, lle bo angen, drwy ddefnyddio'r uned cyfeirio disgyblion neu ddarpariaeth amgenach arall.

6.2.2 Er y cred Llywodraeth Cymru y dylai'r nod hwn barhau mae yn cydnabod efallai fod angen, mewn rhai achosion, cyflwyno dysgwyr yn raddol i addysg lawn-amser. Mae'n bosibl bod rhai dysgwyr wedi ymddieithrio cymaint oddi wrth addysg neu fod eu hamgylchiadau presennol yn y fath gyflwr fel na fyddai'u hailgyflwyno'n syth i addysg lawn-amser yn llwyddiannus iawn. Ar gyfer y dysgwyr hyn dylai'r cynlluniau ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol ddangos yn benodol sut y bydd yn cyflawni'r trosglwyddiad i addysg lawn-amser.

6.2.3 Fel arfer, dylai dysgwyr sydd wedi eu gwahardd am gyfnod o fwy na 15 diwrnod, o'r dyddiad y cymeradwywyd y gwaharddiad gan y pwyllgor disgyblu, dderbyn addysg lawn-amser a phriodol. Dylai hyn gynnwys dysgwyr sydd wedi eu gwahardd am gyfnod penodol a dysgwyr sydd wedi eu gwahardd yn barhaol. Dylai awdurdodai lleol ac ysgolion edrych yn ofalus ar sut i fodloni'r ymrwymiad hwn drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol a'r adnoddau ychwanegol a ddarparwyd.

6.2.4 Golyga 'llawn-amser' y dylai cyfanswm yr addysg o dan oruchwyliaeth adlewyrchu'r hyn a ddarperir mewn ysgolion prif ffrwd yn yr ardal. Ar gyfartaledd, rhyw 25 awr yw hyd wythnos ysgol arferol, felly dylai dysgwyr sydd wedi eu gwahardd dderbyn oddeutu 5 awr o addysg o dan oruchwyliaeth neu ryw weithgaredd arall bob dydd. Serch hynny, gall amserlen ar gyfer dysgwr sydd wedi ei wahardd edrych yn wahanol iawn i'r amserlen a geir mewn ysgol yn y brif ffrwd. Nid oes un model unigol o ddarpariaeth ar gael sy'n bodloni anghenion pob dysgwr.

## 6.3 Cyfarfodydd ailintegreiddio ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol

6.3.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010, a ddaeth i rym ar 5 Ionawr 2011, yn ei gwneud hi'n ofynnol i benaethiaid ysgolion, o dan amgylchiadau penodedig, ofyn i rieni neu ofalwyr dysgwyr sydd wedi'u gwahardd am gyfnod penodol ddod i gyfweliad ailintegreiddio yn yr ysgol.

6.3.2 Mae'r cais am gyfweliadau yn gymwys i bob gwaharddiad cyfnod penodol ar gyfer dysgwyr ysgol gynradd ond dim ond i waharddiadau cyfnod penodol o 6 diwrnod neu ragor ar gyfer dysgwyr ysgol uwchradd. Mae angen i'r cyfweliadau ailintegreiddio gael eu cynnal o fewn 15 diwrnod ysgol wedi diwrnod olaf cyfnod y gwaharddiad.

6.3.3 Nid yw cais am gyfweliad yn ofynnol os yw diwrnod cyntaf y gwaharddiad o fewn 10 diwrnod olaf tymor olaf y flwyddyn ysgol neu os yw'r pennaeth yn disgwyl i'r dysgwr adael yr ysgol am reswm nad yw'n gysylltiedig â'i ymddygiad cyn diwedd y cyfnod gofynnol o 15 diwrnod ar gyfer y cyfweliad.

6.3.4 Rhaid i'r pennaeth roi gwybod yn ysgrifenedig i'r rhiant neu'r gofalwr gan nodi'r dyddiad, amser a hyd y cyfweliad ailintegreiddio a diben y cyfweliad. Rhaid i'r hysbysiad hefyd rhoi gwybod i'r rhiant neu'r gofalwr, os yw'r awdurdod lleol yn gwneud cais am gorchymyn rhianta, mae'r llys o dan dyletswydd wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn rhianta mewn perthynas â rhiant neu ofalwr, er mwyn ystyried methiant gan y rhiant neu'r ofalwr heb esgus rhesymol i fynd i gyfweliad ailintegreiddio mewn ymateb i gais i wneud hynny. Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi cyn pen 6 diwrnod ysgol cyn dyddiad y cyfweliad ailintegreiddio.

6.3.5 Rhaid i'r pennaeth geisio trefnu'r cyfweliad ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r rhiant neu'r gofalwr. Dylai'r dyddiad a awgrymir gan y pennaeth fod yn ddiwrnod ysgol, ond gellir cynnal y cyfweliad ar ddiwrnod arall os bydd y pennaeth a'r rhiant neu'r gofalwr yn cytuno.

6.3.6 Mae'r cyfweliadau ailintegreiddio yn gyfle i:

- bwysleisio pwysigrwydd bod rhieni neu ofalwyr yn gweithio gyda'r ysgol i gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ymddygiad eu plentyn
- trafod sut y gellir mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad
- trafod materion ehangach ac unrhyw amgylchiadau a allai effeithio ar ymddygiad y dysgwr
- dod i gytundeb ynghylch sut y dylai addysg y dysgwr barhau, y ffordd orau o'i ailintegreiddio a pha fesurau y gellid eu creu i osgoi enghreifftiau pellach o gamymddwyn

6.3.7 Bydd yn rhaid i ysgolion gynnig cyfweliadau ailintegreiddio felly disgwylir i rieni neu ofalwyr eu mynychu er na ellir ei gwneud yn ofynnol eu bod yn eu mynychu. Os na fydd rhiant neu ofalwr yn mynd i'r cyfweliad, ni ddylai hyn effeithio ar ddychweliad y dysgwr i'r

ysgol. Ni ellir ymestyn gwaharddiad gan nad oedd rhiant neu ofalwr wedi mynd i gyfweliad ailintegreiddio.

6.3.8 Mae rhagor o wybodaeth am gyfweliadau ailintegreiddio i'w gweld yn adran 4 o Cynnwys a chynorthwyo disgyblion.

## 6.4 Y camau cyntaf ar ôl gwahardd yn barhaol

6.4.1 Mewn achos o wahardd dysgwr yn barhaol bydd enw'r dysgwr yn parhau ar gofrestr yr ysgol hyd nes:

- y gwneir penderfyniad mewn perthynas ag unrhyw apêl
- y bydd y cyfnod ar gyfer cynnal apêl wedi dod i ben a'r apêl heb ei chynnal
- y bydd rhiant neu ofalwr wedi dweud wrth yr awdurdod lleol yn ysgrifenedig nad yw'n dymuno apelio

6.4.2 Tra bod enw'r dysgwr yn parhau ar gofrestr yr ysgol, cyfrifoldeb yr ysgol mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol, fydd sicrhau bod addysg y dysgwr yn parhau. Fel yn achos gwaharddiad am gyfnod penodol hirach, efallai y bydd angen i'r ysgol ofyn am gymorth yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

## 6.5 Arian i ddilyn dysgwyr

6.5.1 Caiff y mater o drosglwyddo arian i ddilyn dysgwyr a waharddwyd yn barhaol ei drafod yn fanwl yn yr adran ar drosglwyddo o fewn yr awdurdod lleol. Yn y bôn, caiff yr arian ei dynnu o gyllideb yr ysgol sy'n gwahardd ar yr adeg pan gaiff y gwaharddiad ei gymeradwyo gan y panel apêl annibynnol. Neu os na chynhelir apêl, caiff yr arian ei dynnu ar y dyddiad olaf ar gyfer caniatáu apêl. Bydd y dysgwr yn parhau ar gofrestr yr ysgol sy'n gwahardd tan hynny a'r ysgol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am addysg y dysgwr.

6.5.2 Gan fod yn rhaid i'r awdurdodau lleol anelu at ddarparu addysg lawn-amser i ddysgwyr sydd wedi eu gwahardd 15 diwrnod ar ôl i'r pwyllgor disgyblu gadarnhau'r gwaharddiad. Bydd angen i awdurdodau lleol drafod gyda'r ysgol sy'n gwahardd bron yn syth i weld pa gymorth ychwanegol posibl y bydd angen iddyn nhw ei ddarparu i roi cymorth i'r dysgwr tra'i fod yn parhau ar gofrestr yr ysgol. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth ac am ba hyd y bydd angen y ddarpariaeth.

## 6.6 Asesu a chynllunio

6.6.1 Unwaith y bydd gwaharddiad parhaol wedi ei gymeradwyo gan y pwyllgor disgyblu, dylai'r awdurdod lleol asesu anghenion y dysgwr a ffyrdd o'u bodloni (er y gallai'r gwaharddiad gael ei wrthdroi mewn apêl). Unwaith y bydd y dysgwr wedi ei dynnu oddi ar y gofrestr, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod addysg addas yn cael ei darparu. Mewn achosion pan fydd yr ysgol sy'n gwahardd yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol gwahanol, hwn fydd yr awdurdod lleol cartref.

6.6.2 Os dilynir y weithdrefn apêl, dylid adolygu'r rhaglen cymorth bugeiliol neu gynllun ailintegreiddio ar ddiwedd y broses. Ni fydd hwn yn dileu'r angen i roi addysg lawn-amser yn y cyfamser i ddysgwyr sydd wedi eu gwahardd.

6.6.3 Wrth ddatblygu cynlluniau, dylai'r ysgol sy'n gwahardd ddarparu:

- rhesymau am y gwaharddiad
- yr hyn y mae'r dysgwr wedi'i gyflawni yn ei addysg
- y camau a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad y dysgwr
- gwybodaeth am yr asiantaethau perthnasol eraill
- p'un a oedd gan y dysgwr CDU

6.6.4 Mae rhai awdurdodau lleol yn ei chael yn ddefnyddiol i ystyried y trefniadau ar gyfer y dysgwr mewn panel sydd naill ai yn delio â gwaharddiadau yn unig neu yn gyfrifol am gydlynu gwasanaethau ar gyfer dysgwyr nad ydyn nhw'n yr ysgol. Gallai'r panel gynnwys:

- gwasanaeth gwaith cymdeithasol ym maes addysg
- gwasanaethau cymdeithasol, os yw hynny'n addas (yn enwedig os yw'r awdurdod lleol yn gofalu am y plentyn neu os yw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant)
- seicolegwyr addysg
- staff o'r unedau cyfeirio disgyblion
- staff derbyn a pholisi ADY
- phenaethiaid neu athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion

6.6.5 Bydd angen i'r awdurdodau lleol gydbwyso'r angen i sicrhau cynrychiolaeth ar gyfer pob buddiant perthnasol gyda'r angen i gynnal cyfarfod panel cyn gynted â phosibl ar ôl y gwaharddiad. Dylid gwahodd asiantaethau eraill megis y gwasanaeth ieuenctid, y gwasanaeth gyrfaoedd, y tîm troseddau ieuenctid a gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc lle bo hynny'n addas. Dylid clustnodi un swyddog o'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag unrhyw gamau y cytunwyd arnyn nhw.

## 6.7 Cynlluniau ailintegreiddio a rhaglenni cymorth bugeiliol

6.7.1 Dylai'r panel neu unrhyw un arall o fewn yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefnu addysg y tu allan i'r ysgol, lunio cynllun ailintegreiddio unigol (neu gynllun pontio) ar gyfer pob dysgwr a waharddwyd. Gall y cynllun fod yn addasiad o raglen cymorth bugeiliol bresennol neu fe all barhau i fod yn elfen ar wahân ond yn gysylltiedig. Ar gyfer dysgwyr ag ADY, dylid ei gysylltu â'u CDU.

6.7.2 Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol edrych yn ofalus ar sut i fodloni'r anghenion a nodwyd yng nghynlluniau'r unigolion drwy ddefnyddio'u hadnoddau yn greadigol ac yn hyblyg a gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau presennol a'r adnoddau ychwanegol a ddarparwyd. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i strategaethau a darpariaeth amlasiantaeth wrth ddatblygu amserlen unigol lawn. Dylid ystyried a oes angen cymorth rheolaidd ar y dysgwyr oddi wrth athro/athrawes er mwyn mynd i'r afael â'u sgiliau allweddol. Dylid cytuno ar gyfanswm y cymorth yn ôl yr hyn sydd ei angen ar y dysgwr.

6.7.3 Dylai swyddog penodol o'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynlluniau yn cael eu hadolygu yn unol â'r amserlen. Gall panel fynd i'r afael â'r rôl hon ond yr awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb dros bennu'r union drefniadau, oherwydd y mae'r cyfrifoldeb ganddyn nhw'n y pen draw dros sicrhau'r ddarpariaeth.

6.7.4 Dylai'r awdurdod lleol drafod y cynllun gyda'r rhieni neu'r gofalwyr, y dysgwr a'r ysgol sy'n derbyn y dysgwr, a lle bo hynny'n addas dylen nhw gytuno ar gamau gweithredu gyda'r dysgwr. Dylai'r cynllun gynnwys:

- y camau sydd i'w cymryd ar gyfer ailintegreiddio'r dysgwr i'r ysgol, gan gynnwys y camau sydd i'w cymryd gan uned cyfeirio disgyblion neu ddarparwr arall, er mwyn mynd i'r afael

â phroblemau'r dysgwr a sicrhau bod dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig, neu drosglwyddo i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn broses esmwyth (dylai gynnwys targedau bugeiliol ac addysgol ar gyfer ailintegreiddio)
- amserlen ar gyfer adolygu'r cynllun ailintegreiddio (dim llai nag unwaith y mis)
- enw'r ysgol fydd yn derbyn y dysgwr
- rhaglen ailintegreiddio gyda'r ysgol a enwyd; cynyddu'r cyswllt gyda'r ysgol sy'n derbyn y dysgwr, neu'r coleg neu'r darparwyr hyfforddiant
- dyddiad dychwelyd i'r ysgol neu ddyddiad cychwyn yr addysg neu hyfforddiant ôl-16

6.7.5 Pan ystyrir bod ailintegreiddio i'r brif ffrwd yn addas ac yn bosibl, dylid rhoi ystyriaeth:

- i'r trefniadau cymorth sydd i'w gweithredu gan yr awdurdod lleol a'r ysgol
- i'r goblygiadau o ran yr amserlen
- i safbwynt y dysgwr
- i safbwynt y rhieni neu'r gofalwyr
- i'r targedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol (CAMPUS)
- i fonitro ac adolygu trefniadau
- i'r targedau dysgu ac ymddygiad ar gyfer cynlluniau datblygu unigol
- i enwebu gweithiwr allweddol yn yr awdurdod lleol a'r ysgol
- i ymwneud â nifer o asiantaethau a meysydd cyfrifoldeb allweddol
- I gyswllt cartref–ysgol

## 6.8 Cynnwys a chefnogi'r rhieni a'r gofalwyr

6.8.1 Mae'n bwysig bod yr awdurdodau lleol yn cynnwys rhieni neu ofalwyr yn gynnar iawn yn y broses ac yn trafod gyda nhw unrhyw drefniadau ar gyfer lleoli eu plentyn mewn ysgol arall. Dylid gwneud pob ymdrech i drafod y mater mewn amgylchedd lle mae'r rhieni a'r gofalwyr yn teimlo'n gyffyrddus ac yn gallu mynegi'u safbwyntiau. Rhaid ystyried anghenion y rhiant neu'r gofalwr a'r teulu a dylid canfod unrhyw gymorth addas sydd ar gael. Gall rhai rhieni neu ofalwyr ddewis gwneud cais am le mewn ysgol arall heb gynnwys yr awdurdod lleol. Mewn nifer o achosion mae rhieni neu gofalwyr yn elwa ar gyngor a chefnogaeth oddi wrth yr awdurdod lleol, ac ar help gyda'r cais. Mae helpu rhieni neu ofalwyr i ddod o hyd i ysgol sy'n addas at anghenion y dysgwr hefyd o fudd i'r awdurdod lleol, gan fod budd amlwg iddyn nhw bod y broses ailintegreiddio yn llwyddiannus.

6.8.2 Yn aml iawn mae rhieni neu ofalwyr dysgwyr sydd y tu allan i'r ysgol yn gallu teimlo'n ynysig. Dylai'r rhieni neu'r gofalwyr dderbyn gwybodaeth reolaidd mewn perthynas â llwyddiant eu plentyn a dylid eu hannog i helpu'r plentyn i roi'i gynllun ar waith. Dylai'r awdurdod lleol ystyried a oes angen cymorth ychwanegol ar y teulu, megis ystafell adnoddau neu hyfforddiant mewn sgiliau rhianta a sut i fynd ati i'w cyflawni (ac yn enwedig, pa asiantaethau eraill y dylid eu cynnwys).

## 6.9 Dychwelyd i ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig

6.9.1 Yr unig adeg y dylid addysgu dysgwyr sydd wedi eu gwahardd y tu allan i ysgolion prif ffrwd yw pan fydd problemau sylweddol yn bodoli sydd angen mynd i'r afael â nhw mewn amgylchedd gwahanol. Y ffordd orau o fynd ati yn achos nifer o ddysgwyr sydd wedi'u gwahardd yn barhaol yw eu bod yn ail ymuno â'r ysgol brif ffrwd neu'r ysgol arbennig o fewn ychydig ddyddiau neu wythnosau. Bydd y broses ailintegreiddio yn fwyfwy anodd po fwyaf y bydd y dysgwr yn cael ei gadw allan o'r ysgol. Ar gyfer y rhai hynny sydd wedi eu gwahardd

yn barhaol o ysgolion cynradd, mae ailintegreiddio i ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig yn gyflym yn hanfodol bwysig. Dylai’r rhan fwyaf o ddysgwyr oed cynradd sydd wedi eu gwahardd o’r ysgol gael eu hailintegreiddio o fewn un tymor.

6.9.2 Yn achos nifer fach o ddysgwyr sy’n dynesu at ddiwedd yr oed ysgol gorfodol ni fyddai’n realistig i ddisgwyl iddyn nhw ddychwelyd i’r ysgol yn llwyddiannus. O dan yr amgylchiadau hyn dylai’r awdurdod lleol, drwy’r rhaglen cymorth bugeiliol, drefnu rhaglen o astudiaeth a phrofiad sydd wedi’i chynllunio i arwain at addysg bellach, hyfforddiant neu waith.

6.9.3 Bydd ailintegreiddio cyflym yn haws lle mae awdurdodau ac ysgolion yn cydweithio’n agos i dderbyn dysgwr sydd wedi’u gwahardd yn barhaol, er enghraifft drwy drefniant gwirfoddol lle bydd ysgolion yn cytuno os byddan nhw’n gwahardd dysgwr, y byddan nhw’n derbyn dysgwr a waharddwyd gan ysgol arall.

6.9.4 Mae'r Cod derbyn i ysgolion yn ei gwneud yn glir na ddylai awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar sail ei ymddygiad yn rhywle arall.

6.9.5 Mae'r Cod hefyd yn ei gwneud yn glir na ddylai ysgolion wrthod derbyn plentyn a ystyrir yn un a allai darfu neu ymddwyn yn heriol, ar y sail y dylid gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY ai peidio yn gyntaf.

6.9.6 Mae'r Cod derbyn i ysgolion yn cydnabod bod rhai ysgolion sydd â llai o ddysgwyr na'r lleoedd sydd ar gael ynddynt yn gweld eu bod wedi gorfod derbyn cyfran ormodol o blant â hanes blaenorol o ymddygiad heriol, a allai fod wedi arwain at waharddiad parhaol o ysgol arall. Dylai fforymau derbyn drafod sut y gallai trefniadau derbyn lleol ganiatáu i bob ysgol dderbyn cyfran fwy cyfartal o blant o'r fath, gan gynnwys plant sydd wedi'u gwahardd o ysgolion eraill, a chytuno ar brotocolau ar gyfer derbyn plant anodd eu lleoli. Dylid ystyried y canllawiau yn Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol. Rhaid i awdurdodau derbyn roi sylw i gyngor eu fforwm derbyn.

6.9.7 Mae'r Cod derbyn i ysgolion yn nodi bod rhaid i bob awdurdod derbyn gael protocolau ar waith ar gyfer derbyn plant a ystyrir ganddynt yn rhai anodd eu lleoli. Mae angen i bawb chwarae eu rhan i sicrhau bod y plant hyn, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu derbyn i ysgol addas cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys, o bosibl, derbyn plant i ysgolion sydd eisoes yn llawn.

6.9.8 Mae cydbwysedd i’w daro rhwng dod o hyd i le yn gyflym mewn ysgol sydd â mwy o leoedd ynddi nag sydd o blant wedi cofrestru, neu yn un sy’n wynebu amgylchiadau heriol, a dod o hyd i le ysgol sy’n briodol i’r plentyn. Felly, dylai’r protocol sicrhau na ofynnir i unrhyw ysgol, gan gynnwys y rhai sydd â lleoedd ar gael, gymryd nifer gormodol neu afresymol o blant sydd wedi’u gwahardd o ysgolion eraill.

6.9.9 Ar ôl derbyn dysgwr, os bydd yr ysgol yn dod i’r casgliad ei fod yn tarfu’n ddifrifol a chyson, gall ystyried cymryd camau disgyblu, gan gynnwys gweithdrefnau gwahardd dros dro a pharhaol. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi y gall plant ag ymddygiad heriol fod yn anabl yn ôl y diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac, felly, efallai y bydd angen gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer yn yr ysgol neu efallai y byddan nhw angen cymorth ADY.

6.9.10 Mae gan awdurdodau lleol a chorff llywodraethu yr ysgol a gynhelir ddyletswydd statudol o dan adran 86(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i gydymffurfio â dewis y rhieni/gofalwyr o ran derbyn dysgwyr i ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd

hon yn gymwys pan fydd dysgwr wedi'i wahardd yn barhaol o 2 ysgol neu ragor. Mae’r gofyniad i gydymffurfio â dewis y rhiant yn peidio â bod yn gymwys am gyfnod o 2 flynedd yn dilyn yr ail waharddiad.

6.9.11 Argymhellir bod yr awdurdodau lleol yn llunio protocolau cydraddoldeb wrth ystyried integreiddio dysgwyr o ysgolion eraill (gan gynnwys y rhai sydd wedi’u gwahardd yn barhaol). Dylai gydnabod anghenion yr ysgol unigol, ond hefyd hawl y dysgwr i fynychu ysgol brif ffrwd os cytunwyd bod y rhaglen cymorth bugeiliol yn addas ac yn bosibl.

6.9.12 Argymhellir yn gryf bod yr awdurdod lleol yn dynodi cyd-gysylltydd ar gyfer rheoli trosglwyddiadau a fydd, nid yn unig yn cadw golwg ar achosion unigol, ond hefyd yn gallu ystyried persbectif yr ysgolion unigol a darpariaeth yr awdurdod lleol. Gall y cyd-gysylltydd weithio’n fwy llwyddiannus wrth gysylltu’n agos â’r penaethiaid er mwyn llunio protocolau sy’n effeithiol i’r ddwy ochr.

## 6.10 Cymhellion i ysgolion prif ffrwd i dderbyn dysgwyr sydd wedi eu gwahardd

6.10.1 Mae ailintegreiddio dysgwyr a waharddwyd i ysgolion prif ffrwd yn gyflym yn her sylweddol i’r ysgolion a’r dysgwyr. Dylai’r awdurdod lleol sicrhau fod cymorth ar gael ar gyfer yr ysgol sy’n derbyn er mwyn sicrhau fod y broses ailintegreiddio yn llwyddiannus. Gellir cynnig cefnogaeth drwy wasanaethau’r awdurdod lleol – er enghraifft, drwy’r timau cymorth ymddygiad, sy’n cytuno i ddarparu lefel benodedig o gymorth pe bai problemau’r dysgwr yn ailgychwyn. Dylai’r awdurdodau lleol ystyried cynnig rhyw fath o gymhellion ariannol i ysgolion sy’n derbyn dysgwyr a waharddwyd, y gellir eu defnyddio i ariannu mwy o gymorth yn yr ystafell ddosbarth neu i brynu gwasanaethau oddi wrth yr awdurdod lleol neu wasanaethau eraill er mwyn bodloni anghenion y dysgwr. Dylai hyn fod ar wahân i’r arian a roddir wrth drosglwyddo dysgwyr o’r ysgol sy’n gwahardd i’r ysgol sy’n derbyn o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a Rheoliadau Addysg (Swm i Ddilyn Disgybl a Waharddwyd yn Barhaol) 1999 (fel y'u diwygir) (gweler yr adran ar drosglwyddiadau o fewn yr awdurdod lleol). Yr awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am bennu lefel y cymhellion ariannol, yn dibynnu ar anghenion lleol ac unrhyw gyfyngiadau o ran yr adnoddau.

## 6.11 Llwyddiant addysgol

6.11.1 Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am lwyddiant addysgol dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sy’n cael eu haddysgu y tu allan i’r ysgol. Rhaid i’r awdurdodau lleol fod yn ymwybodol bob amser faint o ddysgwyr sy’n cael eu haddysgu y tu allan i’r ysgol.

6.11.2 Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod dysgwyr yn cael pob cyfle i ennill cydnabyddiaeth fewnol neu achrediad allanol, a lle bo modd, arholiadau cyhoeddus Cyfnod Allweddol 4.

6.11.3 Dylai pob elfen o becyn addysgol unigol y dysgwyr fod wedi'u hachredu'n ffurfiol pan fo hynny'n bosibl, er enghraifft Dyfarniadau Cyrhaeddiad Ieuenctid ASDAN, Dyfarniadau Dug Caeredin, TGAU, cymwysterau galwedigaethol a thystysgrifau addysg. Os na fydd achredu ffurfiol yn bosibl yna dylid sicrhau bod llwyddiannau’r dysgwyr unigol yn cael cydnabyddiaeth fewnol. Dylen nhw gael eu cofnodi a’u cadw yn ffeil cynnydd unigol pob dysgwr.

## 6.12 Darparu addysg y tu allan i'r ysgol ar gyfer dysgwyr a waharddwyd

6.12.1 Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cynnig ystod o strategaethau hyblyg i ddarparu addysg briodol ar gyfer dysgwyr sydd wedi eu gwahardd a'r dysgwyr eraill.

**Y cwricwlwm**
6.12.2 Mae cael cwricwlwm hyblyg yn galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod mwy o amser yn cael ei dreulio ar weithgareddau a anelir at fynd i'r afael ag anghenion unigol y dysgwyr. Serch hynny, dylid ymdrechu i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn digon o addysg er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ganddo i ennill achrediad ffurfiol. Wrth ddarparu'r addysg dylid rhoi ystyriaeth i'r angen am ddulliau addysgu amrywiol, gwahaniaethiad a newidiadau i'r cwricwlwm.

6.12.3 Byddai treulio mwy o amser ar wella cymwyseddau llythrennedd a rhifedd yn fuddiol i rai dysgwyr. Bydd hyn yn eu helpu i ddysgu'n fwy effeithiol mewn lleoliad yn y brif ffrwd, a manteisio ar gwricwlwm ehangach maes o law. Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith unigol a gwaith grŵp ac addasu hyn, hyd y gellir, i anghenion y dysgwyr unigol.

6.12.4 Y prif ddulliau o gynnig addysg heblaw addysg yn yr ysgol yw:

**Presenoldeb rhan-amser mewn ysgol yn y brif ffrwd**
6.12.5 Mae'n gwbl agored i'r awdurdod lleol drefnu addysg ran-amser mewn ysgol yn y brif ffrwd. Yn gyffredinol, dylid cyfuno hyn ag unrhyw un o'r trefniadau eraill a nodir isod (gweler rhagor o wybodaeth am amserlenni rhan-amser). Dylai awdurdodau lleol gofio'r dymuniad i sicrhau bod pob dysgwr sydd wedi'i wahardd yn cynnal rhyw fath o gyswllt ag addysg brif ffrwd. Ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed gallai hyn fod ar ffurf rhyw ddarpariaeth ôl-16.

**Unedau cyfeirio disgyblion**
6.12.6 Yn aml cynigir darpariaeth i ddysgwyr sydd wedi eu gwahardd drwy'r unedau cyfeirio disgyblion. Dylai'r ddarpariaeth fod yn hyblyg ac yn greadigol wrth fodloni anghenion y dysgwyr unigol a'r ysgolion yn y brif ffrwd. Dylai'r ddarpariaeth alluogi staff a dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn gynhyrchiol er mwyn bodloni'r targedau unigol a osodwyd yn y rhaglenni cymorth bugeiliol a/neu'r CDUau. Dylid rhoi ystyriaeth i waith amlasiantaeth, er enghraifft rhannu lleoliadau, lle bynnag y byddai hynny'n fwy buddiol i'r dysgwyr.

**Mudiadau gwirfoddol**
6.12.7 Mae rhai awdurdodau lleol yn contractio cyrff eraill i ddarparu addysg y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol a hefyd yn lleoli dysgwyr mewn unedau sy'n cael eu rhedeg gan gyrff gwirfoddol. Gall cytundebau contractio tebyg fod yn ffordd effeithiol i'r awdurdodau lleol fodloni'u dyletswydd i ddarparu addysg y tu allan i'r ysgol.

**Colegau addysg bellach**
6.12.8 Gall colegau addysg bellach fod yn opsiwn sy'n addas ar gyfer nifer o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 neu 11. Mae colegau addysg bellach yn gallu darparu addysg llawn-amser neu ran-amser i ddysgwyr sydd o oed ysgol gorfodol. Mae rhai colegau wedi datblygu rhaglenni rhan-amser arbennig er mwyn esmwytho'r trosglwyddiad i addysg neu hyfforddiant ôl-16, sy'n debygol o fod o ddiddordeb arbennig i ddysgwyr ag anawsterau. Yr awdurdod lleol sy'n parhau yn gyfrifol am y gost o sicrhau darpariaeth yn y sector addysg bellach ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u gwahardd a'r awdurdod lleol sydd hefyd yn parhau i fod yn atebol am y ffordd y maen nhw'n mynd ati i gyflawni'u dyletswydd i ddarparu addysg.

**Lleoliadau gwaith**
6.12.9 Mae'n ddigon posibl y bydd dysgwyr hŷn yn elwa o dreulio un diwrnod yr wythnos mewn lleoliad gwaith, efallai'n astudio am gymhwyster galwedigaethol. Gall hyn fod o gymorth iddyn nhw gael sgiliau bywyd ehangach. Dylid cynllunio a monitro darpariaeth o'r fath yn ofalus iawn. Gallai'r amserlen hefyd gynnwys cyrsiau arbennig i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â'r gwaith o dan ofal asiantaethau megis y gwasanaeth gyrfaoedd, y gwasanaeth ieuenctid a sefydliadau gwirfoddol.

**Dysgu unigol ac yn y cartref**
6.12.10 Fel arfer nid yw dysgu unigol, yn enwedig yng nghartref y dysgwr yn addas i fodloni anghenion dysgwyr sydd wedi eu gwahardd yn barhaol, ond gallai fod o ddefnydd yn y tymor byr pan gaiff ei gydlynu â gwasanaethau addysg eraill. Mae rhai awdurdodau lleol wedi gweld bod gwasanaeth dysgu sydd wedi'i integreiddio gyda'r uned cyfeirio disgyblion yn ddefnydd hyblyg o adnoddau yn ogystal â chynnig cymorth proffesiynol a chymdeithasol i diwtoriaid yn y cartref. Gall hefyd fod o gymorth i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol i'r cwricwlwm yn yr unedau cyfeirio disgyblion.

**Amserlenni rhan-amser a lleihau oriau**
6.12.11 Gall lleihau oriau neu amserlenni rhan-amser helpu dysgwyr i ailintegreiddio mewn ysgol ar ôl absenoldeb hir neu gall fod yn ffordd o atal mwy o absenoldebau. Fodd bynnag, effaith hyn yn gyffredinol yw lleihau faint o amser y mae dysgwyr yn ei dreulio yn yr ysgol, gydag effaith negyddol bosibl ar eu cynnydd a'u llesiant. Hefyd, gall amserlenni rhan-amser roi pwysau ar deuluoedd a gallan nhw arwain at ymddieithrio dysgwyr ymhellach o addysg.

6.12.12 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid lleihau oriau, a hynny fel mesur tymor byr o 6 wythnos ar y mwyaf fel arfer, gyda'r bwriad i'r dysgwr ddychwelyd i addysg amser llawn cyn gynted â phosibl. Pan fo angen trefniant tymor hwy, dylai'r awdurdod lleol ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol.

6.12.13 Ni ddylid fyth leihau oriau fel ffordd o reoli problemau ymddygiad. Mae gan bob dysgwr yr hawl i gael addysg amser llawn a mynediad at y cwricwlwm. Hefyd, mae'n ofynnol i ysgolion gyflwyno'r cwricwlwm, oni fydd eithriadau yn gymwys.

6.12.14 Dylid cofnodi trefniadau i leihau oriau mewn cynllun fel trefniant ffurfiol rhwng y rhieni neu'r gofalwyr, y plentyn a'r ysgol, er enghraifft fel rhan o gynllun ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad (gweler adran 6.7 Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion) neu drefniant symudiad wedi'i reoli (gweler Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol; mae'r atodiadau yn cynnwys ffurflen gydsynio symudiad wedi'i reoli a ffurflen ganlyniadau symudiad wedi'i reoli). Gellir hefyd gofnodi trefniadau i leihau oriau mewn cynllun cymorth bugeiliol neu mewn cynllun cymorth ymddygiad, pan fo gan y dysgwr gynllun o'r fath.

6.12.15 Cyn bwrw ymlaen ag amserlen â llai o oriau, dylid ymgynghori'n llawn â'r rhieni neu'r gofalwyr, y dysgwyr a'r awdurdod lleol (fel y gwasanaeth lles addysg neu'r gwasanaeth cynhwysiant). Gall amserlen â llai o oriau a ddatblygwyd gan yr ysgol heb gynnwys yr awdurdod lleol a heb gytundeb y rhieni gael ei dehongli fel gwaharddiad answyddogol. Mae hyn yn anghyfreithlon gan nad yw'r rhiant neu'r gofalwr wedi gofyn am absenoldeb i'r plentyn a/neu gellid ystyried bod yr ysgol yn atal y dysgwr rhag cael mynediad i'r cwricwlwm.

6.12.16 Wrth ystyried trefnu amserlen â llai o oriau i ddysgwr dylai'r ysgol wneud y canlynol:

- bod wedi'i bodloni bod amserlen â llai o oriau yn ymyrraeth briodol o ystyried anghenion y dysgwr (rhaid cael rhesymeg glir sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros ystyried amserlen â llai o oriau fel ymyrraeth â'r nod o gefnogi'r dysgwr i drosglwyddo yn ôl i addysg amser llawn)
- gwerthuso'r cymorth sydd eisoes wedi cael ei roi ac ystyried yr angen am unrhyw ymyraethau ychwanegol (gallai hyn gynnwys cymorth ymddygiad ychwanegol pan fo dysgwr, er enghraifft, yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod hir oherwydd ei fod wedi'i wahardd o'r ysgol)
- llunio rhesymeg glir dros y trefniadau addysg arfaethedig, megis addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth dysgu cyfunol, gan ystyried anghenion y dysgwr
- ymgynghori â'r dysgwr, ei rieni neu ofalwyr a'r awdurdod lleol i gael cydsyniad i fwrw ymlaen ag amserlen â llai o oriau
- sicrhau, pan fo gan ddysgwr CDU, y bodlonir nifer yr oriau o gymorth a nodir yn y CDU i sicrhau bod ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol
- sicrhau na fyddai amserlen â llai o oriau yn effeithio ar drefniadau teithio a thrafnidiaeth mewn ffordd a fyddai'n ei gwneud yn anodd i'r dysgwr gael mynediad at addysg
- sicrhau na fyddai trefniadau ar gyfer amserlen â llai o oriau yn gwahaniaethu yn erbyn mynediad dysgwr i brydau ysgol am ddim
- bod yn fodlon y byddai trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a gofal y dysgwr yn ystod y cyfnod y byddai disgwyl iddo fod yn yr ysgol fel arall, a sicrhau cytundeb ysgrifenedig gan y rhieni neu'r gofalwyr ynghylch pwy sy'n gyfrifol am les y dysgwr ar gyfer y sesiynau dan sylw

6.12.17 Pan fydd y dysgwr, ei rieni neu ofalwyr a’r awdurdod lleol wedi cytuno y dylai dysgwr gael amserlen â llai o oriau, dylai’r ysgol:

- nodi’r trefniadau newydd mewn cytundeb ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan bob parti a’i ategu gan dystiolaeth gefnogol gan weithwyr proffesiynol megis CAMHS, ymgynghorwyr iechyd neu seicolegydd addysgol
- rhoi cynllun gweithredu ysgrifenedig manwl i’r dysgwr a’i riant neu ofalwr, neu'r person ifanc, ynghyd â pherson penodol sy'n gyfrifol, amcanion clir, targedau a dyddiadau adolygu a dyddiad arfaethedig ar gyfer dychwelyd i addysg amser llawn
- cydgysylltu â'r rhieni neu'r gofalwyr drwy gydol y broses, cael cymeradwyaeth a chaniatâd ysgrifenedig y rhieni
- cydgysylltu â'r awdurdod lleol drwy gydol y cyfnod i ddod i gytundeb ar y cynllun arfaethedig
- cydgysylltu â'r holl asiantaethau perthnasol drwy gydol y cyfnod a rhoi copi o'r cynllun iddyn nhw
- cynnal asesiad risg o ran goblygiadau diogelu i'r dysgwr am nad yw yn yr ysgol a threfnu i'r dysgwr gael ei weld drwy ddulliau rhithwir gan weithiwr proffesiynol yn rheolaidd os nad oes modd ei weld wyneb yn wyneb
- pennu trefniadau cadarn i aelod penodol o'r uwch staff fonitro'r cynllun a'i adolygu'n rheolaidd
- sicrhau trefniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol allweddol o ran cynnydd tuag at ailintegreiddio'r dysgwr yn llawn
- cadw cofnod ffurfiol o bob dysgwr sy'n dilyn amserlenni â llai o oriau, gan gynnwys y dyddiad gweithredu a'r dyddiadau adolygu

6.12.18 Pan fo pob parti wedi cytuno i lai o bresenoldeb yn yr ysgol, gall y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig hefyd gynnwys dysgu o bell neu ddysgu cyfunol naill ai drwy blatfformau ar-lein yr ysgol neu ar ffurf copi caled, pan fo'r dysgwr a'r rhiant neu ofalwr yn ffafrio hynny, i

sicrhau parhad y dysgu. Ni ddylai ysgolion ddefnyddio cod B (gweithgaredd addysg cymeradwy sy'n cyfrif fel bod yn bresennol) pan fydd dysgwr yn astudio gartref fel rhan o drefniant amserlen â llai o oriau neu amserlen ran-amser y cytunwyd arni. Pan na fydd dysgwyr yn yr ysgol, ni chânt eu goruchwylio ac nid yw'r trefniant yn unol â'r diffiniad cyfreithiol o weithgaredd addysg cymeradwy. Dylid defnyddio cod cofrestru C ar gyfer absenoldeb awdurdodedig pan fydd dysgwr wedi dilyn amserlen â llai o oriau neu ran-amser y cytunwyd arni.

6.12.19 Dim ond lle mae dysgwr cofrestredig yn cael ei addysgu oddi ar y safle ac mae’r gweithgaredd yn un sydd wedi'i oruchwylio a’i gymeradwyo gan yr ysgol y gellir defnyddio cod cofrestru B ar gyfer gweithgaredd addysgol cymeradwy. Ni ddylai ysgolion ddefnyddio'r cod hwn os bydd dysgwyr yn cael eu hanfon adref i astudio'n breifat, ar gyfer cyfnod o absenoldeb astudio, neu fel rhan o drefniadau dysgu o bell neu ddysgu cyfunol.

# 7. Arian i ddilyn dysgwyr a waharddwyd

## 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae adran 494 o Ddeddf Addysg 1996 a Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn darparu y dylai cyllid ddilyn dysgwr sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.

7.1.2 Pan fydd dysgwr yn cael ei wahardd yn barhaol o ysgol a gynhelir, mae cyfran yr ysgol o'r gyllideb am y flwyddyn honno yn cael ei gostwng yn ôl y swm sy'n ofynnol yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

7.1.3 Pan fydd ysgol yn derbyn dysgwr a waharddwyd yn barhaol yn y flwyddyn ariannol honno o ysgol arall a gynhelir, bydd yr awdurdod lleol yn neilltuo swm ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol fel sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliadau.

7.1.4 Mae Rhan 3 Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, sy'n trafod cyfrannau ysgolion o'r cyllidebau, yn ymestyn trosglwyddo'r cyllid i gynnwys dysgwyr y penderfynodd y panel apêl annibynnol beidio â'u gwahardd, er na roddwyd cyfarwyddyd i'w derbyn yn ôl i'r ysgol. Trafodir y trosglwyddiadau rhwng yr awdurdodau lleol yn Rheoliadau Addysg (Swm i Ddilyn Disgyblion a Waharddwyd yn Barhaol) 1999 (fel a ddiwygiwyd).

7.1.5 Gall yr arian ddilyn y dysgwr i ysgol arall a gynhelir y bydd y dysgwr yn cael ei dderbyn iddi. Fel arall, gallai fod yn help i dalu costau'r awdurdod lleol o ddarparu addysg heblaw mewn ysgol o dan ddyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. Byddai hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer dysgwr mewn uned cyfeirio disgyblion.

## 7.2 Dyddiad perthnasol

7.2.1 Y dyddiad perthnasol ar gyfer trosglwyddo'r cyllid fydd y dyddiad y bydd y panel apêl annibynnol yn cadarnhau'r gwaharddiad neu'n penderfynu peidio â chyfarwyddo bod y dysgwr yn cael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol, neu mewn achos lle nad oes apêl, diwedd y cyfnod pryd y gellid bod wedi gwneud apêl. Bydd cysylltiad rhwng hyn a bod y dysgwr yn aros ar gofrestr yr ysgol wreiddiol. Felly, bydd yr ysgol yn parhau i gael cyllid ar gyfer y dysgwr a bydd yn parhau'n gyfrifol, ynghyd â'r awdurdod lleol, am drefnu addysg briodol tra bod y dysgwr yn parhau ar y gofrestr.

## 7.3 Trosglwyddiadau o fewn yr awdurdod lleol

7.3.1 Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ostwng y gyfran berthnasol o gyllideb unrhyw ysgol y mae'n ei chynnal sy'n gyfrifol am y gwaharddiad. Caiff y swm ei bennu yn ôl y fformiwla ariannu a amlinellir yn rheoliad 22 yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol ar gyfer ysgolion cynradd neu uwchradd a gynhelir (heblaw rhai arbennig) am y flwyddyn ariannol sy'n cynnwys y dyddiad perthnasol, gan ystyried:

- oedran
- nodweddion

7.3.2 Mae 'nodweddion' yn golygu unrhyw ffactor sy'n berthnasol i'r dysgwr ac a ddefnyddiwyd yn fformiwla ariannu yr awdurdod lleol, er enghraifft yr hawl i gael cinio ysgol am ddim. Mae hyn yn gyfle i'r awdurdod lleol, os dymuna, dynnu mwy na dim ond yr uned a

gafodd ei mesur ar sail oedran y dysgwr. Serch hynny gall yr awdurdod lleol benderfynu y byddai ailgyfrif y gyfran gyllideb ar y sail hon yn aneffeithlon a gallai ddewis tynnu dim ond yr uned gafodd ei mesur yn ôl oedran y dysgwr.

7.3.3 Diffinnir y fformiwla (Cyfrifiad 1) ar gyfer awdurdod lleol sy'n gostwng cyfran o gyllideb un o'i ysgolion ei hun sydd wedi gwahardd dysgwr fel:

$$\frac{A \times B}{52}$$

- A yw'r swm sy'n cael ei neilltuo ar gyfer dysgwr cofrestredig a benderfynwyd yn unol â'r fformiwla ddyrannu o dan reoliad 22 yn ôl yr hyn sy'n berthnasol yn y flwyddyn ariannol y digwydd y gwaharddiad ynddi.
- B yw nifer yr wythnosau cyflawn sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol ac sy'n cael eu cyfrif o'r dyddiad perthnasol.

**Y dyddiad pan fydd yr ysgol sy'n gwahardd yn colli'r arian**
7.3.4 Bydd yr ysgol sy'n gwahardd yn colli'r arian o ddyddiad perthnasol y gwaharddiad (fel y'i diffinnir yn yr adran ar y dyddiad perthnasol). Bydd yr arian yn cael ei roi i'r ysgol newydd o'r dyddiad y derbynnir y dysgwr iddi. Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r gwahaniaeth rhwng y 2 swm hyn i gyfrannu tuag at unrhyw adeg pan fydd y dysgwr yn cael ei addysgu y tu allan i'r ysgol. Os na ellir dod o hyd i le mewn ysgol, bydd yr awdurdod lleol cartref yn cadw'r swm cyfan ar gyfer addysgu y tu allan i'r ysgol.

**Wythnosau cyfan**
7.3.5 Mae'r fformiwla yn defnyddio wythnosau cyflawn yn sail i'r cyfrifiad. Mae hyn yn cynrychioli'r gyfran honno o'r flwyddyn ariannol gyfan y bu'r dysgwr yn yr ysgol. Mae nifer yr wythnosau calendr cyflawn yn cael eu cyfrif allan o 52, sy'n cynnwys gwyliau ysgol, gwyliau banc a phenwythnosau. Mae wythnosau cyflawn yn cael eu cyfrif o'r dyddiad perthnasol tan ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol, sef 31 Mawrth.

**Ysgol sy'n derbyn dysgwr a waharddwyd**
7.3.6 Bydd yr ysgol newydd yn cael y swm a dynnwyd oddi wrth yr hen ysgol, neu gyfran o'r swm hwnnw os bydd yr awdurdod lleol yn gwneud darpariaeth y tu allan i'r ysgol. Cynrychiolir hyn gan y fformiwla ganlynol (Cyfrifiad 2):

$$\frac{D \times E}{F}$$

- D yw'r swm y cyfrifir ei fod wedi cael ei gymryd o'r ysgol sy'n gwahardd fel a nodir yng nghyfrifiad 1.
- E/F yw ffactor ar gyfer addasu i gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd na fydd y dysgwr yn symud ar ei union o'r ysgol sy'n gwahardd i'r ysgol sy'n derbyn.
- E yw nifer yr wythnosau cyflawn sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol pan fydd y dysgwr wedi'i gofrestru yn yr ysgol sy'n derbyn.
- F yw nifer yr wythnosau cyflawn sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol wedi'u cyfrif o'r dyddiad perthnasol ymlaen.

**Eithriad ar gyfer blwyddyn drosglwyddo**
7.3.7 Os yw'r dysgwr a waharddwyd mewn blwyddyn drosglwyddo ac os yw'r dyddiad perthnasol rhwng 1 Ebrill a dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf, yna caiff y cyllid ei dynnu tan ddiwedd y flwyddyn ysgol yn hytrach na diwedd y flwyddyn ariannol.

7.3.8 Blwyddyn drosglwyddo yw'r flwyddyn ysgol cyn y bydd dysgwr yn dechrau mewn ysgol uwchradd, sef Blwyddyn 6 fel rheol. Nid yw blwyddyn olaf addysg orfodol (Blwyddyn 11) yn cyfrif fel blwyddyn drosglwyddo. Os bydd dysgwr yn cael ei wahardd yn ei dymor olaf yn yr ysgol, bydd yr arian ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan yn cael ei dynnu o gyllideb yr ysgol.

7.3.9 Diwedd y flwyddyn ysgol yw'r diwrnod calendr olaf cyn y tymor cyntaf ar ôl Gorffennaf, er enghraifft os bydd blwyddyn ysgol newydd yn dechrau ar 1 Medi, yna bydd y flwyddyn ysgol yn diweddu ar 31 Awst.

**Nifer dysgwyr ar gyfer cyllid blwyddyn nesaf**
7.3.10 Gall yr awdurdod lleol addasu nifer gwirioneddol y dysgwyr i adlewyrchu'r gwaharddiadau a wnaed ar ôl y dyddiad ar gyfer cyfrif dysgwyr, sef yr hyn sy'n pennu'r cyllid sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys gostwng neu gynyddu'r niferoedd oherwydd gwaharddiadau parhaol. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd os caiff dysgwr ei wahardd rhwng dyddiad y cyfrifiad ysgol ym mis Ionawr a 31 Mawrth. Gall awdurdodau lleol addasu nifer gwirioneddol y dysgwyr a'r amcangyfrif wrth bennu cyfrannau cychwynnol yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, yn ogystal ag unrhyw gyfran o'r gyllideb a gaiff ei hailbennu yn ystod y flwyddyn.

**Ysgolion arbennig**
7.3.11 Yn achos dysgwr sy'n cael ei wahardd o ysgol arbennig, dylai'r swm fod yr un peth ag ar gyfer dysgwr o'r un oed a nodweddion â dysgwr a waharddwyd o ysgol gynradd neu ysgol uwchradd brif ffrwd.

**Ysgolion heb gyllidebau dirprwyedig**
7.3.12 Weithiau, bydd dysgwr yn cael ei wahardd o ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol sydd heb gyllideb ddirprwyedig. Yn y sector prif ffrwd mae'n bosibl y bydd ysgol sy'n gwahardd wedi colli ei chyllideb ddirprwyedig trwy fod yr awdurdod lleol wedi'i thynnu'n ôl yn unol ag adran 51 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

7.3.13 Ni ddylai colli cyllideb ddirprwyedig effeithio ar y modd y bydd cyllid yn symud o dan y trefniant hwn. Bydd cyllidebau ysgolion o'r fath yn dal i gael eu pennu ar sail cynllun. Yr awdurdod lleol fydd yn rheoli'r gyllideb. Bydd awdurdodau lleol eraill yn hawlio cyllid oddi wrtho ar gyfer dysgwyr a waharddwyd yn barhaol o'r ysgol.

7.3.14 Yn yr un modd, bydd rheidrwydd ar yr awdurdod lleol i ychwanegu at gyllideb ysgol y mae'n ei chynnal os bydd dysgwr a waharddwyd yn barhaol yn cael ei dderbyn iddi.

## 7.4 Trosglwyddo rhwng awdurdodau lleol

7.4.1 Yn achos arian sy'n cael ei drosglwyddo rhwng awdurdodau lleol, er enghraifft pan fydd dysgwr yn byw mewn un ardal ond yn mynychu ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol arall, fformiwla ariannu yr awdurdod lleol lle saif yr ysgol sy'n pennu'r swm. Os bydd hyn wedyn yn cael ei roi i awdurdod lleol gwahanol ac i ysgol yn yr awdurdod lleol hwnnw neu drydydd awdurdod lleol, ni fydd y naill gynllun ariannu na'r llall yn effeithio ar y cyfrifiad.

7.4.2 Bydd y fformiwla ar gyfer cyfrif y cyllid a drosglwyddir rhwng awdurdodau lleol yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gyllid ar gyfer y dysgwr hwnnw a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol, ac nid yng nghyllideb ddirprwyedig yr ysgol, fel a ganlyn (Cyfrifiad 3):

$$\frac{(A + B) \times C}{52}$$

- A yw'r swm a gafodd ei gyfrif i'w dynnu o'r ysgol sy'n gwahardd fel y'i diffinnir ym mharagraff 7.3.3.
- B yw'r swm o gyllideb ysgolion lleol yr hen awdurdod lleol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y dysgwr hwnnw ond sydd heb ei ddirprwyo i'r ysgol (hynny yw y swm a gedwir gan yr awdurdod lleol).
- C yw nifer yr wythnosau cyflawn sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol wedi'u cyfrif o'r dyddiad perthnasol ymlaen.

**Yr angen am dalu'n brydlon**
7.4.3 Rhaid i'r broses o drosglwyddo arian rhwng awdurdodau lleol gael ei chwblhau cyn pen tri mis o'r dyddiad perthnasol.

## 7.5 Sut i ddatrys anghydfodau

7.5.1 Os oes anghydfod ynghylch a oes gan ysgol hawl i gael unrhyw swm ar gyfer dysgwr a waharddwyd yn barhaol gan ysgol arall a gynhelir gan yr awdurdod lleol, dylai'r mater gael ei benderfynu gan Gweinidogion Cymru yn unol ag Adran 494 o Ddeddf Addysg 1996.

## 7.6 Siart yn darlunio'r broses – trefniadau ar gyfer arian sy'n dilyn dysgwyr a waharddwyd yn barhaol o'r ysgol

